



edexcel 

# Unedau

Dyfarniadau Cenedlaethol BTEC

**Edexcel Lefel 3 BTEC Tystysgrif/Diploma Atodol/Diploma/  
Diploma Estynedig Celfyddyday Perfformio (FfCCh)**

I'w haddysgu dysgu gynta Medi 2010

Medi 2011



Translated by: Elin Meek

Proofread by: Catrin Alun

---

# Cynnwys

---

Uned 1:	Gweithdy Perfformio	1
Uned 3:	Busnes Celfyddydau Perfformio	7
Uned 4:	Cyd-destun Hanesyddol Perfformio	13
Uned 5:	Ymarfer ar gyfer Perfformiad	17
Uned 7:	Perfformio i Gynulleidfa	23
Uned 9:	Dyfeisio Dramâu	29
Uned 10:	Theatr mewn Addysg	35
Uned 11:	Theatr i Blant	39
Uned 12:	Perfformiad Theatr Glasurol	43
Uned 13:	Perfformiad Theatr Gyfoes	47
Uned 14:	Perfformiad Theatr Gerdd	51
Uned 15:	Perfformiad Adloniant (Variety)	55
Uned 16:	Perfformio gyda Masgiau	61
Uned 17:	Datblygu Llais i'r Actor	67
Uned 18:	Clyweliadau i Actorion	73
Uned 19:	Egwyddorion Actio	77
Uned 20:	Defnyddio Arddulliau Actio	83
Uned 21:	Creu Drama'n Fyrfyfyr	89
Uned 22:	Actio mewn Perfformiad Sain	93
Uned 23:	Actio Ffilm a Theledu	97
Uned 24:	Perfformio Meim	101
Uned 25:	Cyfarwyddo i'r Theatr	107
Uned 26:	Dulliau Cyfarwyddo i'r Theatr	111
Uned 27:	Ysgrifennu Sgriptiau	115
Uned 28:	Adrodd stori fel Perfformiad	121
Uned 29:	Techneg Comedi Standyp	127
Uned 30:	Sgiliau Canu i Actorion a Dawnsywyr	133
Uned 31:	Datblygu Arddulliau ym maes Clownio	139

<b>Uned 32:</b>	<b>Datblygu Theatr Gorfforol</b>	<b>145</b>
<b>Uned 33:</b>	<b>Defnyddio Theatr Gorfforol</b>	<b>151</b>
<b>Uned 34:</b>	<b>Acrobateg Sycas</b>	<b>155</b>
<b>Uned 35:</b>	<b>Sycas Awyrol</b>	<b>161</b>
<b>Uned 36:</b>	<b>Sgiliau Cydbwyso Sycas</b>	<b>167</b>
<b>Uned 37:</b>	<b>Sgiliau Trin Sycas</b>	<b>173</b>
<b>Uned 38:</b>	<b>Perfformio Dawns</b>	<b>179</b>
<b>Uned 39:</b>	<b>Egwyddorion Coreograffi</b>	<b>185</b>
<b>Uned 50:</b>	<b>Symud wrth Berfformio</b>	<b>189</b>
<b>Uned 51:</b>	<b>Dawns Ryngwladol</b>	<b>195</b>
<b>Uned 52:</b>	<b>Dawns Drefol</b>	<b>199</b>
<b>Uned 53:</b>	<b>Archwilio Cyswllt Byrfyfyr</b>	<b>205</b>
<b>Uned 54:</b>	<b>Gwerthfawrogi Dawns</b>	<b>211</b>

# Uned 1: Gweithdy Perfformio

<b>Cod yr uned:</b>	<b>L/502/4904</b>
<b>FfCCh Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Mae'r uned hon yn galluogi'r dysgwyr i archwilio'r broses o wneud perfformiad ac i arbrofi â syniadau perfformio a rhoi cynnig arnynt mewn sefyllfaoedd gweithdy ymarferol.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae'r uned hon yn pwysleisio sut mae'r celfyddydau perfformio'n perthyn i'w gilydd, ac yn annog y dysgwyr i weithio ar draws disgyblaethau dawn, drama a cherddoriaeth, er bod un ffurf yn dderbyniol. Mae'n rhoi cyfle cyffrous i ddysgwyr archwilio a chyfannu'r sgiliau y maen nhw'n eu datblygu i greu deunydd perfformio. Bydd y prosesau gweithdy'n cynnwys datblygu syniadau drwy ymchwil ac archwilio ymarferol, llunio ac ymarfer deunydd, a pherfformio'r gwaith i gynulleidfa. Yn ogystal, bydd y dysgwyr yn gwerthuso'r deunydd a grëwyd i'w berfformio ac yn ystyried ei effeithiolrwydd.

Awgrymir y bydd y dysgwyr yn gweithio ar ddau berfformiad gweithdy; un wedi'i greu o'r cychwyn cyntaf, gan ddefnyddio ysgogiadau a all ddod o un ffynhonnell neu o ystod o ffynonellau, a'r llall gan ddefnyddio deunydd wedi'i sgriptio neu ddeunydd arall wedi'i baratoi yn fan cychwyn i'r broses ddatblygu ac ymarfer. Yn ddelfrydol, dylai'r gwaith ddod â dawn, drama a/neu gerddoriaeth at ei gilydd er bod gwaith sy'n defnyddio un ddisgyblaeth yn unig yn dderbyniol.

Bydd y gwaith i'r uned hon yn cael ei greu a'i werthuso mewn cyd-destun galwedigaethol. At y diben hwn, rhaid i'r dysgwyr fod yn ymwybodol mai greu cynnyrch i gynulleidfa maen nhw yn y bôn, a bod angen iddyn nhw werthuso'i botensial yn unol â hynny. Bydd y sgiliau a'r technegau a ddatblygir yn yr uned hon, ynghyd â dealltwriaeth o greu gwaith i gynulleidfa darged, yn rhoi sylfaen gwerthfawr i'r dysgwyr i symud ymlaen i addysg uwch a/neu yrfaedd yn y diwydiant celfyddydau perfformio.

**Dylai'r dysgwyr gymryd rhan mewn o leiaf ddau berfformiad gweithdy. Rhaid i un perfformiad fod o waith sy'n bodoli'n barod, er enghraifft sgript, sgôr neu gyfarwyddyd coreograffi; a'r llall yn ddarn o waith gwreiddiol.**

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai dysgwr:

- 1 Gallu dehongli syniadau ar gyfer deunydd perfformio
- 2 Gallu defnyddio syniadau'n greadigol
- 3 Gallu cymryd rhan mewn perfformiadau gweithdy
- 4 Deall y broses weithdy yng ngoleuni'r perfformiad.

# Cynnwys yr uned

---

## 1 Gallu dehongli syniadau ar gyfer deunydd perfformio

*Ffynonellau:* themâu ee materion cymdeithasol, diwylliannol, hanesyddol, moesegol, ysbrydol a/neu foesol; testunol ee deunydd hunangofiannol, testun llenyddol ac anllenyddol, cerddi, storïau, nodiant dawn, sgorau cerddoriaeth, cerddoriaeth daflen; gweledol ee darlun, cardiau post, ffotograffau, arteffactau; clywedol ee cerddoriaeth, recordiadau sain, sain fyw; cyfryngau ee ffilmiau, fideos, darnau o bapurau newydd neu gylchgronau

*Archwilio:* ee ymarferion, creu'n fyrfyfyr, ymchwil, trafodaethau, mapio syniadau a meddyliau, arbrofion

## 2 Gallu defnyddio syniadau'n greadigol

*Datblygu:* llunio syniadau; archwilio ystyr; cyfathrebu ystyr; defnyddio gwahanol ffurfiau; elfennau; technegau a/neu strwythurau; defnyddio'r cyfrwng a/neu gyfryngau a ddewiswyd mewn gwahanol ffyrdd

*Ymarfer:* nodi a defnyddio'r sgil(iau) gofynnol; ymarfer a mireinio sgiliau; rhoi a/neu dderbyn cyfarwyddiadau; rheoli amser; dysgu llinellau a/neu symudiadau

## 3 Gallu cymryd rhan mewn perfformiadau gweithdy

*Cyflwyniad:* ee unawd, ensemble, byw, wedi'i recordio, actio, canu, dawnsio

Sgiliau perfformio: ee defnyddio'r corff, llais, offeryn, cyfathrebu â chynulleidfa, cyfathrebu â pherfformwyr eraill

## 4 Deall y broses weithdy yng ngoleuni'r perfformiad

*Artistig a phroffesiynol:* ee gwerthoedd cynhyrchu, effeithiolrwydd, creadigrwydd, eglurder y dehongliad, gweithredu sgiliau perfformio lleisiol a chorfforol, bodloni'r amcanion, ymateb y gynulleidfa, gosod targedau, perthnasoedd gwaith, hunanfeirniadaeth, rheoli amser a thasgau

*Galwedigaethol:* ee cynulleidfa darged i'r gwaith, potensial i ddatblygu ymhellach, natur y gwaith a marchnadoedd posibl, hyfywedd economaidd

**Dylai'r dysgwyr gymryd rhan mewn o leiaf ddau berfformiad gweithdy. Rhaid i un perfformiad fod o waith sy'n bodoli'n barod, er enghraifft sgript, sgôr neu gyfarwyddyd coreograffi; a'r llall yn ddarn o waith gwreiddiol.**

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> dangos ymateb i ddeunydd ffynhonnell drwy ymchwil a gweithdai ymarferol, gan gydnabod posibiliadau amlwg fel deunydd perfformio [YA]	<b>T1</b> dangos ymatebion ystyriol i ddeunydd ffynhonnell, gan archwilio ei bosibiliadau mwy creadigol fel deunydd perfformio gyda chraffter a sylw i fanylion	<b>Rh1</b> dangos ystod o ymatebion manwl i ddeunydd ffynhonnell, lle mae'r posibiliadau fel deunydd perfformio'n cael eu harchwilio'n dreiddgar ac yn gynhwysfawr
<b>LI2</b> datblygu a llunio syniadau ymarferol [MC, GT, HR]	<b>T2</b> datblygu a llunio'r syniadau mwyaf ymarferol	<b>Rh2</b> datblygu a llunio'r syniadau mwyaf creadigol
<b>LI3</b> perfformio gyda lefel o sgil sy'n briodol i'r cyfrwng a ddewiswyd gan ddangos ymgysylltu â'r deunydd a chyfathrebu syniadau i gynulleidfa [GT]	<b>T3</b> perfformio gyda lefel o sgil sy'n dangos cryn reolaeth wrth drin y cyfrwng a ddewiswyd, cryn ymgysylltu â'r deunydd, gan gyfathrebu syniadau i gynulleidfa gyda chanolbwynt	<b>Rh3</b> perfformio gydag ymdeimlad o ddawn, hyder a rheolaeth sicr ar y cyfrwng a ddewiswyd, gan ddangos canolbwynt ac ymgysylltu cyson â'r deunydd a chyfathrebu eglur ac ymatebol i gynulleidfa
<b>LI4</b> gwerthuso potensial y gwaith yn artistig, proffesiynol a galwedigaethol gan gydnabod cryfderau a gwendidau'r gwaith. [DM]	<b>T4</b> gwerthuso potensial y gwaith yn artistig, proffesiynol a galwedigaethol, gyda barn ystyriol am yr hyn a weithiodd yn dda a/neu ddim cystal.	<b>Rh4</b> gwerthuso potensial y gwaith yn artistig, proffesiynol a galwedigaethol gyda'r cryfderau a'r gwendidau wedi'u nodi'n eglur a'r farn wedi'i chyfiawnhau'n llwyr a'i mynegi'n feddylgar.



**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnoddi, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol



# Uned 3: Busnes Celfyddydau Perfformio

<b>Cod yr uned:</b>	<b>L/502/4899</b>
<b>FfCCh Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

---

## Nod a phwrpas

Yn yr uned hon bydd y dysgwyr yn dod i ddeall sut caiff ystod o gyrff celfyddydau perfformio eu rheoli'n strwythurol ac yn ariannol; byddan nhw'n nodi cyfleoedd cyflogaeth posib yn y meysydd hyn o'r diwydiant celfyddydau perfformio.

## Cyflwyniad i'r uned

Bydd y dysgwyr yn darganfod amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael yn y sector celfyddydau perfformio. Byddan nhw'n dod yn fwy ymwybodol o ystod o swyddi a rolau na fydden nhw wedi'u hystyried fel arall, fel rhai sy'n ymwneud â threfnu, gwasanaethu a rheoli'r celfyddydau perfformio. Yn ogystal bydd y dysgwyr yn edrych ar yr hyfforddiant sydd ei angen a'r llwybrau gyrfaol mwyaf tebygol i feysydd gwaith dethol yn ogystal ag ystyried llwybrau llawrydd a mwy hyblyg.

Mae rheoli ariannol a strwythur da yn allweddol i lwyddiant unrhyw fusnes. Ni all unrhyw ddiwydiant weithredu mewn byd masnachol heb gyfeirio at arferion busnes cadarn. Mae goblygiadau ariannol yn gefndir cyson i gynllunio creadigol. Bydd y dysgwyr yn paratoi cyllideb gynhyrchu gan gaffael gwybodaeth am y costau a'r ystyriaethau amrywiol o brisiau tocynnau i freindal i gostau llogi. Byddan nhw'n edrych ar y ffyrdd amrywiol y gall cynyrchiadau a pherfformiadau gael eu hariannu yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Yn ogystal bydd y dysgwyr yn dod yn ymwybodol o amrywiaeth o gwmnïau ac asiantaethau masnachol sy'n cefnogi'r diwydiant.

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai dysgwr:

- 1 Deall cyfleoedd a gofynion cyflogaeth yn y sector celfyddydau perfformio
- 2 Gwybod am wahanol fathau o gyrff yn y diwydiant celfyddydau perfformio
- 3 Gallu rheoli rheoliadau ariannol ar gyfer digwyddiad celfyddydau perfformio.

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Deall cyfleoedd a gofynion cyflogaeth yn y sector celfyddydau perfformio

*Perfformwyr:* ee actor, canwr, dawnsiwr, cyfarwyddwr, *animateur*, cyfarwyddwr cerdd, cerddor

*Rolau cynhyrchu:* ee cynhyrchu, rheolwr cynhyrchu, cyfarwyddwr technegol, rheolwr llwyfan, dylunydd set, gweithredwr goleuo, peiriannydd sain, rheolwr wardrob, lluniwr golygfeydd, gweithiwr allgymorth theatr

*Gweinyddu'r Celfyddydau:* ee cynhyrchydd, rheolwr theatr, swyddog ariannu, staff swyddfa docynnau, blaen llwyfan, swyddog marchnata

*Hyfforddiant:* cymwysterau ee graddau prifysgol, HND (Diploma Cenedlaethol Uwch), NVQ (Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol); darparwyr hyfforddiant ee conservatoire dawns, ysgol ddrama

*Trefnau ymgeisio:* ee CVau, datganiadau personol, ffurflenni cais, deunyddiau clyweliad, portffolios o waith, asiantaethau castio

### 2 Gwybod am wahanol fathau o gyrff yn y diwydiant celfyddydau perfformio

*Gwasanaethau:* cwmnïau llogi ee goleuo, sain, propiau, cyfarpar golygfeydd, gwisgoedd, adeiladu golygfeydd, sgript, fideo a cherddoriaeth, cyhoeddiadau, asiantaethau bwcio tocynnau

*Cysylltiedig â chyflogaeth:* ee asiantaethau castio, asiantaethau llenyddol, Equity, Undeb y Cerddorion, BECTU, Cymdeithas Rheoli Theatraidd (Theatrical Management Association)

*Cwmnïau cynhyrchu:* ee Y Theatr Genedlaethol Frenhinol, Cwmni Shakespeare Brenhinol, Y Tŷ Opera Brenhinol, Opera Cenedlaethol Cymru, Y Bale Brenhinol, Bale Brenhinol Birmingham, Cwmni Dawns Rambert, cydgasgliadau cynhyrchwyr, cynhyrchwyr annibynnol, Theatrau'r West End, cyfadeiladau adloniant mawr, cwmnïau syrcas, cwmnïau theatr sydd wedi sefydlu, cwmnïau teithiol bychain, digwyddiadau perfformio mewn gwyliau, ffilm a theledu, allgymorth addysg, addysgu, perfformiadau elusennol, celfyddydau cymunedol, cyngherddau pop

### **3 Gallu rheoli rheoliadau ariannol ar gyfer digwyddiad celfyddydau perfformio**

*Costau cynhyrchu:* ee cyflogau a ffioedd, breindaliadau, dylunio setiau, goleuo, sain, gwisgoedd, propiau, gofod ymarfer, gofod perfformio, cyhoeddusrwydd a marchnata, cludiant

*Refeniw:* ee prisiau tocynnau, nwyddau, rhaglenni, arlwy, grantiau, nawdd, gweithdai, digwyddiadau arbennig

*Ariannu:* sector preifat ee cynhyrchwyr annibynnol, cymdeithasau cynhyrchwyr (uwch-gwmnïau), buddsoddwyr preifat, masnachfreintiau, cynhyrchion wedi'u brandio, hysbysebu, enwogion, nawdd, prisiau tocynnau; sector cyhoeddus ee cynghorau celfyddydau cenedlaethol, cynghorau celfyddydau rhanbarthol, grantiau loteri, awdurdodau lleol, nawdd

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> trafod amrywiaeth o gyfleoedd a swyddogaethau cyflogaeth yn y celfyddydau perfformio [YA]	<b>T1</b> esbonio'n fanwl amrywiaeth o gyfleoedd a swyddogaethau cyflogaeth yn y celfyddydau perfformio	<b>Rh1</b> rhoi sylwadau beirniadol ar amrywiaeth o rolau, cyfrifoldebau a swyddogaethau yn y celfyddydau perfformio gan roi esboniadau am sut maen nhw'n cydberthyn
<b>LI2</b> nodi'r gofynion hyfforddi a'r profiad ar gyfer llwybr gyrfaol a pharatoi deunydd ymgeisio [HR]	<b>T2</b> ymchwilio i'r gofynion hyfforddi a'r profiad ar gyfer llwybr gyrfaol a pharatoi deunydd ymgeisio addas	<b>Rh2</b> ymchwilio i ystod gynhwysfawr o ofynion hyfforddi a phrofiad a pharatoi deunydd ymgeisio i safon broffesiynol
<b>LI3</b> disgrifio'r gwasanaethau a gynigir gan ystod o gyrff yn y celfyddydau perfformio [YA]	<b>T3</b> egluro'r gwasanaethau a gynigir gan ystod o gyrff yn y celfyddydau perfformio a sut maen nhw'n cydberthyn â meysydd eraill y diwydiant	<b>Rh3</b> gwneud sylwadau beirniadol ar y gwasanaethau a gynigir gan ystod o gyrff cynhyrchu yn y celfyddydau perfformio gan ddadansoddi'r hyn maen nhw'n ei gynnig a sut maen nhw'n cydberthyn â meysydd eraill y diwydiant
<b>LI4</b> paratoi cyllideb cynhyrchu ar gyfer digwyddiad celfyddydau perfformio sy'n rhoi sylw i feysydd allweddol incwm a gwariant [YA GT]	<b>T4</b> paratoi cyllideb cynhyrchu ar gyfer digwyddiad celfyddydau perfformio sy'n rhoi sylw i feysydd perthnasol allweddol incwm a gwariant gyda ffigurau realistig	<b>Rh4</b> paratoi cyllideb ar gyfer digwyddiad celfyddydau perfformio sy'n gynhwysfawr ac yn gywir wedi'i seilio ar ymchwil gofalus

<b>Meini prawf asesu a graddio</b>		
<b>I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:</b>	<b>I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:</b>	<b>I gael gradd rhagoriaeth mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:</b>
<b>LI5</b> disgrifio ystod o wahanol ddulliau ariannu a chyllido digwyddiadau celfyddydau perfformio. [YA]	<b>T5</b> esbonio'r gwahanol ddulliau preifat a chyhoeddus o ariannu a chyllido digwyddiadau celfyddydau perfformio.	<b>Rh5</b> gwneud sylwadau beirniadol ar wahanol ddulliau preifat a chyhoeddus o ariannu a chyllido digwyddiadau celfyddydau perfformio.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnodu, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol





# Uned 4: Cyd-destun Hanesyddol Perfformio

<b>Cod yr uned:</b>	<b>Y/502/5358</b>
<b>FfCCh Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Mae'r uned hon yn gwahodd y dysgwyr i werthfawrogi sut mae'r celfyddydau perfformio'n cael eu creu mewn cyd-destun a roddir. Mae'r uned yn gofyn am astudio darn perfformio neu genre o unrhyw gyfnod ac ymchwilio i'w botensial ar gyfer cynulleidfa gyfoes.

## Cyflwyniad i'r uned

Nid mewn gwagle y mae gwaith perfformio'n digwydd. Mae cyd-destun i bob digwyddiad artistig neu greadigol, yn ddramâu, cyngherddau, gigiau ac arddangosfeydd. Daethon nhw o rywle ac mae eu harddull lwyfannu a chyflwyno wedi'i phennu a'i dylanwadu gan ystod o ffactorau allanol — o bosib llywodraethau, crefyddau, carfanau pwyso. Mae perfformiadau wedi'u bwriadu i gynulleidfaoedd penodol. Gall y rhain fod o grwpiau economaidd-gymdeithasol, oedran, rhyw neu hili benodol. Gall datblygiadau technolegol effeithio ar gyflwyno'r celfyddydau perfformio yn ogystal.

Mae'r uned hon yn ymwneud â chaffael gwybodaeth waith am gyd-destunau hanesyddol, cymdeithasol, gwleidyddol, economaidd, technegol a diwylliannol y celfyddydau perfformio. Bydd yn rhoi cefndir ac ystyr i'r ffordd y mae arferion gweithio cyfredol wedi cael eu dylanwadu a'u llunio i'w ffurf bresennol. Gall deall cefndir deunydd perfformio fod yn sylfaen i syniadau creadigol. Gall y rhain gyfoethogi'r broses ddehongli, gan ddangos agweddau a syniadau y gall y dysgwyr ymgysylltu â nhw.

Ni fwriedir i hon fod yn uned ddamcaniaethol yn llwyr. Dylai osod gwaith ymarferol a diddordebau'r dysgwyr eu hun mewn cyd-destun. Bydd yr uned yn bwrw golwg ar waith ymarferol presennol ac arferion proffesiynol cysylltiedig ac yn cynnig peth sylfaen i'r dysgwyr wrth archwilio syniadau, trafod a datrys problemau'n greadigol. Bydd cyfle i gyflwyno syniadau unigol ar gyfer perfformio, cyfarwyddo neu ddehongli deunydd sy'n bodoli eisoes. Bydd cyfle gwirioneddol i berfformwyr, dylunwyr, darpar gyfarwyddwyr a thechnegwyr archwilio a chreu, drwy'r uned hon.

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai dysgwr:

- 1 Gwybod am gyd-destun hanesyddol deunydd perfformio
- 2 Gwybod sut mae gosod gwaith ymarferol cyfredol mewn cyd-destun
- 3 Gallu cyfathrebu canfyddiadau ymchwil.

# Cynnwys yr uned

---

## 1 Gwybod am gyd-destun hanesyddol deunydd perfformio

*Deunydd perfformio*: ee dramâu, dawnsiau, dawnsiau bale, theatr gerdd, actiau syrcau

*Hanesyddol*: ee digwyddiadau hanesyddol, amodau perfformio, dylanwadau, ymarferwyr

*Cymdeithasol*: ee cynulleidfa, y cyfryngau, gwerthoedd, ffasiwn

*Gwleidyddol*: ee sensoriaeth, deddfwriaeth, propaganda, digwyddiadau cyfoes, dychan

*Economaidd*: ee cyllid preifat/cyhoeddus, costau adnoddau

*Technegol*: ee technolegau digidol, safonau diwydiant, technoleg cyfathrebu, technoleg llwyfan

*Diwylliannol*: ee grwpiau lleiafrifol, dylanwad y byd, cymunedau, ffurfiau eraill ar gelfyddyd

## 2 Gwybod sut mae gosod gwaith ymarferol cyfredol mewn cyd-destun

*Deunydd perfformio*: ee dramâu, dawnsiau, dawnsiau bale, theatr gerdd, actiau syrcau

*Cyd-destun*: ee y berthynas rhwng cyd-destunau hanesyddol a'ch arferion eich hun; cysyniad y cyfarwyddwr, cysyniad coreograffeg, cysyniad cyflwyno

*Gwybodaeth*: ee confensiynau, ymarferwyr, digwyddiadau, lleoliadau, technoleg

## 3 Gallu cyfathrebu canfyddiadau ymchwil

*Ffynonellau cynradd*: ee arsylwadau personol, ymweliadau â safleoedd a lleoliadau, cyfweliadau

*Ffynonellau eilaidd*: ee llyfrau, erthyglau, tapiau fideo, tapiau sain, rhyngwrwyd, rhaglenni wedi'u darlledu, nodiadau dosbarth

*Sgiliau ymchwil*: ee cymryd nodiadau, recordio gweledol, golygu, dadansoddi, crynhoi, strwythuro

*Cyflwyniad*: cyfrwng a fformat ee dogfen ysgrifenedig, darlith, arddangosfa, cyflwyniad sain/fideo, perfformiad, CD ROM, gwefan/blog; cyfeiriadau a ffynonellau; tystiolaeth gefnogol; casgliadau

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> nodi cyd-destun cefndir y deunydd perfformio, gan roi rhai canfyddiadau ymchwil [YA, HR]	<b>T1</b> esbonio cyd-destun cefndir y deunydd perfformio, gan roi canfyddiadau ymchwil manwl	<b>Rh1</b> rhoi adroddiad cynhwysfawr am gyd-destun cefndir deunydd perfformio, gan roi canfyddiadau ymchwil manwl
<b>LI2</b> disgrifio sut mae deunydd perfformio'n cael ei osod mewn cyd-destun at ddefnydd cyfoes [MC, GT, HR]	<b>T2</b> esbonio sut mae deunydd perfformio'n cael ei osod mewn cyd-destun at ddefnydd cyfoes	<b>Rh2</b> esbonio'n gynhwysfawr sut mae deunydd perfformio'n cael ei osod mewn cyd-destun at ddefnydd cyfoes
<b>LI3</b> cyfathrebu canlyniadau ymchwil. [YA HR]	<b>T3</b> cyfathrebu canlyniadau ymchwil yn effeithiol yn ddychmygus a chydlynus.	<b>Rh3</b> cyfathrebu canlyniadau ymchwil yn wybodus, yn groyw iawn ac yn greadigol.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

# Uned 5: Ymarfer ar gyfer Perfformiad

<b>Cod yr uned:</b>	<b>J/502/5369</b>
<b>FfCCh Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>20</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>120</b>

## Nod a phwrpas

Pwrpas yr uned hon yw galluogi'r dysgwyr i gael profiad o fethodoleg, prosesau a thechnegau ymarfer, ac i'w hannog i ddefnyddio'r rhain wrth ymarfer tuag at berfformiad cyhoeddus.

## Cyflwyniad i'r uned

Ar gyfer yr uned hon, rhoddir rôl neu rolau i'r dysgwyr mewn cwmni celfyddydau perfformio, gan gynllunio ac ymarfer deunydd i'w berfformio'n gyhoeddus. Mae asesu'r uned yn cynnwys y sgiliau a thechnegau perfformio a gafodd eu datblygu a'u defnyddio yn ystod y broses ymarfer. Efallai y bydd canolfannau'n dymuno cyfuno'r uned hon ag uned *Perfformio i Gynulleidfa* er mwyn asesu'r sgiliau perfformio a wireddir mewn cynhyrchiad terfynol.

Dylai'r uned hon gael ei gosod mewn cyd-destun sy'n adlewyrchu amgylchedd ac amodau gwaith cwmni proffesiynol sy'n ymarfer ar gyfer perfformiad cyhoeddus. Mae'r broses ymarfer yn gyfnod cyffrous, ac yn galluogi'r perfformwyr i ddatblygu, rheoli ac yn y pen draw berchenogi'r rolau a'r deunydd y maen nhw'n helpu i'w creu. Bydd yr uned hon yn galluogi'r dysgwyr i wireddu ac adeiladu ar dechnegau perfformio a gweithdy y maen nhw wedi'u datblygu mewn unedau a meysydd profiad eraill. Anogir y dysgwyr i arbrofi â'u syniadau creadigol eu hunain, yn ogystal ag â syniadau eraill; i ddysgu sut mae trafod ac addasu mewn cwmni ensemble ac i ddefnyddio'r broses ymarfer yn gyfle i gymryd risgiau wrth archwilio deunydd. Mae'n bwysig fod y dysgwyr, fel perfformwyr, yn gallu datblygu sgiliau ymchwil annibynnol hefyd, a'u bod yn gallu defnyddio'u canfyddiadau wrth ymarfer i gyfoethogi eu gwaith archwilio, a'u helpu i ddatblygu rôl ystyrion ar y llwyfan.

Yng nghyd-destun ymarfer ar gyfer perfformiad cyhoeddus, bydd disgwyl i'r dysgwyr arfer a meithrin agwedd broffesiynol mewn amrywiaeth o feysydd gan gynnwys rheoli amser, cyfrifoldeb personol (ee iechyd a diogelwch, a gwneud gwaith unawd y tu allan i'r ymarferion), a chydweithredu a thrafod ag aelodau eraill y cwmni. Bydd disgwyl i'r dysgwyr adolygu a gwerthuso'r broses ymarfer yn gyson, gan fonitro eu cynnydd a'u cyfraniadau eu hunain fel aelod o ensemble gwaith, a helpu i sicrhau body broses ymarfer yn arwain tuag at y safon uchaf posibl o ran perfformiad cyhoeddus.

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai dysgwr:

- 1 Gallu cyfrannu i'r broses ymarfer
- 2 Gallu dethol a defnyddio sgiliau ymarfer a pherfformio priodol
- 3 Gallu gwneud cynnydd yn eu sgiliau/technegau ymarfer a pherfformio gan ymateb i adborth a gwerthuso.

# Cynnwys yr uned

---

## 1 Gallu cyfrannu i'r broses ymarfer

*Gofynion:* gweithdai, cyfarfodydd, ymarferion wedi'u hamserlennu; rhoi a derbyn cyfarwyddyd; ymarfer deunydd; dysgu llinellau, gweithredoedd, symudiadau, symud, coreograffi, caneuon; dilyn gofynion iechyd a diogelwch

*Archwilio:* arbrofi â syniadau, deunydd, technegau ymarfer; datblygu deunydd perfformio; manylu ar ystyr; cyfrannu i ddatblygiad pellach; gwerthuso'r broses; asesu potensial deunydd perfformio

*Ymchwil:* cyfrannu i'r deunydd perfformio; archwilio cyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol, hanesyddol; nodi trefnau a thechnegau ymarfer y mae ymarferwyr proffesiynol yn eu harfer; rhannu, defnyddio ac adolygu canfyddiadau ymchwil

## 2 Gallu dethol a defnyddio sgiliau ymarfer a pherfformio priodol

*Sgiliau perfformio:* ee lleisiol, corfforol, deallusol, creadigol, dychmygus; sgiliau cyfathrebu, gweithio mewn tîm a chydweithredu

*Sgiliau ymarfer:* rheoli amser (prydlondeb, mynychu, bodloni terfynau amser); arbrofi creadigol; paratoi corfforol; cynhesu; ymarferion ymlacio; ymarferion lleisiol/cerddorol; ymarferion anadlu; sgiliau cyfathrebu a chydweithredu; cyfrannu syniadau creadigol; ymateb i syniadau ac anghenion artistig eraill; derbyn a recordio blocio; anodi sgriptiau/nodiant coreograffeg; canolbwyntio yn ystod ymarferion; defnyddio canfyddiadau ymchwil

## 3 Gallu gwneud cynnydd yn eu sgiliau/technegau ymarfer a pherfformio gan ymateb i adborth a gwerthuso

*Dethol syniadau creadigol:* potensial i ddatblygu; perthnasedd i'r prosiect; trafod/ymgyngori; golygu a mireinio; crynhoi deunydd

*Hunanwerthuso:* gwerthuso effeithiolrwydd syniadau, dehongliadau, technegau perfformio; rhestr sgiliau; ymateb i adborth; rhoi adborth; gwneud addasiadau; ailweithio; aildrafod ag eraill

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> Nodi tasgau ymarfer allweddol sy'n briodol i'r rôl [HR]	<b>T1</b> disgrifio a blaenoriaethu tasgau ymarfer allweddol sy'n briodol i'r rôl	<b>Rh1</b> esbonio a blaenoriaethu tasgau ymarfer allweddol, gyda chrebwyll, rhagwelediad a hyder
<b>LI2</b> cyflawni'r tasgau ymarfer a bennwyd, fel bod cyfraniad dilys yn cael ei wneud i'r broses ymarfer [CE]	<b>T2</b> cyflawni'r tasgau ymarfer a bennwyd, gan roi sylw i fanylion, fel bod cyfraniad arwyddocaol yn cael ei wneud i'r broses ymarfer	<b>Rh2</b> cyflawni'r tasgau ymarfer a bennwyd, gan roi cryn sylw i fanylion, fel bod cyfraniad nodedig yn cael ei wneud i'r broses ymarfer
<b>LI3</b> datblygu a chymhwyso ymchwil i'r rôl [YA]	<b>T3</b> datblygu a chymhwyso ymchwil i'r rôl, gan ddefnyddio'r canfyddiadau'n adeiladol ac yn flaengar yn ystod y broses ymarfer	<b>Rh3</b> datblygu a chymhwyso ymchwil i'r rôl, gan ddefnyddio'r canfyddiadau'n adeiladol, yn flaengar ac yn ddychmygus yn ystod y broses ymarfer
<b>LI4</b> dethol a defnyddio sgiliau ymarfer a pherfformio sy'n briodol i'r rôl [HR, MC]	<b>T4</b> dethol a defnyddio sgiliau ymarfer a pherfformio sy'n briodol i'r rôl, yn effeithiol, dan reolaeth ac yn ystyriol	<b>Rh4</b> dethol a defnyddio sgiliau ymarfer a pherfformio sy'n briodol i'r rôl, gan ddangos meistrolaeth a chrebwyll cadarn
<b>LI5</b> datblygu a gwella sgiliau ymarfer a pherfformio gan ymateb i adborth. [CE, DM]	<b>T5</b> dangos ymrwymiad i ddatblygu a gwella sgiliau ymarfer a pherfformio gan ymateb yn gadarnhaol ac yn adeiladol i adborth.	<b>Rh5</b> dangos ymrwymiad nodedig i ddatblygu a gwella sgiliau ymarfer a pherfformio gan ymateb yn fanwl i adborth.



**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol



# Uned 7: Perfformio i Gynulleidfa

<b>Cod yr uned:</b>	<b>K/502/5378</b>
<b>FfCCh Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw rhoi profiad i'r dysgwyr o berfformio rôl yn rhan o ensemble sy'n cyflwyno gwaith wedi'i ymarfer i gynulleidfa fyw mewn lleoliad galwedigaethol priodol.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar wireddu gwaith perfformio wedi'i ymarfer gerbron cynulleidfa fyw. Felly gellir ei weld yn benllanw, yn ddiweddglo'r hyfforddiant, y datblygu sgiliau a'r gwaith ymarfer blaenorol a wnaed yn y ddisgyblaeth berfformio berthnasol.

Anogir canolfannau i adlewyrchu arferion galwedigaethol proffesiynol gymaint ag sy'n bosibl wrth gyflwyno'r uned hon, gan roi profiad mor realistig ag sy'n bosibl o berfformio byw. Cyn cyflwyno'r uned hon, felly, dylid ystyried clyweliadau a chyfweliadau, amserlen ymarfer a pharatoi gadarn a thrylwyr, a pharatoi llwyfan priodol gydag adnoddau da i'r perfformiad.

Bydd y dysgwyr yn canolbwyntio eu cryfderau unigol mewn rôl perfformio yng nghyd-destun perfformiad theatraidd ar raddfa lawn. Defnyddir y term 'theatraidd' yma i olygu unrhyw ddigwyddiad perfformio byw sy'n cael ei gynnig i gynulleidfa, mewn lleoliad neu wagle priodol sydd wedi'i drwyddedu at y diben. Bydd y dysgwyr yn cael profiad realistig o roi rôl neu rolau perfformio wedi'u diffinio ar waith, ac o drosglwyddo a defnyddio sgiliau perfformio perthnasol. Bydd y gwaith yn cael ei gynnig i gynulleidfa fyw, y dylai eu profiad a'u barn am y perfformiad adlewyrchu rhai cwsmer sy'n talu.

Bydd y dysgwyr yn dod â'r sgiliau arbenigol y maen nhw eisoes wedi'u caffael i'r uned hon, a byddan nhw'n defnyddio'r uned yn gyfrwng i gyflwyno perfformiad sy'n realistig yn alwedigaethol. Mae'r uned yn adlewyrchu'r ffaith fod gan bob perfformiad byw set unigryw a newidiol o broblemau a heriau creadigol. Bydd y profiad a geir drwy'r uned hon yn galluogi'r dysgwyr i ateb heriau tebyg yn y dyfodol, pa un ai wrth chwilio am waith yn y proffesiwn, neu wrth symud ymlaen i astudio ymhellach ym maes addysg uwch.

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai dysgwr:

- 1 Gallu ymgymryd â rôl berfformio i gynulleidfa fyw
- 2 Gallu dehongli deunydd perfformio i gynulleidfa
- 3 Gallu perfformio rôl, gan gyfathrebu ystyr i gynulleidfa
- 4 Gallu gweithio'n ddisgybledig mewn ensemble.

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gallu ymgymryd â rôl perfformio i gynulleidfa fyw

*Sgiliau corfforol:* ee osgo, aliniad, cydsymud, cydbwyso, hyblygrwydd, cryfder, gallu i atgynhyrchu cynnwys gweithredoedd/ dynamig/ rhythmig/gofodol yn gywir, cof symud, ymwybyddiaeth o'r perfformwyr eraill a'r berthynas â nhw, defnyddio osgo, mynegiant wyneb, ystum, ymarweddiad, dynwared

*Sgiliau lleisiol:* ee tŷn, rheolaeth, goslef, taflu'r llais, cwmpas, arddull benodol, cymeriadu lleisiol, amseru, eglurder, clywadwyedd, acen, dynameg, anadlu, defnyddio seibiau, cyflymder, traw, tafodiaith ac acen

*Sgiliau actio:* ee ystod emosiynol, defnyddio egni, rhyngweithio â pherfformwyr eraill, ystum, amseru, taith y cymeriad, cymeriadu, is-destun, dysgu llinellau

*Sgiliau cerddorol:* ee sylw i gywirdeb, cerddgarwch, arddull, tŷn, tonyddiaeth, dynameg, tempo

### 2 Gallu dehongli deunydd perfformio i gynulleidfa

*Sgiliau dehongli:* ee taflu'r llais, brawddegau, cerddgarwch, mynegiant, defnyddio gofod, canolbwynt, pwyslais, mynegiant wyneb, lleisio, cymeriadu, personoli, cysyniadu, ymateb i'r deunydd

*Arddull:* ee realaeth, naturiolaeth, swrrealaeth, mynegiadaeth

*Lleoliadau perfformiadau cyhoeddus:* ee prif lwyfan, theatr stiwdio, canolfan y celfyddydau, neuadd gyngerdd, lleoliad teithiol

*Arddulliau llwyfannu:* ee prosceniwm, theatr gylch, ar draws, ymwithiol, promenâd

### 3 Gallu perfformio rôl, gan gyfathrebu ystyr i gynulleidfa

*Perfformio rôl:* ee actio, dawnasio, canu, cerddorol, syrcas, comedi standyp, adrodd stori

*Cyfathrebu:* ee canolbwynt, rheolaeth, taflu'r llais, gallu i addasu, ymateb, brawddegau, defnyddio seibiau, defnyddio llonyddwch/symud, dynameg, anadlu, defnyddio ystum, defnyddio gofod, perthynas ag elfennau gweledol a/neu sain, defnyddio eiddo, gwisgoedd, masgiau, rheoli perfformiad

*Buddsoddi:* ee ymrwymiad yn y perfformiad, rhyngweithio ac ymateb, annerch y gynulleidfa'n uniongyrchol, defnyddio ystod o emosiynau, cydlynu a chysondeb y rôl, perthynas â'r gynulleidfa, cyfosod cymeriad neu waith rôl a thechneg

#### 4 **Gallu gweithio'n ddisgybledig mewn ensemble**

*Disgyblaeth*: mynychu; cadw amser; dysgu deunydd ee llinellau, coreograffi, blocio, fel y bo'r angen; cadw at amserlenni; cynhesu

*Confensiynau cyn perfformio*: gwirio iechyd a diogelwch; 'yr hanner'; gwirio propiau; galwadau i'r llwyfan

*Ymarweddiad proffesiynol*: gwrando; cyfrannu; cefnogi; arwain drwy esiampl; rheoli emosiynau: gwisgo'n briodol; ymateb i newidiadau; cywiro; adborth

*Ensemble*: trafod mewn grŵp; cymryd rhan mewn cyfarfodydd; canolbwyntio yn ystod ymarferion technegol ac ymarferion gwisgoedd

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> defnyddio'r sgiliau perfformio gofynnol yn briodol, gan roi peth sylw i fanylion [CE, [GT]	<b>T1</b> defnyddio'r sgiliau perfformio gofynnol o dan reolaeth ac yn ystyriol	<b>Rh1</b> defnyddio'r sgiliau perfformio gofynnol gan ddangos rheolaeth gref ar y sgiliau hyn, gan eu trin yn hyderus, yn rhwydd ac yn rhugl
<b>LI2</b> cyflwyno dehongliad o rôl sy'n ystyriol, yn rhesymegol ac yn gyson [MC, CE]	<b>T2</b> cyflwyno dehongliad o rôl sydd wedi'i ystyried yn feddylgar ac yn fanwl, gan ddangos creadigrwydd ac ymateb digymell	<b>Rh2</b> cyflwyno dehongliad o rôl sy'n dangos egni, ymrwymiad, crebwyll a hyder, gan greu argraff arwyddocaol yn y perfformiad cyffredinol
<b>LI3</b> perfformio rôl, gan gyfathrebu ystyr i gynulleidfa [CE]	<b>T3</b> perfformio rôl, gan gyfathrebu ystyr i gynulleidfa'n gyfannol ac yn ymatebol, gan gynnal canolbwynt ac ymgysylltu â'r gwaith a'r gynulleidfa	<b>Rh3</b> perfformio rôl, gan gyfathrebu ystyr i gynulleidfa gyda chanolbwynt ac ymgysylltu cyson, gan ddangos dychymyg, dawn ac ymrwymiad i'r gwaith
<b>LI4</b> dangos hunanddisgyblaeth yn ystod y broses berfformio. [HR, GT]	<b>T4</b> dangos hunanddisgyblaeth gyson yn ystod y broses berfformio.	<b>Rh4</b> dangos hunanddisgyblaeth ar safon uchel gydol y broses berfformio.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol MC — meddylwyr creadigol	DM — dysgwyr myfyriol GT — gweithwyr tîm	HR — hunanreolwyr CE — cyfranogwyr effeithiol
---------	--	---	--





# Uned 9: Dyfeisio Dramâu

<b>Cod yr uned:</b>	<b>L/502/5101</b>
<b>FfCCh Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Bydd y dysgwyr yn creu darnau perfformio ac yn ysgrifennu o weithgareddau gweithdai drama ymarferol. Bydd y dysgwyr yn datblygu sgiliau a thechnegau i gynhyrchu deunydd perfformio.

## Cyflwyniad i'r uned

Yn aml, prif ganolbwynt diddordeb ymarferwr theatr mewn deunydd perfformio yw'r ddrama sydd wedi'i sgriptio. Wrth gwrs, mae awdur sgript wedi dyfeisio drama. Mae'r broses o ddyfeisio drama'n gofyn am set o sgiliau heriol a chynnil. Mae'r dramodydd yn profi cyfnod unig ac anodd yn aml tra bydd cynnwys y ddrama'n graddol ddatgelu ei hun ar dudalennau sgript.

Yn yr uned hon mae'n rhaid i'r dysgwyr ymgysylltu â'r broses ddyfeisio yng nghydestun grŵp, felly gall y grŵp ddewis ei bwnc neu ei thema ei hun i'r ddrama. Cyfrifoldeb y grŵp fydd y broses o greu'r ddrama a bydd yn rhaid rhannu'r tasgau angenrheidiol a fydd yn esgor ar ddarn perfformio unigryw a gwreiddiol. Bydd y cynnwys a ddewiswyd i'r ddrama'n pennu'r ymchwil angenrheidiol sy'n dilyn er mwyn sicrhau bod y cynnwys yn hyfyw ac yn addas at y diben. Bydd ffurf a strwythur y ddrama'n cael eu teilwra i'r cynnwys gan y grŵp a all benderfynu ar y ffurfiau mwyaf priodol at eu dibenion.

Mae creu drama wreiddiol yn esgor ar ei fodlonrwydd ei hun ac mae'n hynod ddefnyddiol i gwmni drama proffesiynol pan fyddan nhw wedi cael eu comisiynu at ddiben penodol, efallai i ymateb i brosiect addysgol neu'n gyfraniad i wyl celfyddydau thematig. Yn ogystal, gall y dysgwyr gael golwg ar y meddwl sydd wedi creu drama wedi'i sgriptio lle mae'r cynnwys, y ffurf a'r strwythur yn cael eu derbyn yn ganiataol ond maen nhw wedi deillio o ystyried cynnwys y ddrama'n fanwl. Bydd y dysgwyr yn ystyried beth yw'r ffordd orau o gyflwyno hyn wrth ystyried cynulleidfa benodol a set benodol o amodau llwyfannu.

**Dylai'r dysgwyr ddyfeisio drama sy'n para rhwng 15-30 munud.**

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai dysgwr:

- 1 Gwybod sut mae defnyddio deunydd ysgogi
- 2 Gwybod sut mae datblygu a llunio syniadau
- 3 Gallu ymarfer ar gyfer perfformiad wedi'i ddyfeisio
- 4 Gallu perfformio drama wedi'i dyfeisio.

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gwybod sut mae defnyddio deunydd ysgogi

*Syniadau:* ee materion personol/cymdeithasol, profiadau, themâu, dathliadau

*Ymchwil:* ee digwyddiadau hanesyddol a chyfoes ffeithiol a ffuglen, pobl, achlysuron, pynciau llosg

*Ysgogiadau:*

### 2 Gwybod sut mae datblygu a llunio syniadau

*Dulliau gweithio:* geiriol ee trafod, tanio syniadau, trafod, adrodd, dull theatr fforwm, senarios byrfyfyr; corfforol ee cerflunio'r corff, chwarae rôl, bywyd llonydd, gwaith tableau, symudiadau byrfyfyr; gweledol ee cynrychioliad graffig, siartiau, diagramau, dwldan, delweddau digidol, recordiadau fideo; clywedol ee collage sain, dwli, effeithiau sain, cerddoriaeth

*Gwaith strwythuro:* ee plot, naratif, gweithredoedd, cyfres o ddigwyddiadau, datblygu a darlunio cymeriad/rôl, sgriptio, golygu, dethol dialog, strwythuro episodau/golygfeydd, defnyddio gwahanol elfennau dramatig, agweddau dylunio a thechnegol, dethol a gwrthod deunydd

### 3 Gallu ymarfer ar gyfer perfformiad wedi'i ddyfeisio

*Rheoli personol:* rheoli amser; amserlenni; rhaglenni ymarfer; terfynau amser; paratoi corfforol; paratoi meddyliol; gwirio; cyfathrebu; ymateb i gyfarwyddyd; disgyblaeth

*Adnoddau:* personol; gofodol; cyfarpar; defnyddiau; dynol

### 4 Gallu perfformio drama wedi'i dyfeisio

*Sgiliau perfformio:* ee defnyddio'r corff, defnyddio'r llais, deunyddiau, propiau, cyfathrebu ar y llwyfan, cyfathrebu syniadau i gynulleidfa

Dylai'r dysgwyr ddyfeisio drama sy'n para rhwng 15-30 munud.

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> ymateb i ystod o ysgogiadau, gan ddadlennu syniadau creadigol [YA, MC, DM, GT, HR, CE]	<b>T1</b> ymateb i ystod o ysgogiadau, gan ddadlennu ymwybyddiaeth o'u haddasrwydd i ddyfeisio a pherfformio	<b>Rh1</b> ymateb i ystod o ysgogiadau gyda dychymyg, gan ddadlennu gafael eglur a chreadigol ar eu haddasrwydd i ddyfeisio a pherfformio
<b>LI2</b> datblygu'r syniadau a'r deunyddiau a ddewiswyd ar gyfer dyfeisio [YA, MC, DM, GT, HR, CE]	<b>T2</b> datblygu'r syniadau a ddewiswyd ar gyfer dyfeisio, gan ddefnyddio crebwyll a dychymyg i ddangos ymateb manwl	<b>Rh2</b> datblygu'r syniadau a'r deunyddiau a ddewiswyd ar gyfer dyfeisio yn graff a chynhwysfawr, gan ddangos ymateb wedi'i ystyried yn drylwyr a threiddgar
<b>LI3</b> dangos cydweithredu ag aelodau eraill y cwmni, gan wneud cyfraniadau i'r broses grŵp [YA, MC, DM, GT, HR, CE]	<b>T3</b> dangos cydweithredu ag aelodau eraill y cwmni yn y broses ddyfeisio, gan wneud cyfraniadau defnyddiol	<b>Rh3</b> dangos cydweithredu cadarnhaol ar lefel uchel ag aelodau eraill y cwmni ym mhob agwedd ar y broses
<b>LI4</b> datblygu perfformiad wedi'i ddyfeisio drwy ymarfer, gyda chefnogaeth ac arweiniad [YA, MC, DM, GT, HR, CE]	<b>T4</b> datblygu perfformiad wedi'i ddyfeisio drwy ymarfer, gyda'r lleiafswm o gefnogaeth ac arweiniad	<b>Rh4</b> datblygu perfformiad wedi'i ddyfeisio drwy ymarfer, gan wneud hynny'n hynod ddychmygus ac annibynnol
<b>LI5</b> perfformio darn theatr wedi'i ddyfeisio sy'n cyfathrebu syniadau i gynulleidfa. [GT]	<b>T5</b> perfformio darn theatr wedi'i ddyfeisio sy'n cyfathrebu ei fwriad i gynulleidfa'n gywir ac sy'n dangos ymwybyddiaeth o'i arddull.	<b>Rh5</b> perfformio darn theatr wedi'i ddyfeisio sy'n cyfathrebu ei arddull a'i fwriad yn gywir, gan ymgysylltu'n llawn â'r gynulleidfa.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnoddi, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol



# Uned 10: Theatr mewn Addysg

<b>Cod yr uned:</b>	<b>R/502/5133</b>
<b>FfCCh Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw'r rhoi'r sgiliau priodol i ddysgwyr allu creu prosiect theatr mewn addysg (ThMA), ei hysbysebu a pherfformio ynddo.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae theatr mewn addysg yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth broffesiynol i artistiaid ac ymarferwyr a rôl bwysig wrth gyfoethogi profiadau bywyd a dysgu eu cynulleidfaoedd yn llawn mwynhad a hwyl yn aml. Mae nifer o artistiaid creadigol yn dewis gweithio i gwmni ThMA neu i ffurfio un newydd ar ddechrau eu gyrfaedd proffesiynol. Mae nifer o artistiaid yn ystyried ThMA yn brif ganolbwynt proffesiynol iddyn nhw, tra mae eraill yn gweithio mewn ThMA yn rhan o bortffolio proffesiynol ehangach. Bydd y dysgwyr sy'n cwblhau'r uned hon yn caffael y gallu a'r sgiliau sydd eu hangen i weithio fel aelod o gwmni ThMA teithiol.

Mae'r gwaith yn galluogi'r dysgwyr i gyfrannu eu gwahanol alluoedd trefnu a'u doniau artistig unigol i'r tîm ac i wireddu'r prosiect. Dylid annog y dysgwyr i berchenogi'r prosiect mewn gwirionedd, ac i fod yn annibynnol wrth weithio. Bydd angen iddyn nhw ymgymryd â chyfrifoldebau personol, megis gohebu ag asiantaethau a chydlynu manylion cynhyrchu, trefnu amserlenni ymarfer, arwain gweithdai a dyfeisio ymarferion, ysgrifennu sgriptiau, adeiladu setiau, cyfansoddi cerddoriaeth, creu propiau, masgiau a gwisgoedd, ysgrifennu, golygu a threfnu'r ddogfennaeth cyn y prosiect a deunydd dilynol ar ôl y prosiect.

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai dysgwr:

- 1 Gwybod sut mae ymchwilio i syniadau addas a'u dethol ar gyfer prosiect ThMA
- 2 Gallu datblygu prosiect perfformio addysgol
- 3 Gallu cyfrannu i wireddu prosiect ThMA.

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gwybod sut mae ymchwilio i syniadau addas a'u dethol ar gyfer prosiect ThMA

*Dethol syniadau:* ee materion cwricwlwm, diogelwch ar y ffyrdd, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, iechyd a diogelwch, amgylcheddol, ethnig, moesol, diwylliannol a chymdeithasol, perthnasoedd personol a theuluol, sgiliau cymdeithasol, y celfyddydau ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol.

*Defnyddio cysylltiadau:* ee tiwtoriaid, penaethiaid blwyddyn, cydlynwyr drama ac ABCh, gweithwyr ieuenctid, arweinwyr grwpiau

*Cynulleidfaoedd targed:* eu nodi yn ôl oedran ee plant, pobl ifainc, oedolion, pobl oedrannus; ffactorau cymdeithasol ee rhieni sengl, grwpiau menywod, mewnfudwyr, ffactorau economaidd, y di-waith, hyfforddeion, gweithwyr, grwpiau rheoli; ffactorau arbennig ee troseddwyr, pobl ag anghenion corfforol arbennig, dysgwyr ag anghenion dysgu arbennig, pobl mewn gofal preswyl ac ysbytai

### 2 Gallu datblygu prosiect perfformio addysgol

*Datblygu syniadau:* llunio deunydd ee dyfeisio, addasu deunydd wedi'i sgriptio; defnyddio technegau ee creu'n fyrfyr, theatr gorfforol, dawns a symud, canu, pypedwaith, masgiau; cyflawni amcanion a bwriad y gwaith

*Arddull gynhyrchu:* cyfranogi gan y gynulleidfa; cefnogaeth ee gweithdai, trafodaethau, deunyddiau cefnogi, gweithgareddau a deunyddiau dilynol

### 3 Gallu cyfrannu i wireddu prosiect ThMA

*Trefnu:* iechyd a diogelwch; cysylltiad â'r gynulleidfa darged; rhifau; dyddiadau; amser; lleoliad; gofynion penodol y gynulleidfa; asesu risgiau; mynediad; gofod perfformio ee maint, siâp, argaeledd ymarferion, cyfleusterau technegol, trefniadau mynd i mewn ac allan, cyfrifoldebau trwyddedu ac yswiriant; cludiant ee argaeledd, addasrwydd i'r tîm a'r cyfarpar technegol, gwisgoedd, set

*Sgiliau perfformio:* ee castio, dyfeisio, ysgrifennu sgriptiau, cyfarwyddo, ymarfer, perfformio

neu

*Sgiliau cynhyrchu:* ee adeiladu setiau, goleuo, sain, gwisgoedd, propiau, rheoli llwyfan



## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> disgrifio syniadau ar gyfer prosiect ThMA sy'n bodloni anghenion addysgol y gynulleidfa sydd wedi'i thargedu [MC]	<b>T1</b> egluro addasrwydd syniadau ar gyfer prosiect ThMA sy'n bodloni anghenion addysgol y gynulleidfa sydd wedi'i thargedu	<b>Rh1</b> dadansoddi a chyfiawnhau addasrwydd syniadau ar gyfer prosiect ThMA sy'n bodloni anghenion addysgol y gynulleidfa sydd wedi'i thargedu
<b>LI2</b> datblygu syniadau ar gyfer prosiect ThMA a fyddai'n difyrru ac addysgu [GT, HR]	<b>T2</b> datblygu syniadau ar gyfer prosiect ThMA a fyddai'n difyrru ac addysgu gyda sgîl a hyder	<b>Rh2</b> datblygu syniadau ar gyfer prosiect ThMA a fyddai'n difyrru ac addysgu gyda dawn a dychymyg
<b>LI3</b> defnyddio sgiliau trefnu'n gymwys [GT]	<b>T3</b> defnyddio sgiliau trefnu'n effeithiol	<b>Rh3</b> defnyddio sgiliau trefnu gan rag-weld a rhoi sylw i fanylion
<b>LI4</b> defnyddio sgiliau perfformio a/neu gynhyrchu'n gymwys. [GT]	<b>T4</b> defnyddio sgiliau perfformio a/neu gynhyrchu'n hyderus ac yn hyfedr.	<b>Rh4</b> defnyddio sgiliau perfformio a/neu gynhyrchu gyda dawn a dychymyg.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol MC — meddylwyr creadigol	DM — dysgwyr myfyriol GT — gweithwyr tîm	HR — hunanreolwyr CE — cyfranogwyr effeithiol
---------	--	---	--



# Uned 11: Theatr i Blant

<b>Cod yr uned:</b>	<b>J/502/5128</b>
<b>FfCCh Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Mae'r uned hon yn galluogi'r dysgwyr i archwilio a datblygu deunydd ar gyfer theatr i blant, gan ddefnyddio sgiliau drama, dawns a cherddoriaeth i greu darn addas o theatr i grŵp oedran targed.

## Cyflwyniad i'r uned

Gall theatr i blant ysgogi diddordeb cyntaf plentyn yn y celfyddydau perfformio ac mae cyfleoedd i artistiaid fod yn rhan o'r byd heriol hwn. Efallai y gall cwmnïau weithredu o ganolfannau theatr sydd wedi'u sefydlu a chynnig gwaith ThMA (theatr mewn addysg); efallai y byddan nhw'n teithio i ysgolion, meithrinfeydd a chanolfannau cymunedol. Yn ogystal mae artistiaid yn perfformio mewn digwyddiadau theatr stryd ac mewn gwyliau. Gall y cynnwys cwmpasu materion cymdeithasol, hanes cymunedol lleol, adloniant tymhorol, llenyddiaeth gyfoes neu glasurol, addysgu sgiliau neu wybodaeth, testunau gosod ysgolion neu gefnogi'r cwricwlwm.

Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar ddethol, addasu a llunio deunydd i'w wneud yn addas i gynulleidfa o blant. Bydd sgiliau drama, dawnsio, canu a cherddoriaeth yn cael eu datblygu a'u defnyddio wrth greu perfformiadau, wedi'u hanelu'n benodol at gynulleidfa ifanc

Bydd y dysgwyr yn archwilio deunydd tebygol ac addas, yn destunau wedi'u cyhoeddi neu'n seiliedig ar ysgogiad, yna byddan nhw'n ei ddethol a'i lunio yn unol â'r grŵp oedran targed, ei addaswydd, anghenion y gynulleidfa a diben y perfformiad. Gallai'r perfformiadau fod yn addysgol neu er difyrrwch a hwyl yn unig. Bydd rolau'n cael eu rhannu a'u cymryd yn ôl gallu a sgiliau pob dysgwr, fel y gall pawb gyfrannu i'r perfformiad. Bydd cyfleoedd i ryngweithio â'r gynulleidfa drwy weithdai ymarferol, theatr fforwm, sesiynau cwestiwn ac ateb ar ôl y sioe, ac i werthuso'r profiad perfformio o'u rhan eu hunain, y gynulleidfa ac oedolion eraill sy'n ymwneud â gofalu am y gynulleidfa ifanc.

**Rhaid i'r dysgwyr gymryd rhan mewn un perfformiad ar raddfa fawr (o leiaf 30 munud) neu ddau berfformiad ar raddfa fach (15-20 munud yr un).**

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai dysgwr:

- 1 Gwybod sut mae ymchwilio, dethol a mireinio deunydd addas i theatr i blant
- 2 Gallu dyfeisio a llunio deunydd ar gyfer theatr i blant
- 3 Gallu perfformio ym maes theatr i blant.

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gwybod sut mae ymchwilio, dethol a mireinio deunydd addas i theatr i blant

*Ystyriaethau:* grwpiau posib ee cylchoedd chwarae, cylchoedd meithrin, ysgolion cynradd ac uwchradd, clybiau ieuenctid, anghenion arbennig, ysgolion haf

*Diben:* ee difyrru, rhoi gwybodaeth, addysgu

Addasrwydd: wedi'i bennu yn ôl grŵp oedran, graddfa amser, anghenion y ganolfan neu'r ysgol, lleoliad

*Dethol deunydd:* storïau ee clasuron, mythau, chwedlau ar draws diwylliannau, ffuglen, ffeithiol, addasiadau o storïau plant, hanes, dogfennol

*Cynnwys addysgol:* sefyllfaoedd bywyd go iawn fel bwlio; gwybodaeth ac ymwybyddiaeth ee diogelwch ar y ffyrdd, diogelwch personol; cysylltiedig â'r cwricwlwm ee hanes, rhanbarthau, cymdeithasau a diwylliannau

### 2 Gallu dyfeisio a llunio deunydd ar gyfer theatr i blant

*Sgiliau:* addasu a dehongli sgript neu ddeunydd ffynhonnell drwy ddefnyddio technegau ee creu'n fyrfyr, theatr gorfforol, dawns a symud, canu, pypedwaith, masgiau

*Ffurfiâu:* ee adrodd stori, caneuon, adrodd, deialog, corws, ensemble, theatr fforwm, cyfranogi gan gynulleidfa

*Nodweddion y cynhyrchiad:* gofynion cyfreithiol; gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB); ystyriaethau iechyd a diogelwch; gwisgoedd; goleuo; sain; dylunio set; propiau

*Ystyriaethau oedran:* addasrwydd; cyfnod canolbwyntio; lefel deall; datblygiad iaith; lefel addysgol; lefel emosiynol

*Adolygu:* gwerthuso effeithiolrwydd syniadau; trafod/ymgyngori; technegau perfformio; cyflawni'r briff gwreiddiol; ymateb i adborth; rhoi adborth; gwneud addasiadau; ailweithio

### 3 Gallu perfformio ym maes theatr i blant

*Sgiliau perfformio:* nodweddion lleisiol a chorfforol; ymateb a chyfathrebu â chynulleidfa; egni; ffocws; gallu i addasu; hyder; sensitifrwydd a dawn neu

*Sgiliau cynhyrchu:* ee ysgrifennu sgriptiau, coreograffi, gallu cerddorol, dylunio, paratoi goleuo a/neu sain, propiau, defnyddio sgiliau adeiladu a chreffft

*Gwaith tîm:* disgyblaeth; ymrwymiad; rhoi a derbyn beirniadaeth; trafod; ymateb a gwneud gwelliannau; parhau i fod yn greadigol

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> disgrifio addasrwydd deunydd i gynulleidfa o blant [YA]	<b>T1</b> esbonio potensial ac addasrwydd deunydd i gynulleidfa o blant	<b>Rh1</b> dadansoddi deunydd priodol ar gyfer theatr i blant, gyda syniadau creadigol i ddatblygu ei botensial
<b>LI2</b> datblygu a llunio deunydd ar gyfer theatr i blant gan ymateb i'r syniadau sy'n cael eu cynnig [MC, GT, CE]	<b>T2</b> llunio a datblygu deunydd ar gyfer theatr i blant yn weithgar, gan gynnig syniadau creadigol, realistig a phriodol	<b>Rh2</b> llunio'r deunydd ar gyfer theatr i blant gydag ymrwymiad, gan ddangos gwerthfawrogiad o'r hyn all fod yn effeithiol ac yn briodol i'w berfformio
<b>LI3</b> perfformio rôl mewn darn o theatr i blant gan ddefnyddio sgiliau perfformio neu gynhyrchu'n gymwys. [GT]	<b>T3</b> perfformio rôl mewn darn o theatr i blant gan ddefnyddio sgiliau perfformio neu gynhyrchu'n hyderus.	<b>Rh3</b> perfformio rôl mewn darn o theatr i blant gan ddefnyddio sgiliau perfformio neu gynhyrchu gyda hyder, gallu i ddehongli a dawn.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

# Uned 12: Perfformiad Theatr Glasurol

<b>Cod yr uned:</b>	<b>F/502/5094</b>
<b>FfCCh Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Mae'r uned hon yn datblygu'r technegau sydd eu hangen i alluogi'r dysgwyr i gyflwyno testunau dramâu clasurol mewn perfformiad. Mae'n ymwneud â'r cefndir hanesyddol i'r testunau yn ogystal â strwythur ac arddull iaith aruchel.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae cynulleidfaoedd a pherfformwyr yn mwynhau profi syniadau a pherfformio arddulliau o gyfnodau blaenorol, gan gynnwys y goleuni y gallant ei roi ar ein byd ni heddiw. I nifer o berfformwyr proffesiynol, mae cyflwyno theatr glasurol yn un o'r heriau mwyaf i'w gallu a'u creadigrwydd. Rhaid i berfformwyr fod yn hyblyg yn eu hyfforddiant proffesiynol fel y gallan nhw ateb y gofyn hwn. Yn yr uned hon, bydd y dysgwyr yn archwilio'r disgyblaethau y mae'r arddull berfformio hon yn gofyn amdany'n nhw.

Ar yr olwg gyntaf, efallai bod newidiadau o ran cyfnod a chymdeithas yn gwneud i ddrama glasurol ymddangos yn bell o'r hyn sy'n ein poeni heddiw. Mae angen i actorion modern archwilio cefndir y ddrama glasurol i ddeall ei pherthnasedd iddyn nhw. Mae angen iddyn nhw weld beth yw ei thestun, beth yrrodd y dramodydd i'w chreu hi fel y mae'n ymddangos a'r ffordd orau i'w dehongli i gynulleidfa fodern. Mae angen iddyn nhw 'ddatgloi' yr iaith y mae'r testun wedi'i ysgrifennu ynddi fel y gallant ei deimlo a'i fynegi'n llawn. Yn aml mae disgwyl i actorion baratoi ar eu pennau eu hunain, cyn i'r ymarferion ddechrau, fel y gallan nhw wneud y cynnydd mwyaf posibl pan fyddan nhw'n ymgasglu'n rhan o dîm i greu'r perfformiad.

Ar ôl i'r ymarferion ddechrau, mae angen i'r dysgwyr allu cyfrannu'n llawn a bodloni gofynion eu cyfarwyddwr. Mae'n rhaid i'w cymeriadau unigol nhw weithio gyda gweddill y dehongliad a gweddu iddo. Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid i actorion roi amrywiaeth o sgiliau technegol a dychmygus ar waith trwy gydol y prosesau creadigol ac ymarfer. Pan fydd diwrnod y perfformiad yn cyrraedd, mae'n rhaid iddynt allu mynegi eu hunain yn gorfforol ac yn lleisiol ac ymrwymo'n llawn i'w perfformiad, yn emosiynol ac yn ddeallusol.

**Caiff dysgwyr eu hasesu'n perfformio dau destun clasurol. Lle mae perfformiad yn araith i unigolyn dylai bara tua dwy funud. Dylai perfformiad o olygfa neu ddarn bara oddeutu pum munud.**

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai dysgwr:

- 1 Deall cefndir cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol rhannau clasurol
- 2 Gallu archwilio arddulliau perfformio testunau clasurol
- 3 Gallu ymarfer yn greadigol ac yn gyfrifol
- 4 Gallu perfformio testunau clasurol



## Cynnwys yr uned

---

### 1 Deall cefndir cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol rhannau clasurol

*Cymdeithasol a hanesyddol*: cynnwys; gwleidyddol; cymdeithasol; economaidd; amodau crefyddol

*Diwylliannol*: ymdrin â themâu a materion; lle a swyddogaeth dramâu a dramodwyr; defnyddio propiau a gwisgoedd; confensiynau symud a mynegiant ee ystumiau neu ddefodau cymdeithasol

### 2 Gallu archwilio arddulliau perfformio testunau clasurol

*Ymchwilio a dadansoddi*: iaith a delweddaeth; seicoleg y cymeriadau; dehongliad rhesymegol; nodi ac ystyried bwriad yr awdur

*Arddulliau a dulliau*; ffurf a strwythur; iaith aruchel; cyweiriau; delweddaeth; rhythm a mydr; y berthynas rhwng sain ac ystyr

### 3 Gallu ymarfer yn greadigol ac yn gyfrifol

*Gwrando ac ymateb*: derbyn cyfarwyddyd; hyblygrwydd; technegau ac ymarferion ymarfer; rhyngweithio'n rhan o grŵp

*Twf a datblygiad*: arbrofi'n greadigol; cymryd risgiau mewn rolau; cymeriadu; elfennau corfforol a lleisiol; mireinio syniadau; dysgu testunau ar y cof

*Rheoli personol*: rheoli amser; paratoi corfforol a meddyliol; y log gweithio; propiau ymarfer; gwisgoedd a chyfarpar; arferion gweithio iach a diogel; canolbwyntio a hunanddisgyblaeth; cyfrifoldebau unigol a grŵp; cyfathrebu ag aelodau'r cwmni

### 4 Gallu perfformio testunau clasurol

*Mynegiant corfforol*: osgo; ystum; tempo a rhythm; deinameg; defnyddio egni; nodweddion arddull y mae'r testun yn gofyn amdanynt

*Mynegiant lleisiol*: ystod y llais a'r defnydd ohono wrth ymateb i destun, gan gynnwys tŷn, rheolaeth, goslefu, taflu; cywair; ynganu; cyflymder; traw

*Buddsoddi emosiynol*: ffocws; rhyngweithio ac ymateb; ystod emosiynol; cydlynid a chysondeb; perthynas â'r gynulleidfa

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> trafod cefndir cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol rhannau clasurol [YA]	<b>T1</b> esbonio cefndir cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol rhannau clasurol	<b>Rh1</b> dadansoddi cefndir cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol rhannau clasurol
<b>LI2</b> defnyddio ymchwil a dadansoddi i ddatblygu arddull perfformio rhannau clasurol mewn ymarferion [HR, YA]	<b>T2</b> defnyddio ymatebion medrus wrth ymchwilio a dadansoddi mewn ymarferion	<b>Rh2</b> defnyddio ymatebion dychmygus, disgybledig a medrus wrth ymchwilio a dadansoddi mewn ymarferion
<b>LI3</b> datblygu rhannau clasurol cyferbyniol drwy ymarfer gyda chefnogaeth gan diwtor [MC, HR, CE, GT]	<b>T3</b> datblygu dwy ran glasurol gyferbyniol drwy ymarfer gyda pheth chefnogaeth gan diwtor	<b>Rh3</b> datblygu dehongliadau dychmygus a chreadigol o ddwy ran glasurol gyferbyniol drwy ymagweddu'n hunanddisgybledig tuag at ymarferion
<b>LI4</b> perfformio testunau clasurol gan ddefnyddio sgiliau lleisiol a symud priodol i gyfathrebu'r rhan. [CE, GT, HR]	<b>T4</b> perfformio testunau clasurol gan ddefnyddio sgiliau lleisiol a symud priodol yn ystyriol, er mwyn cyfathrebu'r rhan yn hyderus.	<b>Rh4</b> perfformio testunau clasurol gan ddefnyddio sgiliau lleisiol a symud priodol i gyfathrebu'r cymeriad yn greadigol, yn ddyfeisgar ac yn sicr.

# Uned 13: Perfformiad Theatr Gyfoes

<b>Cod yr uned:</b>	<b>D/502/5359</b>
<b>FfCCh Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Mae'r uned hon yn edrych ar y mudiadau ysgrifennu dramatig o 1930 i'r presennol gyda diddordeb penodol yn y modd y gellir eu dehongli a'u perfformio. Mae defnyddio technegau actio modern fel y rhai a ddatblygwyd gan Stanislavski a Brecht yn galluogi'r dysgwyr i arbrofi ag arddulliau perfformio.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae celfyddyd y dramodydd wedi bodoli ers o leiaf 2500 o flynyddoedd. Yn ystod y cyfnod hwnnw bu datblygiad cyson o ran arddull a chynnwys y gwaith a ysgrifennwyd i'r theatr. Mae ffurfiau newydd yn ymddangos, weithiau'n ddatblygiad newydd, weithiau'n dychwelyd at ffurf anghofiedig sy'n cael ei thrin mewn ffordd newydd wedyn.

Mae gwaith meistri'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, megis Ibsen, Strindberg a Chekhov, wedi ysbrydoli newid mawr yn y theatr. Nid yn unig mae eu dylanwad wedi bod yn amlwg trwy gydol yr ugeinfed a'r unfed ganrif ar hugain ond mae nifer o ddramodwyr wedi symud y ffurf yn ei blaen ac wedi creu cyfres gadarn a bywiog o fudiadau sydd wedi ymsefydlu ym maes theatr y byd. O weithiau Bertolt Brecht i John Osborne, Caryl Churchill i Mark Ravenhill, Saunders Lewis i Gwenlyn Parry a thu hwnt ceir ystod o enghreifftiau cyfoethog ac amrywiol o theatr gyfoes.

Rhoddir cyfle i'r dysgwyr astudio sgriptiau theatr cyfoes ac yna i ddefnyddio eu sgiliau actio o safbwynt llawn creadigrwydd a dychymyg. O ganlyniad, canolbwynt ymarferol sydd i'r rhan fwyaf o'r uned hon er ei bod yn dal i roi sylw i ymchwil perthnasol i'r deunydd perfformio a ddewiswyd. Bydd yr ymchwil hwn yn sail i waith ymarferol a wneir yn y gweithdy ac mewn ymarferion yn arwain at berfformio dau destun cyfoes. Rhoddir sylw i ddehongli cymeriadau mewn arddull actio berthnasol. Hefyd gallai'r dysgwyr herio arddull gonfensiynol safonol unrhyw waith a ddewiswyd drwy arbrofi â thestun mewn amrywiaeth o arddulliau.

At ddibenion yr uned hon bernir bod unrhyw ddrama a ysgrifennwyd ers 1930 yn destun cyfoes.

**Rhaid i'r dysgwyr weithio ar o leiaf ddau destun cyferbyniol. Gall y perfformiadau fod yn ddarn o'r testunau, yn para lleiafswm o 10 munud yr un.**

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai dysgwr:

- 1 Gallu ymchwilio i destunau cyfoes
- 2 Gallu dehongli a gwireddu testunau cyfoes
- 3 Gallu ymarfer testunau cyfoes i'w perfformio
- 4 Gallu perfformio testunau cyfoes.

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gallu ymchwilio i destunau cyfoes

*Ymchwilio i gyd-destun:* ee gwleidyddol, cymdeithasol, diwylliannol, economaidd, moesol; adloniant; cynnwys; thema

Ymchwil esthetig: ymdrin â themâu a materion; agweddau'n ymwneud ag arddull a strwythur; gofynion dylunio ac arbenigol ar gyfer set, celfi, gwisgoedd, ac ati; technegau symud/llais penodol sy'n ofynnol gan arddull y testun

### 2 Gallu dehongli a gwireddu testunau cyfoes

*Dadansoddi:* iaith; delweddaeth; crebwyll seicolegol; ymwybyddiaeth thematig; dehongliad a chydlyniad dramatig; dadansoddi cymeriadau; ystyried bwriad yr awdur

*Arddulliau:* ffurf a strwythur ee rhaniadau act, strwythur golygfeydd, plot, isblot, delweddaeth, symbol, telynegaeth, rhythm, mydr, y berthynas rhwng sain ac ystyr, naturoliaeth, realaeth, mynegiadaeth, swrrealiaeth

### 3 Gallu ymarfer testunau cyfoes i'w perfformio

*Rheoli personol:* ee rheoli amser, amserlenni ymarfer, paratoi corfforol, paratoi meddyliol, log actor, gwisgoedd a phropiau, arferion gweithio iach a diogel, canolbwynt a disgyblaeth, ymddiriedaeth a chydweithredu, cyfathrebu

*Gwrando ac ymateb:* derbyn cyfarwyddyd; hyblygrwydd a haelioni creadigol; defnyddio ymarferion a thechneg ymarfer; rhyngweithio grŵp; ymateb yn gadarnhaol i adborth

*Twf a datblygiad:* arbrawf a risg; ymgysylltu â'r rhan; penderfyniadau cymeriad; estyn a mireinio, dysgu ar y cof; ymateb digymell wedi'i gynnal

### 4 Gallu perfformio testunau cyfoes

*Mynegiant corfforol:* osgo; ystum; tempo a rhythm; ystod; priodoldeb egni

*Mynegiant lleisiol:* ystod a defnydd o offeryn y llais; tŵn; cyflymder; traw; rheolaeth; goslef; taflu'r sain; cywair; hynodwedd; tafodiaith ac acen (os yw'n briodol)

*Buddsoddi emosiynol:* ymrwymiad ar y llwyfan; rhyngweithio ac ymateb; chwarae'r eiliad; unigrwydd cyhoeddus; priodoldeb ystod emosiynol a'r defnydd ohono; cydlyniad a chysondeb y rhan; taith y cymeriad; natur y berthynas â chynulleidfa

**Rhaid i'r dysgwyr weithio ar o leiaf ddau destun cyferbyniol. Gall y perfformiadau fod yn ddarn o'r testunau, yn para lleiafswm o 10 munud yr un.**

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> ymchwilio i destunau cyfoes i roi syniadau i'w dehongli [YA]	<b>T1</b> ymchwilio i destunau cyfoes, gan ddewis nodweddion i'w dehongli	<b>Rh1</b> ymchwilio i destunau cyfoes, gan ddewis nodweddion manwl i'w dehongli
<b>LI2</b> gwireddu cymeriadau a bodloni gofynion y testunau o ran y dehongliadau	<b>T2</b> gwireddu cymeriadau gyda medr a dychymyg, gan fodloni gofynion y testun o ran y dehongliadau	<b>Rh2</b> gwireddu cymeriadau gyda disgyblaeth medr a dychymyg, gan fodloni gofynion y testun o ran y dehongliad
<b>LI3</b> datblygu perfformiad drwy ymarfer, gydag arweiniad [MC]	<b>T3</b> datblygu perfformiad drwy ymarfer, gan ddefnyddio cyfarwyddyd ac ymreolaeth greadigol yn annibynnol	<b>Rh3</b> datblygu perfformiad drwy ymarfer, gyda chyfarwyddyd dychmygus ac annibynnol ac ymreolaeth hynod greadigol
<b>LI4</b> perfformio rhannau o destunau cyfoes cyferbyniol, gan ddangos gwahaniaethau yn y cymeriadu. [CE]	<b>T4</b> perfformio rhannau o destunau cyfoes cyferbyniol, gan ddangos gwahaniaethau effeithiol a nodedig yn y cymeriadu.	<b>Rh4</b> perfformio rhannau o destunau cyfoes cyferbyniol, gan ddangos gwahaniaethau llawn mynegiant a dychymyg yn y cymeriadu.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol MC — meddylwyr creadigol	DM — dysgwyr myfyriol GT — gweithwyr tîm	HR — hunanreolwyr CE — cyfranogwyr effeithiol
---------	--	---	--

# Uned 14: Perfformiad Theatr Gerdd

<b>Cod yr uned:</b>	<b>R/502/5102</b>
<b>FfCCh Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi'r dysgwyr i gymryd rhan mewn perfformiad o theatr gerdd. Bydd y dysgwyr yn ymarfer rhan (neu rannau) sy'n gofyn iddyn nhw ddefnyddio sgiliau actio, canu a dawnsio mewn perfformiad theatr gerdd.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae theatr gerdd yn ffurf gyffrous a phoblogaidd ar gelfyddyd sy'n cyfuno canu, dawnsio a symud. Mae sawl ffurf arni, gan gynnwys sioeau cerdd mawr Broadway a West End Llundain, pantomeim, opera, opereta a dramâu sydd â chynnwys sylweddol o ran cerddoriaeth a symud. Mae repertoire helaeth o ddeunydd ar gael a bydd cyfle i'r dysgwyr ddehongli a pherfformio mewn gwaith theatr gerdd a ddewiswyd i weddu i'w diddordebau a'u gallu. Mae theatr gerdd yn cyfuno sgiliau actio, dawnsio a chanu ac mae'r uned hon yn ymwneud ag archwilio'r rhyngweithio rhwng y tri sgil perfformio hyn a'u defnyddio'n briodol i fodloni gofynion perfformio darnau penodol.

Mae llwyfannu eitem gerddorol yn gofyn am lefel uchel o ganolbwyntio, stamina a'r gallu i gydlynu amrywiaeth o sgiliau perfformio. Mae angen i berfformwyr ym maes theatr gerdd fod â llawer o sgiliau. Yn ogystal â gallu actio, mae gofyn iddyn nhw ddawnsio a gallu canu. Bydd y dysgwyr yn ymarfer ac yn perfformio rhan mewn perfformiad theatr gerdd er mwyn cael profiad o gyfuno gallu a sgiliau actio, canu a dawnsio.

Mae'r uned hon yn rhoi cyd-destun penodol i ddefnyddio a datblygu'r sgiliau a gafwyd ym meysydd arbenigol actio, canu a dawnsio'r cymhwyster. Mae theatr gerdd yn faes cyflogaeth arwyddocaol yng nghanen perfformio byw a recordio'r diwydiant, gyda chyfleoedd ar gyfer gwaith corws ac ensemble yn ogystal â phrif rannau. Mae'n gofyn am actorion sy'n gallu canu a dawnsio; dawnsiwr sy'n gallu actio a chanu; cantorion sy'n gallu actio a dawnsio a pherfformwyr sydd â phob un o'r tri sgil i raddau sydd fwy neu lai'n gyfartal.

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai dysgwr:

- 1 Deall rhan neu rannau mewn gwaith theatr gerdd.
- 2 Gallu defnyddio'r sgiliau perfformio priodol
- 3 Gallu ymarfer ar gyfer rhan mewn sioe gerdd
- 4 Gallu perfformio rhan mewn sioe gerdd.



## Cynnwys yr uned

---

### 1 Deall rhan neu rannau mewn gwaith theatr gerdd

*Dehongli:* datblygu rôl drwy ymchwil; ymateb i ddeialog, cyfarwyddyd, geiriau a/neu goreograffi; ymateb i rannau eraill yn y darn a'r berthynas â nhw

*Ffurf a strwythur:* swyddogaeth y rhan/rhannau yn y gwaith cyfan; arddull a genre y gwaith; y berthynas rhwng y llyfr, y geiriau a'r gerddoriaeth

### 2 Gallu defnyddio'r sgiliau perfformio priodol

*Dethol ac ymarfer:* cyfateb eu gallu eu hunain i'r rhan; datblygu ymarweddiad lleisiol a chorfforol sy'n briodol i'r rhan; datblygu neu ddysgu arddulliau canu, dawnsio neu actio priodol; dilyn trefn ymarfer; gosod targedau personol a'u cyrraedd

*Dysgu ar y cof:* dysgu llinellau a/neu ran canu lleisiol a/neu symudiadau coreograffi; ailadrodd y deunydd a ddysgwyd; gwneud cywiriadau fel y bo'r angen; ymateb i newidiadau i ddeunydd a ddysgwyd o'r blaen; ymwybyddiaeth o leoliad ar y llwyfan

### 3 Gallu ymarfer ar gyfer rhan mewn sioe gerdd

*Techneg ymarfer:* rheoli amser (prydlondeb, dilyn amserlen ymarfer, mynychu); ffocws a chanolbwyntio; hunanddisgyblaeth; agwedd ac ymagweddu llawn cydweithrediad; ymrwymiad i'r gwaith; paratoi (gwisgo'r dillad priodol, bod â'r cyfarpar neu ddogfennaeth gywir, ymarfer rhwng yr ymarferion)

*Gofynion lleisiol:* ymateb i gyfarwyddyd cerddorol; nodi ystod leisiol bersonol; defnyddio technegau anadlu: adnabod traw, ansawdd tŷn, nodau, cyfyngau, cyflymder, cordiau a chyweiriau; ymarfer gyda sgôr

*Gofynion symud:* ymateb i goreograffi; cywirdeb rhythmig; defnyddio gofod; gallu technegol; gwaith ensemble

*Gofynion actio:* ymateb i gyfarwyddyd; datblygiad y cymeriadau; gwaith llais; cwmpas emosiynol; defnyddio arddull briodol; datblygu dehongliad y rôl

### 4 Gallu perfformio rhan mewn sioe gerdd

*Mynegiant corfforol a lleisiol:* rheolaeth leisiol a chorfforol; defnydd effeithiol o ystod gorfforol a lleisiol, ymwybyddiaeth o dŷn, traw, goslef, cydbwysedd, osgo, dynameg

*Cyfathrebu:* cynnal ffocws a chanolbwynt; taflu'r llais; ymgorffori rôl; cyfathrebu naws ac emosiwn; cyfathrebu dehongliad; cyfathrebu â pherfformwyr eraill; ymwybyddiaeth o elfennau eraill y perfformiad ee goleuo, golygfeydd, sain, defnyddio microffonau, gwisgoedd, propiau

*Cyfannu:* dod â sgiliau gwahanol at ei gilydd; sicrhau bod eu rhan/rhannau eu hun yn gweddu i gysyniad cyffredinol y cynhyrchiad; gweithio gydag elfennau eraill y cynhyrchiad; gwneud addasiadau er mwyn gweddu i ofynion y cynhyrchiad

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> trafod dehongli a gwireddu rhan neu rannau [YA]	<b>T1</b> esbonio dehongli a gwireddu rhan neu rannau	<b>Rh1</b> dadansoddi dehongli a gwireddu rhan neu rannau
<b>LI2</b> defnyddio'r sgiliau a'r technegau priodol gyda chefnogaeth ac arweiniad [DM]	<b>T2</b> defnyddio'r sgiliau a'r technegau priodol gydag ychydig iawn o gefnogaeth ac arweiniad	<b>Rh2</b> defnyddio'r sgiliau a'r technegau priodol yn annibynnol
<b>LI3</b> cyfrannu i'r broses ymarfer gan gynnal disgyblaeth ymarfer ar lefel addas [GT]	<b>T3</b> gwneud cyfraniadau gwerthfawr i'r broses ymarfer gan gynnal disgyblaeth ymarfer ar lefel uchel	<b>Rh3</b> cyfrannu'n arwyddocaol i'r broses ymarfer gan gynnal disgyblaeth ymarfer ar lefel gyson uchel
<b>LI4</b> defnyddio sgiliau perfformio'n gymwys i greu perfformiad sy'n cyfathrebu dehongliad i gynulleidfa. [HR]	<b>T4</b> defnyddio sgiliau perfformio'n effeithiol i greu perfformiad sy'n cyfathrebu dehongliad ystyriol i gynulleidfa.	<b>Rh4</b> defnyddio sgiliau perfformio'n hyderus i greu perfformiad sy'n cyfathrebu dehongliad manwl a dychmygus i gynulleidfa.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

# Uned 15: Perfformiad Adloniant (Variety)

<b>Cod yr uned:</b>	<b>Y/502/5117</b>
<b>FfCCh Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi'r dysgwyr i ddatblygu a pherfformio 'act' neu 'eitem' yn rhan o Sioe Adloniant. Bydd y dysgwyr yn creu eu defnydd eu hunain, yn ei ymarfer a'i berfformio.

Mae byd y perfformiwr adloniant, fel y mae'r term yn ei awgrymu, yn eang ac yn amrywiol. Gall adloniant gyfeirio at unrhyw fath o berfformiad a all ddifyrru cynulleidfa. Mae gwreiddiau sioeau adloniant – variety – ym myd theatr gerdd, syrcau, *cabaret* a vaudeville. Mae perfformwyr adloniant yn defnyddio amrywiaeth o sgiliau i ddatblygu deunydd y gallan nhw ei gyflwyno i gynulleidfa fel act neu 'eitem'. Bydd y dysgwyr yn ystyried y cyfyngiadau a'r cyfleoedd y mae gwahanol fathau o leoliadau yn eu cyflwyno a allai gynnwys tafarnau, clybiau, llongau pleser, gweryslyoedd gwyliau a theatr stryd, a'r cyfryngau fel radio a theledu.

Mae'r uned hon yn galluogi'r dysgwyr i ddatblygu technegau perfformio sy'n briodol i waith y difyrrwr adloniant ac i greu repertoire unigol. Er enghraifft, drwy'r uned hon, gall y dysgwyr ddatblygu deunydd comedi a allai fod yn '*stand up*' neu ar gyfer eitem sy'n cynnwys perfformwyr eraill. Neu, gallai'r dysgwyr ddefnyddio caneuon sy'n bod yn barod neu ddeunydd newydd i greu act canu a dawnsio neu ddefnyddio technegau fel trawswisgo, acrobateg, tafleisio, dynwarded, meimio, triciau rhith neu glwnio yn rhan greiddiol o act arbenigol. Yn ogystal, gall y dysgwyr ystyried defnyddio elfennau eraill fel propiau a gwisgoedd anghyffredin, pypedau a thechnoleg ddigidol yn gyfryngau posibl mewn act arbenigo..

Gan mai ychydig iawn o gyfyngiadau sydd ar ffurf neu gynnwys darn o waith, mae posibiliadau enfawr yn yr uned hon am wreiddioldeb a dyfeisgarwch. Hanfod theatr adloniant yw'r anarferol, y gwahanol, y rhyfedd, yr amgen a'r anghonfensiynol. Yr allwedd i ddysgwyr yw arbrofi a phrofi syniadau a dod o hyd i gynulleidfa addas i'w math arbennig nhw o adloniant.

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai dysgwr:

- 1 Gwybod am wahanol fathau o berfformiadau adloniant
- 2 Gallu dyfeisio deunydd sy'n addas i act adloniant
- 3 Gallu ymarfer deunydd i act adloniant
- 4 Gallu perfformio act neu eitem adloniant.

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gwybod am wahanol fathau o berfformiadau adloniant

*Sgiliau perfformio*: sut defnyddir sgiliau perfformio penodol mewn act adloniant ee symud/dawns, lleisiol/canu, gweledol/dylunio, rhyngweithio, creu'n fyrfyfyr, defnyddio cyfarpar, celfi, offerynnau

*Cwmpas y gwaith*: gwahanol fathau o rôl ee cyflwynydd, comediwr, dewin, jyglwr, tafleisydd, cerddor, adroddwr stori, artist meim, canwr, clown, difyrwr plant, dawnsiwr

*Lleoliad*: ymwybyddiaeth o wahanol fathau o leoliad ar gyfer gwaith adloniant ee *cabaret*, clybiau, theatr, theatr gerdd, dan do/awyr agored, llongau pleser, gwerylloedd gwyliau, gwyliau, cyfryngau darlledu ac wedi'u recordio

### 2 Gallu dyfeisio deunydd sy'n addas i act adloniant

*Creu*: gwaith ar syniadau a'u datblygu'n fformat priodol gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau ee dyfeisio, creu'n fyrfyfyr, addasu deunydd sy'n bodoli, ysgrifennu sgriptiau, ymchwilio, arsylwi; arbrofi; ymarfer, arfarnu, profi ac addasu deunydd

*Cyd-destunau*: adnabod priodoldeb a phosibiliadau deunydd sy'n berthnasol i wahanol gyd-destunau ee cynulleidfia bosibl, mathau/swyddogaethau lleoliadau, perthynas ffurfiol/anffurfiol

*Gwerthusiad*: profi ac addasu deunydd gan ymateb i adborth ee drwy 'ffrindiau beirniadol', grwpiau trafod, grwpiau ffocws, holiaduron, mentor proffesiynol, cyfarwyddwr, rheolwr lleoliad, asiant bwcio, beirniaid y wasg/darlledu

*Cyfyngiadau*: ystyried unrhyw gyfyngiadau ymarferol ee iechyd a diogelwch, cyfreithiol (hawlfraint PRS), technegol, ariannol, mynediad, lleoliad, adnoddau, graddfa amser

### 3 Gallu ymarfer deunydd i act adloniant

*Cynllunio*: gweithio i amserlen; nodi cerrig milltir yn y prosiect; gosod terfynau amser realistig; trefnu cyfarfodydd â chydweithwyr; dadansoddi gofynion y dasg

*Technegau a sgiliau*: paratoi corfforol a meddyliol; dysgu deunydd; gwneud addasiadau i'r perfformiad drwy'r broses ymarfer; gweithio ar amseru, cyflymdra, taflu'r llais, gosodiad gofodol, defnyddio propiau a chyfarpar fel y bo'n briodol; caboli a mireinio sgiliau perfformio

#### 4 **Gallu perfformio act neu eitem adloniant**

*Perfformio:* defnyddio sgiliau corfforol a lleisiol fel y bo'n briodol ee rheolaeth leisiol a chorfforol, defnyddio cwmpas corfforol a lleisiol yn effeithiol, defnyddio gofod, trin a rheoli propiau a chyfarpar, presenoldeb llwyfan; gwneud addasiadau i'r perfformiad fel y bo'r angen

*Cyfathrebu:* cynnal ffocws a chanolbwynt; taflunio lleisiol a chorfforol; cyfathrebu naws ac emosiwn; cael yr ymateb priodol oddi wrth y gynulleidfa; 'gweithio'r' gynulleidfa lle a phan fo'n briodol; cynnal lefelau egni; cyfathrebu'r canlyniadau a fwriadwyd

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> disgrifio gwahanol fathau o actau a lleoliadau adloniant, gydag enghreifftiau [YA]	<b>T1</b> esbonio natur gwahanol fathau o actau a lleoliadau adloniant, gan gyfeirio at enghreifftiau perthnasol	<b>Rh1</b> dadansoddi natur gwahanol fathau o actau a lleoliadau adloniant, gyda chefnogaeth enghreifftiau a ddewiswyd yn dda
<b>LI2</b> datblygu syniadau a deunyddiau gyda chefnogaeth ac arweiniad [MC]	<b>T2</b> datblygu syniadau a deunyddiau gydag ychydig iawn o gefnogaeth ac arweiniad	<b>Rh2</b> datblygu syniadau a deunydd yn annibynnol
<b>LI3</b> defnyddio adnoddau ac ymchwil i lunio'r deunydd [YA]	<b>T3</b> defnyddio adnoddau ac ymchwil i lunio'r deunydd, gyda pheth sylw i fanylion a pheth crebwyll creadigol	<b>Rh3</b> defnyddio adnoddau ac ymchwil i ddatblygu syniadau'n fanwl ac yn greadigol
<b>LI4</b> defnyddio sgiliau a thechnegau priodol i ymarfer deunydd ar gyfer perfformiad adloniant, gyda chefnogaeth ac arweiniad	<b>T4</b> defnyddio sgiliau a thechnegau priodol i ymarfer deunydd ar gyfer perfformiad adloniant, gydag ychydig iawn o gefnogaeth ac arweiniad	<b>Rh4</b> defnyddio sgiliau a thechnegau priodol i ymarfer deunydd ar gyfer perfformiad adloniant yn annibynnol
<b>LI5</b> defnyddio sgiliau perfformio'n gymwys i gynhyrchu perfformiad sy'n cyfathrebu â chynulleidfa, gan fethu canolbwyntio yn achlysurol yn unig.	<b>T5</b> defnyddio sgiliau perfformio'n effeithiol i gynhyrchu perfformiad sydd â chanolbwynt ac sy'n ymgysylltu â'r deunydd a'r gynulleidfa'r rhan fwyaf o'r amser.	<b>Rh5</b> defnyddio sgiliau perfformio'n hyderus ac yn ddychmygus i gynhyrchu perfformiad sy'n dal ati i fod â chanolbwynt ac ymgysylltu â'r deunydd a'r gynulleidfa drwyddi draw.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol



# Uned 16: Perfformio gyda Masgiau

<b>Cod yr uned:</b>	<b>H/502/5105</b>
<b>FfCCh Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Mae'r uned hon yn archwilio sut mae action yn defnyddio masgiau a pherfformio gyda nhw; bydd y dysgwyr yn datblygu technegau a ddefnyddir wrth actio gyda masgiau drwy greu ac ymarfer perfformiadau ac yna'u cyflwyno nhw i gynulleidfa.

## Cyflwyniad i'r uned

Bydd y dysgwyr yn ymchwilio i sut mae masg yn gweithio mewn perfformiad, gan edrych ar ei ddefnydd o safbwyntiau diwylliannol, cymdeithasol a hanesyddol. Mae masgiau wedi bod yn boblogaidd mewn perfformiadau gydol hanes a bydd y dysgwyr yn astudio gwahanol fathau a defnydd o fasiau i greu drama ddiddorol a chyffrous. Bydd y dysgwyr yn archwilio technegau ar gyfer actio gyda masgiau ac yn cymryd rhan mewn gweithdai i ddatblygu'r sgiliau hyn. Byddan nhw'n perfformio drama i fasiau sydd wedi'i hymarfer ac yn gwerthuso pa mor effeithiol yw'r deunydd hwn, gan nodi'r cryfderau a'r gwendidau yn eu gwaith eu hun a'r deunydd sy'n cael ei baratoi i'w berfformio.

Bydd dealltwriaeth o'r cyfleoedd i ddefnyddio masg fel offeryn perfformio yn werthfawr i ddysgwyr sy'n bwriadu dilyn gyrfa yn y diwydiant celfyddydau perfformio. Mae masgiau wedi cael eu defnyddio drwy'r oesau i gyfathrebu â chynulleidfaoedd, fel dyfeisiau ensemble a chorws ac i archwilio themâu a chymeriadau. Bydd y technegau corfforol a lleisiol penodol sy'n ofynnol gan yr actor yn rhoi sgiliau gwerthfawr a fydd yn datblygu dealltwriaeth o dechnegau theatr symud a chorfforol.

**Bydd y dysgwyr yn cael eu hasesu mewn o leiaf un perfformiad, sy'n para lleiafswm o bum munud.**

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai dysgwr:

- 1 Deall y masg fel offeryn perfformio
- 2 Gallu datblygu technegau actio gyda masgiau mewn gweithdai ymarferol ac ymarferion
- 3 Gallu creu a pherfformio masg drama
- 4 Deall pa mor effeithiol yw perfformio gyda masgiau.

## Cynnwys yr uned

### 1 Deall y masg fel offeryn perfformio

*Defnydd:* ee defodau crefyddol ac arall, eiddo, seremoni, carnifal, llesmair, gorymdeithio, defnydd cyfoes, masgiau cymdeithasol, theatr wleidyddol, comedi, trasiedi

*Gwreiddiau:* ee theatr Groeg, theatr Noh, masgiau Baliaidd, Commedia dell'Arte, dawn fasgiau

*Mathau a phriodweddau:* ee seremonïol, corws, trasiedi a chomedi, wyneb llawn, helmed, hanner wyneb, rhannol, anifail, niwtral

*Defnyddiau:* ee croen anifail, ffwr a phlu, pren, lledr, lliain, papur a cherdyn, papier maché, clai, plastr, celastig, latecs, gwydr ffibr, gwifrau, plastig

### 2 Gallu datblygu technegau actio gyda masgiau mewn gweithdai ymarferol ac ymarferion

*Egwyddorion allweddol:* priodweddau cynhenid masg; lefelau naifrwydd a soffistigeiddrwydd; sut mae gwisgo a thynnu masg; perthynas yr actor â'r masg; datblygu ac estyn cymeriad mewn masg; chwarae i gynulleidfa

*Gwaith paratoi:* defnyddio'r wyneb; mynegiant emosiynol: defnyddio'r corff; mathau o gymeriadau stoc; defnyddio sain/testun; yr actor naif

*Ysgogi ac animeiddio'r masg:* ee cyflwyniadau, cyfarfodydd, creu'n fyrfyfyr, senarios a threfnau, estyniad corfforol y masg, gweithio gyda cherddoriaeth, gweithio gyda phropiau, gweithio gyda hetiau a gwisgoedd, datblygu deialog, technegau lleisiol, creu a datblygu darnau perfformio gyda masgiau, lazzi, acrobateg, ailadrodd, defnyddio'r corff, agweddau, defnyddio dwy elfen groes i'w gilydd

### 3 Gallu creu a pherfformio masg drama

*Cyd-destun perfformio:* ble bydd y perfformiad yn digwydd, perthynas â'r gynulleidfa a'i hymateb, diben y perfformiad, perthynas â'r gynulleidfa

*Diben y perfformiad:* ee dirgelwch, sylwebaeth gymdeithasol, comedi, theatr wleidyddol, trasiedi, dathlu

*Sgiliau perfformio:* ee defnyddio'r corff, defnyddio'r llais, gweddnewid, rhyngweithio a pherthynas, amseru, cwmpas ac amrywiaeth mynegiant, cyfathrebu â'r gynulleidfa

*Sgiliau artistig:* creadigrwydd; rhoi sgiliau technegol ar waith; priodoldeb defnyddio masg; cyflawni amcanion; ymateb y gynulleidfa

### 4 Deall pa mor effeithiol yw perfformio gyda masgiau

*Gwerthusiad:* ymateb y perfformiwr ac eraill o ran effeithiolrwydd y perfformiad; ymgorffori'r egwyddorion allweddol; adolygu'r gwaith paratoi; defnyddio cyd-destun a phwrpas y perfformiad yn briodol; defnyddio sgiliau perfformio ac artistig; effaith y gynulleidfa a'i hymateb; perthnasedd i'r gynulleidfa; bod yn driw i'r syniadau gwreiddiol; ymarferoldeb datblygu'r perfformiad gyda'r masg; syniadau i'w datblygu i'r dyfodol

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> Esbonio gwreiddiau, gwahanol ddefnydd a mathau o fasnau perfformio [YA]	<b>T1</b> Esbonio'n fanwl wreiddiau, gwahanol ddefnydd a mathau o fasnau perfformio	<b>Rh1</b> Gwneud sylwadau beirniadol am wreiddiau, gwahanol ddefnydd a mathau o fasnau perfformio
<b>LI2</b> Datblygu perfformiad gyda masg, gan ddefnyddio rhai o egwyddorion allweddol gwaith gyda masgiau [MC, DM]	<b>T2</b> Datblygu perfformiad gyda masg yn ymatebol, gan ddefnyddio ystod o egwyddorion allweddol gwaith gyda masgiau'n ymarferol	<b>Rh2</b> Datblygu perfformiad gyda masg yn hynod hyblyg, dychmygus ac yn hollol fyfyrion, gan ddefnyddio ystod gynhwysfawr o egwyddorion allweddol gwaith gyda masgiau'n ymarferol
<b>LI3</b> Perfformio mewn masg, gan ddangos cymeriad ac ystyr sy'n cyfathrebu'n rhannol â chynulleidfa [MC, DM, CE]	<b>T3</b> Perfformio mewn masg, gan ddangos bod y masg yn cael ei drin yn ddyfeisgar ac yn rhwydd, gan gyfathrebu cymeriad ac ystyr i gynulleidfa	<b>Rh3</b> Perfformio mewn masg, gan ddangos sicrwydd a dychymyg wrth ei drin; bydd y perfformiad yn ddyfeisgar, yn ymgorffori'r cymeriad ac yn cyfathrebu â chynulleidfa ac yn ymateb iddi
<b>LI4</b> Gwerthuso llwyddiant gwaith ymarferol gan wneud rhai argymhellion ar gyfer datblygiad. [DM]	<b>T4</b> Gwerthuso llwyddiant gwaith ymarferol gan wneud rhai argymhellion manwl ar gyfer datblygiad.	<b>Rh4</b> Gwerthuso llwyddiant gwaith ymarferol gan wneud rhai argymhellion manwl, ystyriol ac ymarferol ar gyfer datblygiad.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol



# Uned 17: Datblygu Llais i'r Actor

<b>Cod yr uned:</b>	<b>L/502/5096</b>
<b>FfCCh Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu gwybodaeth y dysgwyr am egwyddorion cynhyrchu llais, iechyd lleisiol, a manteision ymarfer lleisiol rheolaidd i'r actor.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae'r uned hon yn ymwneud ag ymagweddu'n ddisgybledig tuag at ymarferion perthnasol a defnyddio techneg lleisiol wrth berfformio. Fodd bynnag, er mwyn gwerthfawrogi'r berthynas gymhleth rhwng yr actor a llais yr actor yn llawn, mae'n hanfodol fod y dysgwyr yn deall sut caiff y llais ei gynhyrchu. Felly, yn ogystal, bydd yn ofynnol i ddysgwyr yn yr uned hon ymchwilio i ryngweithio'r organau lleferydd ac archwilio sut mae corff cyfan yr actor yn dylanwadu ar ansawdd y llais a gynhyrchwyd.

Mae cynhyrchu llais yn ymwneud â defnyddio cyhyrau penodol ac mae'n ofynnol i'r cyhyrau hyn gael eu hymarfer yn gyson er mwyn datblygu a gwella'r llais. Trwy gydol yr uned bydd y dysgwyr yn cymryd rhan mewn ymarferion lleisiol rheolaidd (gallwch ei ystyried fel mynd â'ch llais i'r gampfa) a gweithgareddau eraill a fydd o fudd i bob agwedd ar gynhyrchu llais. Wrth i'r dysgwyr ddod yn fwy cyfarwydd â theori cynhyrchu llais ac yn fwy hyderus gyda'r gwaith llais ymarferol, byddan nhw hefyd yn cyfrannu i gyflwyno dosbarthiadau llais.

Mae iechyd lleisiol yn agwedd arall arwyddocaol ar yr uned hon. Bydd y dysgwyr yn ymchwilio i sut mae cynnal llais iach a sut mae osgoi niweidio eu horganau lleferydd.

Yn ogystal â disgyblaeth ymarferion datblygu lleisiol, dylai'r dygwyr gael cymaint o brofiad ag sy'n bosibl o brofi eu techneg yn erbyn amrywiaeth o destunau. Gall hyn feithrin gwerthfawrogiad o sut mae tŷn llais wahanol yn gallu gweddu i arddulliau testun gwahanol, a sut mae'r ymateb esthetig i destun yn cyfrannu i ystyriaethau'n ymwneud â thraw, cyflymder a dynameg. Yn ogystal rhaid i'r dysgwyr ystyried goblygiadau gofynion cymeriadu mewn amrywiaeth o destunau i'r llais.

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai dysgwr:

- 1 Gwybod am egwyddorion cynhyrchu'r llais ac iechyd lleisiol
- 2 Gallu cymryd rhan mewn dosbarthiadau llais a chyfrannu iddyn nhw
- 3 Gallu dangos techneg lleisiol wrth berfformio.



## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gwybod am egwyddorion cynhyrchu'r llais ac iechyd lleisiol

*Organau'r llais:* tafod; gên; ceudod y trwyn; ceg; gwefusau; tafod galed; tafod feddal; trum gorfant; cyseinyddion; laryncs; ffaryncs; ysgyfaint; asennau; llengig; cyhyrau rhyngasennol; asgwrn cefn

*Prosesau lleisiol:* anadlu; llefaru; ynganu; cyseinio

*Ffactorau eraill:* osgo; tensiwn

*Iechyd lleisiol:* cynhesu; ymlacio; ystyriaethau dietegol; tensiwn; osgo; ysmegu; tyllau (*piercings*) yn y geg

### 2 Gallu cymryd rhan mewn dosbarthiadau llais a chyfrannu iddyn nhw

*Anadlu ac ymlacio:* osgo; ymwybyddiaeth gorfforol; rheoli anadlu; cynhwysedd yr anadl; ymlacio'r wyneb ymlacio'r corff; technegau arbenigol ee techneg Alexander, ioga

*Techneg:* tôn; cyflymder; traw; saib; taflu'r sain; goslef; modylid; goslef; ynganu; cyseinio; deinameg

### 3 Gallu dangos techneg leisiol wrth berfformio

*Techneg leisiol:* osgo; ymwybyddiaeth gorfforol; rheoli anadlu; cynhwysedd yr anadl; ymlacio'r wyneb ymlacio'r corff; tôn; cyflymder; traw; saib; taflu'r sain; goslefu; modylid; goslef; ynganu; cyseinio; deinameg

*Perfformiad:* cymeriadu; ffocws; canolbwyntio; monolog; ymddiddan; golygfa

*Natur y perfformiad:* byw (cynhyrchiad theatraidd, adrodd stori, cyngerdd); wedi'i recordio (ffilm, teledu, radio)

*Deunydd:* ee sgriptiau dramâu wedi'u cyhoeddi (clasurol a modern), sgriptiau dramâu gwreiddiol, cerddi, rhyddiaith heb fod yn ddrama, stori

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> disgrifio egwyddorion cynhyrchu'r llais a'u perthynas â thechneg leisiol wrth berfformio [YA]	<b>T1</b> esbonio egwyddorion cynhyrchu'r llais a'u perthynas â thechneg leisiol wrth berfformio	<b>Rh1</b> dadansoddi egwyddorion cynhyrchu'r llais a'u perthynas â thechneg leisiol wrth berfformio
<b>LI2</b> disgrifio sut mae cynnal llais iach [YA]	<b>T2</b> esbonio sut mae cynnal llais iach	<b>Rh2</b> dadansoddi sut mae cynnal llais iach
<b>LI3</b> cymryd rhan mewn dosbarthiadau llais [TW, EP]	<b>T3</b> ymgysylltu â dosbarthiadau llais a dangos gwelliant o ran techneg leisiol	<b>Rh3</b> ymgysylltu'n llawn â dosbarthiadau llais a dangos gwelliant arwyddocaol o ran techneg leisiol
<b>LI4</b> cyfrannu i gyflwyno dosbarthiadau llais [TW, EP]	<b>T4</b> cyfrannu i gyflwyno dosbarthiadau llais gan ddangos defnydd ystyriol o ymarferion lleisiol	<b>Rh4</b> cyfrannu i gyflwyno dosbarthiadau llais gan ddangos defnydd ystyriol ac effeithiol a phriodol o ymarferion lleisiol
<b>LI5</b> dangos defnydd cymwys o dechneg leisiol wrth berfformio. [TW, EP]	<b>T5</b> dangos defnydd medrus a hyderus o dechneg leisiol briodol wrth berfformio.	<b>Rh5</b> dangos defnydd cynhwysfawr a hollol briodol o dechneg leisiol wrth berfformio, gyda hyder, rhwyddineb a rhuglder.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnoddi, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol



# Uned 18: Clyweliadau i Actorion

<b>Cod yr uned:</b>	<b>H/502/5394</b>
<b>FfCCh Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Mae'r uned hon yn rhoi'r sgiliau cynllunio a'r technegau actio allweddol i'r dysgwyr allu cyflwyno perfformiadau effeithiol mewn clyweliadau er mwyn cael cyflogaeth mewn theatr fyw a chyfryngau sy'n cael eu ffilmio.

## Cyflwyniad i'r uned

Er mwyn cael gwaith, mae gofyn i actorion roi clyweliad fel arfer. Dylai'r clyweliad fod yn ddarn perffaith sydd wedi'i ystyried, ei ymarfer a'i fireinio ag o leiaf cymaint o sylw ag y byddir yn ei roi i unrhyw ddrama hyd llawn.

Mae'n hanfodol dewis darnau clyweliad yn ofalus. Rhaid i ddysgwyr ddatblygu ymwybyddiaeth o'u cryfderau a'u gwendidau actio eu hunain, ac â'u hymddygiad personol eu hunain mewn cyfweliad. Dylen nhw hefyd ddarganfod pa mor amryddawn ydyn nhw fel perfformwyr mewn amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys: portreadu cymeriadau; llais; lleferydd; symud; ystod emosiynol; bod yn gyfforddus gyda gwahanol arddulliau testun; a rhyngweithio â chynulleidfaedd clyweliadau.

Dylai unrhyw berfformiad clyweliad gael ei lunio i apelio at gynulleidfa benodol. Yn nodweddiadol, ym maes y theatr, cyfarwyddwr y ddrama sydd i gael ei chastio fydd hyn; ym maes ffilm/teledu, cyfarwyddwr y cynhyrchiad a'r cyfarwyddwr castio (a'r cynhyrchydd o bosib); ac mewn ysgolion drama, cyfarwyddwr cwrs neu aelod arall o'r staff addysgu. Yn gyffredinol, mae barnu perfformiad clyweliad yn ymwneud yn llai ag adloniant, ond yn hytrach â pha mor addas yw'r actor i'w gastio'n gymeriad penodol mewn arddull neu genre perfformio penodol. Mae anghenion y rhai sy'n clyweled mewn ysgolion drama'n benodol yn golygu bod yn rhaid iddynt fod yn siŵr fod darpar ddysgwyr yn dangos agwedd broffesiynol briodol, ac yn dangos dewrder, dychymyg, ymateb digymell ac ymrwymiad.

Gellir tynnu darnau clyweliad o amrywiaeth o ddeunydd. Yn y theatr ac ar gyfer clyweliadau ysgolion drama, araith o ddrama hyd llawn yw'r 'norm', gan ddefnyddio monolog wedi'i chodi neu'i haddasu o'r cyd-destun gwreiddiol. Yma, mae angen i'r dysgwyr fod yn ymwybodol o gyd-destun y darn yn y ddrama gyfan, yn enwedig manylion cymeriadau. Fel arfer mae clyweliadau sgrin yn gofyn i'r actor ddarllen o sgript a roddir, a phrin yw'r amser paratoi. Yma, gall fod rhywun nad yw'n actor ee cyfarwyddwr castio, yn 'llenwi' y llinellau sy'n cael eu llefaru gan gymeriad arall mewn ymddiddan.

Er mai rhywbeth sy'n cael ei gyflwyno fel act unigol yw clyweliad fel arfer, gall y dysgwyr weithio gyda'i gilydd i gynnig beirniadaeth gadarnhaol i'w gilydd.

**Bydd yr asesu'n digwydd mewn o leiaf dri darn clyweliad, y mae'n rhaid i ddau ohonyn nhw fod yn gyferbyniol.**

## Canlyniadau dysgu

**Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai dysgwr:**

- 1 Gwybod sut mae dethol deunydd clyweliad addas
- 2 Gallu cysylltu techneg perfformio leisiol a chorfforol â chymeriad ac arddull
- 3 Gallu defnyddio techneg leisiol a chorfforol wrth berfformio.

## Cynnwys yr uned

### 1 Gwybod sut mae dethol deunydd clyweliad addas

*Ymchwil a chynllunio:* ee asesu swyddogaeth/perthnasedd cymeriadu; dadansoddi'r testun i adeiladu proffil cymeriad; dadadeiladu sgript ee unedau/amcanion/rhwystrau; cyfathrebu â'r cyfarwyddwr i ddatblygu'r dehongliad o'r rhan; asesu natur perthynas yr actor â'r gynulleidfa; ymchwilio i waith a hoffterau'r cyrff sy'n cynnal clyweliadau

*Deunydd:* ee naturoliaeth gyfoes, realaeth, mynegiadaeth, swrrealiaeth, epig, Groeg, corws ac ensemble, melodrama, Commedia dell'Arte, yr Adferiad, cyn oes Elizabeth, oes Elizabeth/Jacobeidd, grotésg, ffars, theatr gorfforol neu weledol, gwleidyddol, theatr creulondeb, theatr yr absŵrd; testunau dramâu; sgriptiau ffilm; defnyddio llyfrau 'detholiadau' yn erbyn defnyddio areithiau sydd wedi'u cymryd neu'u haddasu o ddramâu

*Cyferbynnu:* ee naturioliaidd/arddulliedig; difrifol/doniol; agos at y teip/pell oddi wrth y teip; teimladrwydd wedi'i fewnoli/teimladrwydd wedi'i allanoli

### 2 Gallu cysylltu techneg perfformio leisiol a chorfforol â chymeriad ac arddull

*Techneg leisiol:* osgo; ymwybyddiaeth gorfforol; rheoli anadlu; cynhwysedd yr anadl; ymlacio'r wyneb ymlacio'r corff; cryfder; goslefu; tŵn; cyflymder; seibio; acen/tafodiaith; ynganu; nodweddion lleisiol unigryw; traw; saib; cyseiniant

*Techneg gorfforol:* osgo; ystum; defnyddio tensiwn, uchder, didwylledd, gofod a chyswllt llygaid; ystod a phriodoldeb egni

*Cymeriad:* oedran; statws; pŵer mewn perthnasoedd; personoliaeth ac agweddau; amgylchiadau a roddir, gan gynnwys amcanion/rhwystrau

*Arddull:* ee naturoliaeth, realaeth, mynegiadaeth, swrrealiaeth, epig, Groeg, corws ac ensemble, melodrama, Commedia dell'Arte, yr Adferiad, cyn oes Elizabeth, oes Elizabeth/Jacobeidd, grotésg, ffars, theatr gorfforol neu weledol, gwleidyddol, theatr creulondeb, theatr yr absŵrd, sgriptiau ffilm

*Twf a datblygiad:* ymgysylltu â'r rhan; penderfyniadau cymeriad; arbrawf a risg; estyn a mireinio, dysgu ar y cof

### 3 Gallu defnyddio techneg leisiol a chorfforol wrth berfformio

*Techneg leisiol:* osgo; ymwybyddiaeth gorfforol; rheoli anadlu; cynhwysedd yr anadl; ymlacio'r wyneb ymlacio'r corff; cryfder; goslefu; tŵn; cyflymder; seibio; acen/tafodiaith; ynganu; nodweddion lleisiol unigryw; traw; saib; cyseiniant

*Techneg gorfforol:* osgo; ystum; techneg ymlacio; defnyddio tensiwn, uchder, didwylledd, gofod a chyswllt llygaid; ystod a phriodoldeb egni; defnyddio'r dychymyg i ddelweddu'r amgylchedd

*Gofynion perfformio clyweliad:* ee monolog wedi'i dysgu; monolog i'w darllen ar y pryd; ymddiddan i'w ddarllen ar y pryd; ymateb i gyfarwyddyd o'r newydd yn ystod clyweliad; gofyniad i greu'n fyrfyfyr yn ystod clyweliad

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> disgrifio addasrwydd deunydd clyweliad a ddewiswyd i gyd-destunau clyweliad [MC]	<b>T1</b> esbonio addasrwydd deunydd clyweliad a ddewiswyd i gyd-destunau clyweliad	<b>Rh1</b> dadansoddi addasrwydd deunydd clyweliad a ddewiswyd i gyd-destunau clyweliad
<b>LI2</b> datblygu technegau perfformio lleisiol a chorfforol, gan ymateb i gymeriad ac arddull testun clyweliad [CE]	<b>T2</b> datblygu techneg perfformio lleisiol a chorfforol, gan ddangos rheolaeth ac ystyriaeth wrth ymateb i gymeriad ac ymateb i arddull testun clyweliad	<b>Rh2</b> datblygu techneg perfformio lleisiol a chorfforol, gan ddangos rheolaeth gyson, rhwyddineb corfforol ac ymateb dychmygus i gymeriad ac ymateb i arddull testun clyweliad
<b>LI3</b> dangos techneg lleisiol a chorfforol mewn sefyllfa clyweliad. [HR]	<b>T3</b> dangos techneg lleisiol a chorfforol gymwys mewn sefyllfa clyweliad.	<b>Rh3</b> dangos techneg lleisiol a chorfforol effeithiol a hyderus mewn sefyllfa clyweliad.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol



# Uned 19: Egwyddorion Actio

<b>Cod yr uned:</b>	<b>K/502/5395</b>
<b>FfCCh Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Yn yr uned hon bydd y dysgwyr yn astudio prif egwyddorion actio. Bydd y rhain yn cael eu harchwilio'n bennaf drwy weithdai ymarferol, ymarferion wedi'u harwain gan diwtoriaid a pherfformiadau i gynulleidfa fyw.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae actio'n gymysgedd o dechnegau a chelfyddyd. Mae angen i actorion gysylltu eu meistrolaeth ar eu techneg ag ymagweddu dychmygus a chreadigol at eu gwaith. Deall egwyddorion hanfodol actio yw'r sail i lansio perfformiadau llwyddiannus. Mae angen amser a gofod ar actorion i astudio ac archwilio'r prosesau a'r sgiliau sydd eu hangen i ddatblygu eu crefft. Mae i'r uned hon y canolbwynt ymarferol angenrheidiol y mae actorion proffesiynol yn ei ddefnyddio a bydd yn cynnig llawer o gyfleoedd i ystyried amrywiaeth o dechnegau a all helpu'r actor i gymeriadu cymeriad yn gorfforol ac yn lleisiol. Yn ogystal, bydd y dysgwyr yn darganfod sut mae dehongli a gwireddu testun a sut mae cyfathrebu'r testun hwn yn effeithiol i gynulleidfa.

Yn yr uned hon bydd yr actorion yn astudio egwyddorion allweddol actio gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau. Bydd y dysgwyr yn archwilio'r technegau hyn yn ddamcaniaethol ac yn ymarferol ac yn defnyddio'r sgiliau a'r technegau i ddatblygu cymeriadu ac ymarfer deunydd i'w berfformio. Yn ogystal, bydd yr uned yn galluogi'r dysgwyr i werthuso eu prosesau ymarfer a pherfformio ac i ystyried llwyddiant cymharol arddulliau actio gwahanol wrth gyfathrebu â chynulleidfa.

Bydd y dysgwyr yn defnyddio ymarferion a thechnegau mewn amrywiaeth o gyd-destunau galwedigaethol. Mae rôl yr actor yn un eang ac mae'n rhaid cael gallu i ddehongli testun a defnyddio technegau actio gyda chanolbwynt a chreadigrwydd wrth ddatblygu gwaith i'w berfformio. Bydd y dysgwyr yn cael eu hannog i ystyried sut mae'r sgiliau hyn yn ateb y diben y maen nhw'n cael eu defnyddio ar ei gyfer a sut mae actorion yn defnyddio gwahanol ddulliau cymeriadu — technegau lleisiol a symud, er enghraifft — wrth iddyn nhw ddatblygu gwaith ac ymarfer.

Dylai'r dysgwyr gymryd rhan mewn cyfres o weithdai ymarferol. Dylen nhw ymarfer a rhoi o leiaf ddau berfformiad gerbron cynulleidfa wedi'i gwahodd, i bara rhwng 10 a 20 munud yr un.

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai dysgwr:

- 1 Deall sut mae dehongli a gwireddu testun
- 2 Gallu defnyddio technegau actio ac ymarfer i ddatblygu perfformiad
- 3 Gallu perfformio fel actor.

# Cynnwys yr uned

## 1 Deall sut mae dehongli a gwireddu testun

*Ymchwilio a dadansoddi:* cefndir cymdeithasol a hanesyddol; crebwyll seicolegol; dehongliad; arall ee nodi, uno, cymharu, golygu

Arddulliau a dulliau; ee naturoliaeth a realaeth, mynegiadaeth, epig, theatr gorfforol, theatr Groeg, corws ac ensemble, melodrama, grotésg, ffars, actio mewn drama leisiol, theatr creulondeb, theatr yr absŵrd

*Paratoi a chreu'n fyrfyr:* arsylwi; cefndir ac ymchwil; dynwarded; archwilio; adnabod; synhwyriad; teimlad; gwirionedd emosiynol; canolbwyntio; ffocws

*Sgiliau a thechnegau:* symud; llais; ystum; cwmpas a buddsoddiad emosiynol; rhyngweithio ac ymateb; defnyddio gofod; defnyddio amser; defnyddio pwysau; deinameg; nodweddion mewnol ac allanol, corfforoli

## 2 Gallu defnyddio technegau actio ac ymarfer i ddatblygu perfformiad

*Dylanwadau ac ymarferwyr allweddol:* ee Stanislavski, Brecht, Berkoff, Artaud, Brook, Fo, Pinter, Grotowski, Craig

*Rheoli personol:* rheoli amser; paratoi corfforol; paratoi meddyliol; defnyddio log actor; gwisgoedd a phropiau; arferion gweithio iach a diogel; canolbwyntio a disgyblaeth; ymddiriedaeth a chydweithredu; cyfrifoldebau

*Gwrando ac ymateb:* derbyn cyfarwyddyd; hyblygrwydd a haelioni creadigol; defnyddio ymarferion a thechneg ymarfer; rhyngweithio grŵp, ymateb yn gadarnhaol i adborth

*Twf a datblygiad:* arbrawf a risg; ymgysylltu â'r rhan; penderfyniadau cymeriad; estyn a mireinio, dysgu ar y cof; ymateb digymell parhaus

## 3 Gallu perfformio fel actor

*Mynegiant lleisiol a chorfforol:* ystod a defnydd o offeryn y llais; tŏn; cyflymder; traw; rheolaeth; goslefu; taflu'r sain; cywair; hynodwedd; tafodiaith ac acen; osgo; ystum; tempo a rhythm; egni

*Buddsoddi emosiynol:* ymrwymiad ar y llwyfan; rhyngweithio ac ymateb; chwarae'r eiliad; unigrwydd cyhoeddus; priodoldeb ystod emosiynol a'r defnydd ohono; cydlyniad a chysondeb y rhan; taith y cymeriad

**Dylai'r dysgwyr gymryd rhan mewn cyfres o weithdai ymarferol. Dylen nhw ymarfer a rhoi o leiaf ddau berfformiad gerbron cynulleidfa wedi'i gwahodd, i bara rhwng 10 a 20 munud yr un.**

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> dehongli a gwireddu testunau gan werthfawrogi gofynion y perfformiad [MC]	<b>T1</b> dehongli a gwireddu testunau gan ddangos gwerthfawrogiad cadarn o ofynion y perfformiad	<b>Rh1</b> dehongli a gwireddu testunau gan ddangos gwerthfawrogiad trylwyr o ofynion y perfformiad
<b>LI2</b> datblygu deunydd i'w berfformio drwy ymchwil, ymarfer a chymeriadu [YA]	<b>T2</b> datblygu deunydd i'w berfformio drwy ddefnyddio ymchwil, ymarfer a chymeriadu yn gymwys	<b>Rh2</b> datblygu deunydd i'w berfformio drwy ddefnyddio ymchwil, ymarfer a chymeriadu yn hyderus ac yn greadigol
<b>LI3</b> perfformio gan ddefnyddio sgiliau lleisiol a symud sy'n briodol i'r rôl [GT]	<b>T3</b> perfformio gan ddangos rheolaeth dda ar sgiliau lleisiol a symud mewn dehongliad meddylgar o'r testun a'r cymeriad	<b>Rh3</b> perfformio gan ddangos sgiliau lleisiol a symud yn effeithiol a dychmygus er mwyn ymgorffori'r cymeriad yn gorfforol a dehongli'r testun gydag eglurder a deallusrwydd.
<b>LI4</b> cyfathrebu â chynulleidfa.	<b>T4</b> cyfathrebu â chynulleidfa gydag eglurder.	<b>Rh4</b> cyfathrebu â chynulleidfa gan ganolbwyntio ac ymgysylltu'n llwyr.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol



# Uned 20: Defnyddio Arddulliau Actio

<b>Cod yr uned:</b>	<b>T/502/5397</b>
<b>FfCCh Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi'r dysgwyr i ddatblygu amrywiaeth o ymagweddau at actio; byddan nhw'n gwneud hyn drwy astudio o leiaf ddwy arddull actio o gyfnodau hanesyddol gwahanol, a thrwy gynllunio a chynhyrchu dau berfformiad cyferbyniol o olygfeydd a godwyd o ddramâu wedi'u sgrïptio.

## Cyflwyniad i'r uned

Gellir gweld datblygiad drama'n broses barhaus y mae arddulliau actio wedi esblygu a newid drwyddi. Mae pob cyfnod trwy gydol hanes wedi cynhyrchu arddulliau actio hawdd eu hadnabod sy'n gweddu i waith dramodwyr cyfoes ac sydd, yn eu tro, yn cyfathrebu ystyr i gynulleidfa.

Trwy gydol y 20fed ganrif ac i mewn i'r 21ain ganrif, mae llawer iawn o ddadansoddi beirniadol a gwerthuso'r arddulliau actio amrywiol wedi digwydd. Yn ystod yr un cyfnod mae nifer o ymarferwyr pwysig wedi ymddangos, gan gynhyrchu amrywiaeth o syniadau, technegau a hyd yn oed athroniaethau actio. Mae'r ffynonellau hyn sydd weithiau'n gwrth-ddweud ei gilydd yn cynrychioli deunydd y gall dysgwyr dynnu arno, wrth ddatblygu gallu amryddawn ar draws amrywiaeth o arddulliau actio. Bydd pob drama, pob cynhyrchiad, yn awgrymu arddull neu arddulliau penodol y mae'n rhaid i'r actor eu mabwysiadu a'u rheoli'n hyderus. Efallai y bydd rhai dramâu a chynhyrchiadau yn gofyn am gymysgedd o arddulliau: gall cyfarwyddwr, er enghraifft, ddewis cymysgu egwyddorion perfformio Stanislavski a Brecht mewn un cynhyrchiad o ddrama gan Shakespeare. Rhaid i'r actor fod yn barod i ymuno â'r arbrawf i sicrhau bod y technegau arddull yn cael eu defnyddio'r un mor drylwyr.

Mae pob arddull actio yn gofyn i'r dysgwyr ddefnyddio sgiliau a gwybodaeth actio allweddol. Defnydd rhydd ac wedi'i ymarfer o'r llais, y lleferydd a symud; ymagwedd treiddgar tuag at weithio ar destun; technegau cymeriadu gwybodus; ac ymwybyddiaeth o natur newidiol cyfathrebu â chynulleidfa, mae'r rhain i gyd yn gofyn am ganolbwynt ac ystyried. Rhaid ystyried pob un o'r meysydd hyn yn eu tro, er mwyn sicrhau bod dewisiadau priodol yn cael eu gwneud — gan alluogi'r dysgwyr i gyfathrebu drwy bob arddull actio a ddewiswyd yn y modd mwyaf effeithiol.

**Dylai'r dysgwyr gymryd rhan mewn cyfres o weithdai ymarferol. Dylen nhw ymarfer a rhoi o leiaf ddau berfformiad gerbron cynulleidfa wedi'i gwahodd, i bara o leiaf 10 munud yr un.**

## **Canlyniadau dysgu**

**Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai dysgwr:**

- 1 Gallu datblygu cymeriadu fel actor
- 2 Gallu datblygu ac ymarfer deunydd gan ddefnyddio gwahanol arddulliau actio
- 3 Gallu perfformio fel actor gan ddefnyddio gwahanol arddulliau actio.



## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gallu datblygu cymeriadu fel actor

*Ymchwil a datblygu*: asesu swyddogaeth/perthnasedd cymeriadu; dadansoddi'r testun i adeiladu proffil cymeriad; gwneud ymchwil i gywain gwybodaeth am gymeriad/rhan; dadadeiladu sgript ee unedau/amcanion/rhwystrau; cyfathrebu â chyfarwyddwr a/neu gwmni i ddatblygu dehongliad y rhan; asesu natur perthynas yr actor â'r gynulleidfa

*Cynllunio ar gyfer* cymeriadu: arsylwi; ymchwil cefndir; bywyd mewnol; materion yn ymwneud â statws/grym; dynwared; archwilio; adnabod; teimlad; emosiwn; canolbwyntio; ffocws

### 2 Gallu datblygu ac ymarfer deunydd gan ddefnyddio gwahanol arddulliau actio

*Arddulliau actio*: ee naturoliaeth, realaeth, mynegiadaeth, swrrealiaeth, epig, Groeg, corws ac ensemble, melodrama, Commedia dell'Arte, yr Adferiad, cyn oes Elizabeth, oes Elizabeth/Jacobeidd, grotésg, ffars, theatr gorfforol neu weledol, gwleidyddol, theatr creulondeb, theatr yr absŵrd

*Ymarferwyr*: ee Alfreds, Artaud, Berkoff, Boal, Brecht, Brook, Michael Chekhov, Fo, Grotowski, LePage, Littlewood, Mamet, McBurney, Meckler, Mnouchkine, Ninagawa, Saint-Denis, Stanislavski, Strasberg

*Ymarfer*: arddulliau dethol; dehongli testun a datblygu rhan; neilltuo nodweddion allweddol yr arddull; nodi dynameg actor/cynulleidfa; defnyddio log actor; ymarfer gwisgoedd/propiau

*Sgiliau a thechnegau*: creu'n fyrfyfyr; arsylwi; mabwysiadu a defnyddio arddull actio priodol; arbrofi â nodweddion symud — tensiwn, uchder, didwylledd y corff a chyswllt llygaid; arbrofi â nodweddion y llais — cryfder, goslefu, tŵn; arbrofi â nodweddion llefaru — cyflymder, saib, acen, ynganu, a nodweddion 'arbennig'; defnyddio osgo a delweddu; cwmpas a buddsoddiad emosiynol; rhyngweithio ac ymateb; defnyddio gofod, amser, dynameg pwysau; nodweddion mewnol ac allanol

*Twf a datblygiad*: arbrawf a risg; ymgysylltu â'r rhan; penderfyniadau cymeriad; estyn a mireinio, dysgu ar y cof; ymateb digymell parhaus

### 3 Gallu perfformio fel actor gan ddefnyddio gwahanol arddulliau actio

*Arddulliau actio:* ee naturoliaeth, realaeth, mynegiadaeth, swrrealiaeth, epig, Groeg, corws ac ensemble, melodrama, Commedia dell'Arte, yr Adferiad, cyn oes Elizabeth, oes Elizabeth/Jacobeidd, grotésg, ffars, theatr gorfforol neu weledol, gwleidyddol, theatr creulondeb, theatr yr absŵrd

*Mynegiant corfforol:* osgo; ystum; defnyddio tensiwn, uchder, didwylledd, gofod a chyswllt llygaid; ystod a phriodoldeb egni

*Mynegiant lleisiol:* ystod a defnydd o offeryn y llais; cryfder sain; goslefu; tŷn; cyflymder y llfaru; acen a thafodiaith; ynganu; nodweddion arbennig lleisiol

*Buddsoddi:* ymrwymiad ar y llwyfan; rhyngweithio ac ymateb; 'chwarae'r eiliad'; unigrwydd cyhoeddus; annerch y gynulleidfa'n uniongyrchol; defnyddio cwmpas emosiynol; cydlyniad a chysondeb y rhan; taith y cymeriad; perthynas â'r gynulleidfa; synthesis o waith cymeriad a thechneg

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> datblygu cymeriadu fel actor gydag arweiniad [MC]	<b>T1</b> datblygu cymeriadu fel actor gyda medr a rhywfaint o ddychymyg	<b>Rh1</b> datblygu cymeriadu fel actor gyda medr, crebwyll a dychymyg
<b>LI2</b> datblygu ac ymarfer deunydd gan ddefnyddio arddulliau actio cyferbyniol gydag arweiniad [HR]	<b>T2</b> datblygu ac ymarfer deunydd gan ddefnyddio dwy arddull actio gyferbyniol gan ymateb yn briodol i gyfarwyddyd a chan ddangos rhywfaint o annibyniaeth greadigol	<b>Rh2</b> datblygu ac ymarfer deunydd gan ddefnyddio dwy arddull actio gyferbyn gan ymateb yn ddychmygus i'r testun a dangos annibyniaeth greadigol lwyr
<b>LI3</b> perfformio fel actor gan ddefnyddio arddulliau actio cyferbyniol. [TW, EP]	<b>T3</b> perfformio fel actor gan ddefnyddio arddulliau actio cyferbyniol gyda medr a rhywfaint o ddychymyg.	<b>Rh3</b> perfformio fel actor gan ddefnyddio arddulliau actio cyferbyniol gyda chanolbwynt, ymgysylltu a dychymyg.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol



# Uned 21: Creu Drama'n Fyrfyfyr

<b>Cod yr uned:</b>	<b>D/502/5099</b>
<b>FfCCh Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Mae'r uned hon yn gwahodd y dysgwyr i weithio ar sefyllfaoedd dramatig heb gefnogaeth gychwynnol testun ysgrifenedig. Mae'n eu galluogi i archwilio'n rhydd syniadau y gellir eu datblygu'n ffurf ddramatig hyd at lefel perfformio.

## Cyflwyniad i'r uned

Bydd gallu creu'n fyrfyfyr yn hynod o ddefnyddiol i unrhyw un sydd eisiau bod yn berfformiwr; fodd bynnag, mae'n sgîl allweddol i unrhyw actor. Nid yw pob actor yn hoffi creu golygfeydd a syniadau'n fyrfyfyr yn eu gwaith, ond mae'r rhai sy'n gallu gwneud hynny, yn gyflym, yn ffraeth ac yn wreiddiol, yn ei ystyried yn erfyn hynod bwysig yn eu harfogaeth. Mewn gair, mae'n gwneud y rhai sy'n dda am wneud hyn yn llawer mwy cyflogadwy na'r rhai nad ydyn nhw cystal.

Mae creu'n fyrfyfyr yn hwyl yn ogystal â bod yn un o'r ffyrdd gorau i ddod o hyd i'ch llwybr drwy olygfa neu i ben cymeriad. Dyma'r man cychwyn i theatr wedi'i dyfeisio gan ei bod yn galluogi dramodwyr a chyfarwyddwyr i ddefnyddio sgiliau eu hactorion i greu a datblygu themâu a syniadau ar gyfer dramâu; gall roi ymdeimlad pendant o wirionedd i ddrama. Yn ogystal caiff ei ddefnyddio'n helaeth ar gyfer chwarae rôl mewn cyd-destunau hyfforddi addysgol a phroffesiynol, er enghraifft, lle mae angen mynd i'r afael â materion sensitif drwy fynd atyn nhw drwy senario dychmygol, pan fydd angen i'r dysgwyr ddeall sut byddai hi 'petai'... Mae creu'n fyrfyfyr yn hanfodol i storiwyr o bob math, y rhai sy'n ennill eu bara menyn drwy wneud hyn a'r rhai sydd eisiau difyrru eu ffrindiau drwy ychwanegu ychydig o liw at stori.

Bydd yr uned hon yn galluogi'r dysgwyr i archwilio'n llawn sut gall creu'n fyrfyfyr weithio i actor, beth yw'r technegau, sut mae datblygu o fan cychwyn a sut mae peidio â stopio'n stond oherwydd embaras neu ddiffyg syniadau. Mae ystod o ddulliau y gall actor eu defnyddio i oresgyn hyn a pho fwyaf y gall actorion eu defnyddio'n haws ac at ddiben da, gorau fydd y ddrama.

**Bydd y dysgwyr yn cael eu hasesu mewn o leiaf ddwy greadigaeth fyrfyfyr gyferbyniol, pob un yn para lleiafswm o dair munud, o leiaf un yn rhan o grŵp.**

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai dysgwr:

- 1 Gallu defnyddio sgiliau creu'n fyrfyfyr
- 2 Gallu defnyddio a datblygu creu'n fyrfyfyr
- 3 Gallu perfformio mewn drama wedi'i chreu'n fyrfyfyr.

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gallu defnyddio sgiliau creu'n fyrfyfyr

*Egwyddorion:* derbyn syniadau a gwneud cynigion; bod yn ddigymell; defnyddio tawelwch; adnabyddiaeth; cynnig eu hunain; cynnig arweiniad; mentro; llwyddiant a methiant; dod o hyd i'ch hunaniaeth

*Adrodd stori:* ee sgiliau naratif, adrodd stori, defnyddio testun, testun allan o gyd-destun, defnyddio syniadau blaenorol, rhestri, cysylltu delweddau, datblygu cymeriadau, gair ar y tro, ysgrifennu dramâu

*Statws:* newid statws; cyswllt llygaid; iaith y corff; ymwybyddiaeth ofodol; rheolaeth

### 2 Gallu defnyddio a datblygu creu'n fyrfyfyr

*Ymarferion:* ee ymarferion torri'r garw, ymarferion ymddiried, gêmâu arsylwi a chanolbwyntio, Chwaraeon Theatr, ymarferion cyflyrau tensiwn, gofod, pwysau ac amser

*Ymarfer:* archwilio testun; cefndir; amodau; archwilio cymeriad; cymhelliant; perthnasoedd; natur gorfforol; digwydd ar y llwyfan; golygfeydd oddi ar destun; sefyllfaoedd; archwilio themâu a materion

### 3 Gallu perfformio mewn drama wedi'i chreu'n fyrfyfyr

*Mannau cychwyn:* ee delwedd, geiriau, cymeriad, sain a cherddoriaeth, sefyllfa, senario, drama neu destun arall, propiau, gwisgoedd, masgiau

*Sgiliau perfformio:* llais; symud; ymwybyddiaeth ofodol; unawd ac ensemble; mentro; dymmeg a chefnogaeth grŵp; nodau cyffredin

*Cynulleidfa:* gwerthfawrogi'r gynulleidfa; priodoldeb drama wedi'i chreu'n fyrfyfyr; cyfathrebu ac ymateb yn ddigymell o dan amodau perfformio

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> dangos technegau creu'n fyrfyfyr i greu drama [MC]	<b>T1</b> dangos technegau creu'n fyrfyfyr i greu drama ddychmygus	<b>Rh1</b> dangos technegau creu'n fyrfyfyr i greu drama sy'n ysbrydoli a herio
<b>LI2</b> defnyddio creu'n fyrfyfyr i greu drama gan ymateb i ysgogiadau [MC]	<b>T2</b> defnyddio creu'n fyrfyfyr i archwilio amrywiaeth o ysgogiadau i alluogi cymeriadu neu ddatblygu rhan	<b>Rh2</b> defnyddio creu'n fyrfyfyr yn ddychmygus i archwilio cymeriad, rhan, testun neu syniadau, gan ddangos greddf a dewrder
<b>LI3</b> perfformio'n ddigymell neu'n gaboledig wrth greu'n fyrfyfyr, gan ddefnyddio sgiliau priodol llais, symud a defnyddio gofod. [CE]	<b>T3</b> perfformio'n ddigymell neu'n gaboledig wrth greu'n fyrfyfyr, gan ddefnyddio sgiliau perfformio priodol i ymgysylltu â'r gynulleidfa.	<b>Rh3</b> perfformio gan ddefnyddio creu'n fyrfyfyr yn ddyfeisgar ac yn hyderus i greu drama sy'n ymgysylltu'n llawn â'r gynulleidfa.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol



# Uned 22: Actio mewn Perfformiad Sain

<b>Cod yr uned:</b>	<b>A/502/5398</b>
<b>FfCCh Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Mae canolbwynt yr uned ar ddatblygu sgiliau actio a lleisiol i'r gofynion arbenigol sydd eu hangen ar gyfer perfformiad sain fel unigolyn neu ensemble.

## Cyflwyniad i'r uned

Yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae'r cyfleoedd cyflogaeth i berfformwyr ym maes radio a recordio sain wedi tyfu. Mae'r nifer cynyddol o orsafoedd radio, y defnydd o 'drosleisio' mewn hysbysebion, y galw cyson am ddramâu radio, y twf yn y galw am ddramateiddio cerddi a nofelau ar ffurf sain, a dyfodiad gêmâu fideo sy'n seiliedig ar gymeriadau wedi galluogi perfformwyr i ehangu eu hystod gwaith. I lawer o berfformwyr, mae gofynion dwys recordio sain mewn stiwdio yn gyffrous, ac mae natur cytundebau byr y gwaith yn golygu y gallan nhw fod ar gael ar gyfer cyfleoedd eraill ym maes y theatr, teledu neu ffilm. Gall y gwaith dalu'n dda hefyd: mae actorion ffilm blaenllaw bellach yn aml yn 'lleisio' cymeriadau cartŵn pwysig, ac mae 'sêr' y teledu'n aml yn trosleisio hysbysebion teledu.

Yn yr uned hon bydd y dysgwyr yn canolbwyntio ar ddatblygu techneg lleisiol effeithiol ac amlochrog. Byddan nhw'n datblygu eu gallu i recordio fel perfformwyr unawd ac ensemble, gan ganolbwyntio ar ymateb i ofynion gwahanol genres yn y diwydiant recordio sain. Drwy wrando ar artistiaid llais proffesiynol a dadansoddi eu gwaith, drwy lunio ac adolygu eu gwaith radio a'u gwaith recordio sain arall eu hun, bydd y dysgwyr yn darganfod sut mae gwella ac ehangu eu sgiliau eu hunain.

**Bydd y dysgwyr yn cael eu hasesu ar un recordiad unawd sy'n para lleiafswm o dri munud, ac un recordiad grŵp sy'n para lleiafswm o chwe munud.**

## Canlyniadau dysgu

**Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai dysgwr:**

- 1 Gwybod am dechnegau perfformio a ddefnyddir ym maes drama radio a meysydd sain eraill
- 2 Gallu defnyddio sgiliau lleisiol mewn perfformiad sain unawd
- 3 Gallu defnyddio sgiliau lleisiol mewn perfformiad sain ensemble.

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gwybod am dechnegau perfformio a ddefnyddir ym maes drama radio a meysydd sain eraill

*Technegau perfformio:* arddulliau cyflwyno ee recordio fel eu hunain neu fel cymeriad sy'n cael ei actio; technegau cynllunio actor ee proffilio cymeriad, cynllunio unedau, amcanion a rhwystrau; cynnwys a strwythur; cynulleidfa darged; technegau lleisiol gan ddefnyddio microffonau; technegau anodi sgriptiau ee cynllunio seibiau a phwyslais lleisiol; ymateb yn ddigymell a darllen sgriptiau; gweithio gydag effeithiau sain; darlledu mewn stiwdio a darllediad allanol; confensiynau recordio

### 2 Gallu defnyddio sgiliau lleisiol mewn perfformiad sain unawd

*Llais:* cryfder sain; goslefu lleisiol; newid tŷn ee caled, meddal

*Lleferydd:* cyflymder; acen/tafodiaith; ynganu; goslefu'r llefaru; defnyddio 'lleisiau arbennig' (nodweddion lleisiol arbennig); cymeriadau; arddulliau; deinameg; ymateb i effeithiau sain a sŵn cefndir a'u hymgorffori; defnyddio microffonau i awgrymu pellter/agosatrydd

*Cyd-destun:* ee adrodd stori, cyfweld â gwesteion, cyflwyno radio (gan gynnwys radio cerddoriaeth a radio siarad), gwaith ensemble dramatig, darllen newyddion, gwaith hysbysebion, rhaglenni dogfen, darllen darn heb ei weld o'r blaen, comedi, defnyddio sgript/creu'n fyrfyfyr, 'trosleisio' mewn hysbysebion, dramateiddio cerddi a nofelau ar ffurf sain, gwaith wedi'i seilio ar gymeriad mewn animeiddiad a gêmâu fideo

*Technegau:*

*Genre unawd:* ee rhaglen ddogfen; monologau dramatig, cyflwyno radio, hysbysebion, newyddion, cyhoeddiadau cyswllt, rhaghysbysiadau, adrodd stori, ffugddogfennol

### 3 Gallu defnyddio sgiliau lleisiol mewn perfformiad sain ensemble

*Ensemble:* technegau meicroffon grŵp; gwahaniaethu lleisiau unigol; amseru mewn gwaith ensemble; gwrando/ymateb; defnyddio gofod

*Genres ensemble:* ee drama radio, cyfweliadau, hysbysebion gydag ymddiddan rhwng cymeriadau, rhaglen ddogfen gyda lleisiau cymeriadau (ee pobl hanesyddol), gwaith byrfyfyr (ee comedi), dadl/trafodaeth, ffugddogfennol

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> nodi sut mae technegau perfformio'n cyfrannu i recordiadau dramâu radio a recordiadau sain eraill [DM]	<b>T1</b> disgrifio sut mae technegau perfformio'n cyfrannu i ystod o recordiadau dramâu radio a recordiadau sain eraill	<b>Rh1</b> dadansoddi'n feirniadol sut mae technegau perfformio'n cyfrannu i ystod o recordiadau dramâu radio a recordiadau sain eraill
<b>LI2</b> cyflwyno gwaith perfformio sain unawd gan ddefnyddio sgiliau lleisiol priodol [HR]	<b>T2</b> cyflwyno gwaith perfformio sain unawd gan ddefnyddio amrywiaeth o sgiliau lleisiol priodol, gan ddangos peth gallu amryddawn.	<b>Rh2</b> cyflwyno gwaith perfformio sain unawd gan ddefnyddio amrywiaeth eang o sgiliau lleisiol priodol, gan ddangos gallu amryddawn
<b>LI3</b> cyflwyno gwaith perfformio sain ensemble gan ddefnyddio sgiliau lleisiol priodol. [GT].	<b>T3</b> cyflwyno gwaith perfformio sain ensemble gan ddefnyddio amrywiaeth o sgiliau lleisiol priodol, gan ddangos peth gallu amryddawn.	<b>Rh3</b> cyflwyno gwaith perfformio sain ensemble gan ddefnyddio amrywiaeth eang o sgiliau lleisiol priodol, gan ddangos gallu amryddawn.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol MC — meddylwyr creadigol	DM — dysgwyr myfyriol GT — gweithwyr tîm	HR — hunanreolwyr CE — cyfranogwyr effeithiol
---------	--	---	--



# Uned 23: Actio Ffilm a Theledu

<b>Cod yr uned:</b>	<b>D/502/5362</b>
<b>FfCCh Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Mae actio i'r camera'n sgîl hanfodol i'r dysgwyr sy'n dymuno gweithio yn y diwydiannau ffilm a theledu. Mae'r uned hon yn rhoi cyfleoedd i ddatblygu ac ymarfer y sgiliau neilltuol sydd eu hangen i actio i'r camera.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae twf cynrychiadau sgrin annibynnol a chynigion darlledu digidol yn cynnig llawer o gyfleoedd cyflogaeth i actorion sydd wedi hyfforddi a datblygu sgiliau angenrheidiol actio i'r camera. Mae profiad o weithio'n aelod o dîm creadigol mewn amgylchedd stiwdio'n amhrisiadwy i berfformwyr o'r fath. Mae'r uned arbenigol hon yn cynnig ffyrdd i'r dysgwyr ddatblygu eu sgiliau lleisiol a'r mynegiant corfforol cynnil y mae'r cyfwng penodol hwn yn gofyn amdany'n nhw, gan ddefnyddio technegau sy'n wahanol iawn i'r rhai sydd eu hangen er mwyn actio ar lwyfan.

Trwy gydol yr uned hon bydd y dysgwyr yn defnyddio ac yn mireinio eu sgiliau actio i'r camera. Bydd cyfleoedd iddyn nhw archwilio perfformiadau actorion mewn ffilmiau a rhaglenni wedi'u cynhyrchu'n broffesiynol, gan ddarganfod sut maen nhw'n defnyddio codau a chonfensiynau mynegiant, arwyddion cymeriadu a pherfformio wrth ddefnyddio eu sgiliau actio. Bydd y dysgwyr yn dechrau deall a defnyddio'r iaith dechnegol a'r iaith berfformio hon. Drwy weld amrywiaeth eang o arddulliau perfformio yn cael eu defnyddio gan actorion mewn pob math o raglenni a ffilmiau teledu, bydd y dysgwyr yn gallu gwerthuso a chyfoethogi eu datblygiad sgiliau eu hunain. Gallai'r sgiliau hyn gael eu defnyddio i wneud ffilmiau neu raglenni cyfan, ffilmiau DVD byr, clipiau hyrwyddo neu riliau dangos — 'showreels'.

Bydd cyfleoedd i ddatblygu perfformiadau mewn amrywiaeth o genres ac at wahanol ddibenion. Er enghraifft, gallai'r gwaith arwain at greu ffilmiau naratif byr, opêrau sebon neu hysbysebion teledu. Bydd y canolbwynt ar ddatblygu'r sgiliau a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar actorion i greu cymeriadau crwn yn gyflym iawn, yn aml mewn perfformiadau sy'n para ychydig eiliadau'n unig, megis mewn hysbysebion, yn ogystal â'r rhai sy'n galluogi actor i gynnal cymeriad ar draws taith naratif, fel mewn opera sebon. Bydd gweithdai llais lle gall y dysgwyr ddatblygu eu gallu i gyfoethogi cymeriad drwy'r llais, er enghraifft, drwy ddatblygu acen

ranbarthol neu genedlaethol; bydd gweithdai symud i helpu'r actor i symud mewn rhan, dal i fod yn naturiol a chyfathrebu â'r cymeriad llawn. Bydd y dysgwyr yn gweld bod angen creu ac ail-greu perfformiad, weithiau dro ar ôl tro, a'i gael yn iawn bob tro. Byddan nhw'n dysgu i ymateb yn gadarnhaol i gyfarwyddyd, gan fod yn barod i dderbyn beirniadaeth a datblygu eu gwaith yn gysylltiedig â hynny.

Bydd y dysgwyr yn gweithio mewn amgylchedd stiwdio ac ar leoliad, gan gywain gwybodaeth am y prosesau ffilmio a golygu, dadansoddi sgriptiau ffilm, sgriptiau, arddulliau a genres. Byddan nhw'n defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth drwy wneud gwaith i'w ddal ar ffilm neu DVD. Wedyn bydd hyn yn arwain at bersectif personol ehangach a gwybodaeth waith am y diwydiant ffilm a theledu.

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai dysgwr:

- 1 Gallu datblygu technegau actio i'r camera
- 2 Gallu ymarfer deunydd i'w berfformio i'r camera
- 3 Gallu cymryd rhan mewn perfformiad i gamera.

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gallu datblygu technegau actio i'r camera

*Technegau:* saethiad agos, canolig a phell; actio ar y camera ac oddi arno; gwrthrychu digwyddiad nad yw'n bodoli; 'gwneud llai' nag ar y llwyfan; blocio, taro marciau; defnyddio gwrthrychau llawn mynegiant; canolbwyntio; gwranddo ac ymateb; chwarae ymateb

*Sgiliau:* defnyddio syniadau ymarferwyr fel Stanislavski a Strasberg ee y dull, gweithred gorfforol, datblygu cymeriadu, defnyddio'r llais, symudiad ac ystum; sut mae dehongli a dadansoddi sgriptiau/sgriptiau ffilm; iaith dechnegol ac iaith berfformio; arwyddion perfformio

*Deunyddiau:* ee perfformiadau ffilm a theledu, dadansoddi arddulliau a genres, sgriptiau ffilm a sgriptiau, archwilio codau a chonfensiynau llawn mynegiant

### 2 Gallu ymarfer deunydd i'w berfformio i'r camera

*Dulliau ymarfer:* derbyn cyfarwyddiadau; hyblygrwydd a haelioni creadigol; rhyngweithio grŵp; dysgu deialog ar y cof; bod ar eich marc

*Twf a datblygiad:* defnyddio sgiliau actio; arbrofi a mentro; ymgysylltu â rhan a datblygu, estyn a mireinio cymeriad; ymateb digymell parhaus; defnyddio gwerthuso a dadansoddi eu gwaith eu hun a gwaith actorion/perfformwyr eraill

### 3 Gallu cymryd rhan mewn perfformiad i gamera

*Sgiliau:* perfformio mewn cymeriad; rhyngweithio â pherfformwyr eraill; ffocws; symud; ystum; deinameg; cyflymder; egni; rhythm; sgiliau lleisiol; cynefin

*Technegau:* ymwybyddiaeth o onglau/saethiadau camera a'u gwerthfawrogi; chwarae cyson mewn saethiadau gwahanol; ailrecordio; taro marciau; canolbwyntio; rheoli'r llais a symudiadau corfforol/defnyddio propiau; gweithio mewn trefn ac allan o drefn

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> defnyddio sgiliau actio i'r camera sy'n briodol i'r rhan [YA; MC; HR]	<b>T1</b> defnyddio sgiliau actio i'r camera i fodloni anghenion y rhan	<b>Rh1</b> defnyddio sgiliau actio i'r camera'n ddychmygus ac yn greadigol i fanteisio i'r eithaf ar botensial y rhan
<b>LI2</b> ymarfer a datblygu gwaith i'r camera [YA; MC; DM; GT; HR; CE]	<b>T2</b> galw i gof, ymarfer a datblygu gwaith i'r camera drwy gydweithredu ac ymrwymiad	<b>Rh2</b> galw i gof, ymarfer a datblygu gwaith i'r camera gyda chywirdeb, dychymyg a chreadigrwydd
<b>LI3</b> perfformio rhan drwy gyfrwng ffilm neu deledu. [GT; HR; CE]	<b>T3</b> perfformio rhan ar gyfer ffilm neu deledu gan werthfawrogi anghenion y cyfrwng.	<b>Rh3</b> perfformio rhan ar gyfer ffilm neu deledu sy'n manteisio'n llawn ar y cyfrwng.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol MC — meddylwyr creadigol	DM — dysgwyr myfyriol GT — gweithwyr tîm	HR — hunanreolwyr CE — cyfranogwyr effeithiol
---------	--	---	--



# Uned 24:

# Perfformio Meim

**Cod yr uned:**

**F/502/5399**

**FfCCh Lefel 3:**

**Tystysgrif Genedlaethol BTEC**

**Gwerth credydau:**

**10**

**Oriau dysgu dan arweiniad:**

**60**

## Nod a phwrpas

Nod yr uned yw datblygu dealltwriaeth y dysgwyr o wreiddiau hanesyddol perfformio meim, a datblygu sgiliau a thechnegau ymarferol sy'n angenrheidiol i berfformio meim yn llwyddiannus.

## Cyflwyniad i'r uned

Yn aml mae meim wedi cael ei gamddehongli, neu ei wthio i'r naill ochr, fel 'clown' ag wyneb gwyn sy'n creu delweddau a sgetshis byr er doniolwch. Byddai ei ddiffinio felly fel dweud mai dweud jôc yw pob llenyddiaeth!

Yn ogystal ag astudio meim er mwyn ei werth cynhenid ei hun, mae sgil ym maes meim yn cyfrannu i ystod technegau actor ac yn gwella sgiliau actio cyffredinol yn fawr. Bydd y technegau meim a addysgir drwy'r uned hon yn rhoi gwell gwybodaeth am eu cyrff eu hunain i'r dysgwyr; byddan nhw'n helpu i ddatblygu'r ymwybyddiaeth gorfforol sydd ei hangen ar berfformwyr er mwyn cael y cyfleoedd gorau i ddod o hyd i waith, nid yn unig yn y sector hon neu yn y genre perfformio ehangach.

Bydd y dysgwyr yn archwilio gwaith ymarferwyr meim allweddol a'r rhai sydd wedi dylanwadu ar feim, ac felly'n eu helpu i ddatblygu sgiliau a thechnegau perfformio a deall hanfod perfformiad corfforol. Bydd y dysgwyr yn ymchwilio i amrywiaeth o dechnegau meim drwy weithdai, a bydd rhai'n arwain at arddangos sgiliau a pherfformiadau. Mae'r uned hon yn rhoi cyfle i'r dysgwyr adeiladu eu gwybodaeth, eu sgiliau corfforol, dadansoddol a pherfformio a datblygu eu creadigrwydd. Mae hi'n annog y dysgwyr i ddatblygu'r gallu i fod yn annibynnol ac i weithio mewn ensemble.

Wrth i'r dysgwyr ddatblygu eu sgiliau corfforol eu hunain, felly maen nhw'n cael dealltwriaeth ddadansoddol o'u cyrff eu hunain, o eraill ac o'r 'darlun mawr'. Byddan nhw'n dod yn fwy rhagweithiol wrth ddeall symudiadau, theatr a bywyd.

Drwy astudio meim bydd y dysgwyr yn gwella eu cyfleoedd i berfformio mewn cynifer o wahanol leoedd ac mewn cynifer o wahanol ffyrdd ag sydd o syniadau. Ar ddiwedd yr uned hon bydd y dysgwyr yn deall gwreiddiau drama gorfforol, datblygiad meim a theatr gorfforol a nifer o ymarferwyr allweddol a wthiodd y ffurf hon ar gelfyddyd yn ei blaen. Byddan nhw'n gallu defnyddio'r sgiliau corfforol a ddatblygwyd i ddyfeisio a pherfformio sioe. Bydd y dysgwyr yn datblygu gallu i edrych, dadansoddi ac ail-greu eu symudiadau, symudiadau eraill ac ystyr delweddau a darluniau corfforol.

**Bydd y dysgwyr yn dyfeisio dau ddarn o feim: un darn unawd, un darn grŵp i'w perfformio.**

## Canlyniadau dysgu

**Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai dysgwr:**

- 1 Deall hanes ac ymarferwyr allweddol meim
- 2 Gallu datblygu sgiliau a thechnegau meim
- 3 Gallu creu ac ymarfer perfformiadau meim
- 4 Gallu perfformio mewn actau meim.

# Cynnwys yr uned

## 1 Deall hanes ac ymarferwyr allweddol meim

*Hanes:* ee theatr Groeg a Rhufain, Meimiau a Jongleurs yr oesoedd canol, y Dramâu Miragl, dramâu'r canol oesoedd, Commedia Dell'Arte, Deburau a Pierrot y bedwaredd ganrif ar bymtheg, Grimaldi a phantomeim Seisnig, ffilmiau mud ee Keaton, Chaplin, Copeau a Dullin, Edward Gordon Craig a'r Über-marionette, Antonin Artaud a Theatr Creulondeb, Meyerhold a biomecaneg

*Ymarferwyr:* ee Etienne Decroux a Corporeal Mime, Jean-Louis Barrault, Marcel Marceau and Bip, Jacques Lecoq, Nola Rae, Adam Darius, Steven Berkoff, Theatre de Complicite, Marcello Magni, Rowan Atkinson, Derevo, Theatre de L'Ange Fou

## 2 Gallu datblygu sgiliau a thechnegau meim

*Sgiliau:* ymwybyddiaeth ofodol; delweddau rhithiol ee symudiadau bach, codi gwrthrychau mawr neu fach, delweddau mawr; amseru ee adeiladu rhythm, atalnodi; achos ac effaith; gwrthrychau, anifeiliaid; emosiynau ee gweithio o'r tu allan i mewn, gweithio o'r tu mewn allan; dehongli lliwiau

*Technegau:* mathau o symudiadau ee diriaethol, arddulliedig, gorwneud, bach iawn, haniaethol; cerdded ee yn y fan a'r lle, blaen, proffil; symud yn araf; yn erbyn y gwynt; rhedeg; diffyg pwysau/ysgafnder; cysylltu; pwysau; codi; tensiwn a rhyddhau; taflu a dal; gwthio a thynnu; symudiadau ee cylchdroi, gogwyddo, trawsfudo, pen, gwddf, brest, canol, pelfis, coesau; dyluniadau ee niwtral, sengl, deublyg, triphlyg; pwynt sefydlog; arwahanrwydd; gwrthbwysyn; Agwedd wedi'i Rhewi; tableaux; cydbwysu

*Ffurfiâu:* meim gorfforol; adrodd stori; masgiau; archdeipiau a gwawdluniau; Commedia Dell'Arte

## 3 Gallu creu ac ymarfer perfformiadau meim

*Creu:* creu'n fyrfyfyr; ysbrydoliaeth; dod o hyd i wahanol ysgogiadau defnyddio gwahanol dechnegau; arbrofi; egni a ffocws; datblygiad y cymeriadau; gwahanol arddulliau ee comedi, trasiedi, mynegiadaeth, haniaethol; penderfynu ar y fersiwn terfynol

*Ystod:* haniaethol neu lythrennol; egni'r naratif; ffuglen, ffeithiol; perfformiad stryd; penodol i leoliad; defnyddio elfennau gweledol eraill ee propiau, gwisgoedd, goleuadau; llais a sain ee wedi'i recordio neu fyw

*Ymarfer:* amserlen ymarfer; terfynau amser; dadansoddi a ffocws golygfeydd; paratoi corfforol a meddyliol, cynhesu; ymateb i gyfarwyddyd ee grŵp neu hunangyfarwyddyd; disgyblaeth ymarfer; rheoli amser; iechyd a diogelwch; defnyddio gofod h.y. ymwybyddiaeth ofodol, creu a thrin gofod perfformio; cyfathrebu naws ac emosiwn; egni a ffocws; defnyddio propiau, gwisgoedd, sain, goleuadau; gweithio gyda'i gilydd fel ensemble

*Adolygu:* adolygu eu cryfderau a'u gwendidau eu hunain fel perfformwyr meim/corfforol; gosod targedau er mwyn datblygu; cymhwyso adborth a chanfyddiadau i'r gwaith sydd ar y gweill; gallu i ymateb i gyfarwyddiadau; gallu i roi cyfarwyddiadau; rheolaeth ar y corff a'r wyneb

#### **4 Gallu perfformio mewn actau meim**

*Perfformiad:* cyfathrebu drwy symud, osgo, sain, llais; amseru; ymwybyddiaeth ofodol; cyfathrebu â chynulleidfa a/neu berfformwyr eraill; ffocws a chanolbwyntio

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> esbonio gwreiddiau a datblygiad meim, gan adnabod y dylanwadau allweddol o ran dulliau a thechnegau [IE, CT, RL, SM]	<b>T1</b> esbonio gwreiddiau a datblygiad meim, gan ddod i farn eglur am ddylanwadau allweddol, dulliau a thechnegau gweithio	<b>Rh1</b> dadansoddi gwreiddiau a datblygiad meim, gan ddod i farn amlwg ynglŷn â dylanwadau allweddol, dulliau a thechnegau gweithio
<b>LI2</b> datblygu sgiliau meim unigol, gyda chefnogaeth ac arweiniad [YA, MC]	<b>T2</b> datblygu a mireinio sgiliau meim unigol, gydag ychydig iawn o gefnogaeth ac arweiniad	<b>Rh2</b> sgiliau meim unigol perffaith, gydag ychydig iawn o gefnogaeth ac arweiniad
<b>LI3</b> dyfeisio ac ymarfer un darn grŵp ac un darn unawd gyda chefnogaeth ac arweiniad, gan ddefnyddio rhai sgiliau priodol i gyfathrebu ystyr i gynulleidfa [YA, MC, GT, HR, CE]	<b>T3</b> dyfeisio ac ymarfer un darn grŵp ac un darn unawd gydag ychydig iawn o gefnogaeth ac arweiniad, gan ddefnyddio sgiliau a thechnegau meim priodol wrth ddatblygu'r perfformiadau	<b>Rh3</b> dyfeisio ac ymarfer un darn grŵp ac un darn unawd yn annibynnol, gan ddefnyddio uwch sgiliau a thechnegau meim wrth ddatblygu'r perfformiadau
<b>LI4</b> perfformio un darn grŵp ac un darn unawd, gan gyfathrebu â'r gynulleidfa. [DM, HR]	<b>T4</b> perfformio un darn grŵp ac un darn unawd, gan ddangos techneg a chanolbwyntio a chan gyfathrebu'n effeithiol â'r gynulleidfa.	<b>Rh4</b> perfformio un darn grŵp ac un darn unawd, gan ddangos ffocws a sgil ar lefel uchel a chan gyfathrebu'n llwyddiannus â'r gynulleidfa.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

# Uned 25: Cyfarwyddo i'r Theatr

<b>Cod yr uned:</b>	<b>J/502/5100</b>
<b>FfCCh Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi'r dysgwyr i baratoi at ymarferion a'u harwain fel cyfarwyddwr theatr a rhoi'r cyfle iddyn nhw ddefnyddio eu sgiliau, eu prosesau a'u technegau cyfarwyddo.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae gweithio fel cyfarwyddwr yn un o'r rolau mwyaf cyffrous a chyfrifol yn y theatr. Nid oes llwybr 'safonol' i'r swydd o hyd. Er bod nifer cynyddol o gyrsgiau gradd sy'n ymwneud yn benodol â sgîl cyfarwyddo, neu sy'n ei gynnwys, mae llawer o gyfarwyddwyr yn dechrau eu gyrfaedd fel actorion ac yn datblygu eu diddordeb yn nes ymlaen. Mae pob actor yn elwa ar gael golwg ar y prosesau sydd eu hangen ar gyfer cyfarwyddo llwyddiannus ac ar safbwynt cyfarwyddwr sy'n gweithio gyda thîm cynhyrchu.

Bydd yr uned hon yn cwmpasu'r hyn mae'n rhaid i gyfarwyddwr ei wneud mewn gwirionedd er mwyn sicrhau bod sioe yn cyrraedd llwyfan yn llwyddiannus ar yr amser y cytunwyd arno. Mae hi'n trafod y prosesau sy'n ymwneud â hyn, o ddethol a gwerthuso testun perfformio, drwy'r camau cynllunio a pharatoi (cydlynu ag aelodau allweddol y tîm cynhyrchu) i weithio gyda'r actorion — o'r cyfnod castio, drwy'r ymarferion cynnar, i gam yr ymarferion technegol a gwisgoedd terfynol, gan arwain at y noson gyntaf a'r rhediad. Yn ogystal, bydd y gwaith yn archwilio cyfyngiadau ymarferol, neu gyfleoedd, lleoliad, graddfa amser, maint y cast a'r cyllido.

Bydd yr addysgu a'r dysgu wedi'u seilio'n bennaf ar ymarferion ymarferol, wedi'u gosod mewn cyd-destun realistig, gan weithio ar destunau gydag actorion ac aelodau tîm cynhyrchu. Drwy'r gweithgareddau hyn sy'n rhai ymarferol yn bennaf, dylai'r dysgwyr ddod yn ymwybodol o'r cyfrifoldebau sydd ar gyfarwyddwr, yn ogystal â dilyniant y gweithgareddau sydd eu hangen i'w cyflawni.

Bydd yr asesu'n seiliedig ar y gallu i drin pob un o'r prosesau sy'n rhan o hyn. Er y gellir cynhyrchu llawer o'r dystiolaeth mewn cyd-destunau ymarferol, bydd y dysgwyr yn cael eu hasesu hefyd ar gynhyrchu'r gwaith papur angenrheidiol sy'n gysylltiedig â chyfarwyddo.

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai dysgwr:

- 1 Gallu paratoi sgript ar gyfer cynhyrchiad
- 2 Gallu cynllunio'r prosesau angenrheidiol ar gyfer cynhyrchiad
- 3 Gallu arwain proses ymarfer.



## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gallu paratoi sgript ar gyfer cynhyrchiad

*Paratoi sgript:* dethol sgript briodol; asesu'r gofynion cynhyrchu ee dynol, ariannol, technegol, lleoliad; asesu'r problemau a'r cyfleoedd cynhyrchu; adeiladwaith dramatig ee dangosiad, uchafbwynt, disgynneb; cymeriad; plot: ymchwil cefndir

### 2 Gallu cynllunio'r prosesau angenrheidiol ar gyfer cynhyrchiad

*Prosesau cynhyrchu:* dethol ffurf y llwyfan; cynhyrchu briff dylunio; cwrdd â'r dylunwyr ee set, gwisgoedd, goleuo, sain, propiau; cynadleddau cynhyrchu; gosod dodrefn, allanfeydd ac ati; clyweliadau; castio; torri/addasu'r sgript; llunio amserlen ymarfer; rhannu'r testun yn adrannau ymarfer

### 3 Gallu arwain proses ymarfer

*Proses ymarfer:* ymdrin â'r ymarfer cyntaf; darlleniad cyntaf; adeiladu tîm; cynhesu; gweithgareddau wedi'u seilio ar destun a heb eu seilio ar destun; gêmâu; creu'n fyrfyr; datblygu cymeriadau a pherthnasoedd; blocio; ymdrin â chyflymdra a ffurf ddramatig; datblygu arddull; rhoi nodiadau; briffio dylunwyr a thechnegwyr; ymdrin ag ymarferion technegol ac ymarferion gwisgoedd; nosau cyntaf

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> paratoi sgript ar gyfer cynhyrchiad yn gymwys gyda pheth cefnogaeth ac arweiniad [YA, MC]	<b>T1</b> paratoi sgript ar gyfer cynhyrchiad yn effeithiol ac yn hyderus gydag ychydig iawn o gefnogaeth ac arweiniad	<b>RH1</b> paratoi sgript ar gyfer cynhyrchiad yn hynod fanwl, gan ddangos crebwyll, syniadau wedi'u datblygu'n dda ac annibyniaeth
<b>LI2</b> cynllunio'r prosesau angenrheidiol i gynhyrchiad yn gymwys [HR]	<b>T2</b> cynllunio'r prosesau angenrheidiol i gynhyrchiad yn effeithiol	<b>Rh2</b> cynllunio'r prosesau angenrheidiol i gynhyrchiad gan ddangos eglurder, pwrpas a chrebwyll
<b>LI3</b> arwain proses ymarfer gyda'r tîm cynhyrchu yn gymwys. [GT]	<b>T3</b> arwain proses ymarfer gynhyrchiol gyda phob aelod o'r tîm cynhyrchu yn effeithiol ac yn hyderus.	<b>Rh3</b> arwain proses ymarfer gefnogol a chreadigol gyda phob aelod o'r tîm cynhyrchu.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol MC — meddylwyr creadigol	DM — dysgwyr myfyriol GT — gweithwyr tîm	HR — hunanreolwyr CE — cyfranogwyr effeithiol
---------	--	---	--

# Uned 26: Dulliau Cyfarwyddo i'r Theatr

<b>Cod yr uned:</b>	<b>M/502/5091</b>
<b>FfCCh Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi'r dysgwyr i ddeall ystod o ddulliau cyfarwyddo theatr a rhoi elfennau o wahanol arddulliau cyfarwyddo ar waith yn eu gwaith eu hunain i'r theatr.

## Cyflwyniad i'r uned

Yn yr ugeinfed a'r unfed ganrif ar hugain, mae'r cyfarwyddwr wedi dod yn berson allweddol ym maes cynhyrchu drama a'r theatr. Ystyrir mai'r cyfarwyddwr sy'n gyfrifol am weledigaeth artistig y cynhyrchiad ac am ddehongli'r testun. Mae hyn yn golygu bod cyfrifoldeb anferthol a chyffrous ar gyfarwyddwyr, felly mae'n rhaid iddyn nhw fod yn wybodus am nifer mawr o feysydd. Mae'n rhaid iddyn nhw deimlo'n sicr eu bod yn gallu datblygu gweledigaeth gyffredinol.

Mae angen i gyfarwyddwyr wybod sut mae gweithio gyda thîm i gyflawni'r weledigaeth honno. Mae'n rhaid iddyn nhw ddatblygu'r gallu i drefnu gweithgareddau cymhleth a'r rhinweddau personol i ymdrin ag actorion ac aelodau o'r tîm cynhyrchu. Yn ogystal dylai cyfarwyddwr allu datblygu arddull gyfarwyddo, llunio cynhyrchiad o ran arddull ac yna mynd ati i wneud iddo weithio mewn gwirionedd gyda chriw o actorion, dylunwyr a thechnegwyr.

Nod yr uned hon yw cyflwyno cyfarwyddwyr ifanc awyddus i'r ystod o wybodaeth sydd ei hangen i'w galluogi nhw i ddechrau'n hyderus ar y llwybr cymhleth tuag at fod yn gyfarwyddwr profiadol a medrus. Mae'r uned hon yn cwmpasu elfennau arddull, cyd-destun cynhyrchu hanesyddol, dehongliad ac ymagweddu cyfarwyddol, drwy alluogi'r dysgwyr i gael profiad o wahanol ddramâu a damcaniaethau ymarferwyr allweddol. Elfen allweddol o'r uned yw rhoi damcaniaethau ar waith: mae cyfle i'r dysgwyr ddefnyddio eu gwybodaeth drwy ymgymryd â gwaith ymarferol yn yr ystafell ymarfer, gan ddarganfod sut mae gwireddu eu syniadau mewn sefyllfa go iawn, gweithio gydag actorion a gofod perfformio, a chyda'r cyfarpar a'r dechnoleg lwyfan briodol.

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai dysgwr:

- 1 Deall dylanwad cyd-destun cynhyrchu yn y theatr
- 2 Deall ymagweddau at rôl cyfarwyddwr theatr
- 3 Gallu cyfarwyddo perfformiad byr.

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Deall dylanwad cyd-destun cynhyrchu yn y theatr

*Arddull:* arddulliau cynhyrchu ee naturoliaeth/realaeth, theatr epig, trasiedi, comedi foesau, ffars, melodrama, theatr gerdd, cyfryngau cymysg

*Cyd-destun cynhyrchu hanesyddol:* gwybodaeth am o leiaf ddau fath o amodau chwarae ee theatr Groeg/Rhufain glasurol, dramâu miragl canoloesol, dramâu oes Elizabeth/Jacobeaid, yr adferiad, theatr gerdd diwedd y ddeunawfed ganrif, y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif, West End yr ugeinfed ganrif a'r unfed ganrif ar hugain, theatrau un cwmni, stiwdio a'r ymylon, theatr stryd, theatr guerrilla

### 2 Deall ymagweddau at rôl cyfarwyddwr theatr

*Ymarferwyr arwyddocaol:* ee Stanislavski, Brecht, Artaud, Brook, Craig, Boal, Simon McBurney neu unrhyw gyfarwyddwr cyfoes sydd â dull gweithio nodedig

### 3 Gallu cyfarwyddo perfformiad byr

*Cyfarwyddo mewn arddull benodol:* ymwybyddiaeth o arddull gyfarwyddol; cyfathrebu ag actorion ac â'r tîm cynhyrchu; ymarferion a gweithgareddau oddi ar y testun; archwilio testun, symud ac ymarferion lleisiol; creu'n fyrfyfyr; defnyddio gofod, propiau, elfennau dylunio

*Perfformiadau byr:* golygfeydd neu ddetholiadau ee dramâu Prydeinig, Ewropeaidd, Americanaidd neu'r byd, darnau wedi'u dyfeisio

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu	i gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	i gael gradd rhagoriaeth mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> trafod arddull a chyd-destun cynhyrchu hanesyddol dwy ddrama o gyfnodau gwahanol [YA]	<b>T1</b> esbonio arddull a chyd-destun cynhyrchu hanesyddol dwy ddrama o gyfnodau gwahanol	<b>Rh1</b> dadansoddi arddull a chyd-destun cynhyrchu hanesyddol dwy ddrama o gyfnodau gwahanol
<b>LI2</b> trafod ymagweddu cyfarwyddol dau ymarferwr [YA]	<b>T2</b> esbonio'n eglur ymagweddu cyfarwyddol dau ymarferwr	<b>Rh2</b> dadansoddi ymagweddu cyfarwyddol dau ymarferwr
<b>LI3</b> cyfarwyddo perfformiad byr, gan ddangos bwriad, dulliau ac arddull gyfarwyddol gyda chefnogaeth ac arweiniad. [MC, [DM, GT, HR]	<b>T3</b> cyfarwyddo perfformiad byr, gan ddangos bwriad, dulliau ac arddull gyfarwyddol yn eglur gydag ychydig iawn o gefnogaeth ac arweiniad.	<b>Rh3</b> cyfarwyddo perfformiad byr yn annibynnol, gan ddangos bwriad, dulliau ac arddull gyfarwyddol yn drylwyr ac yn fanwl.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

# Uned 27: Ysgrifennu Sgriptiau

<b>Cod yr uned:</b>	<b>K/502/5364</b>
<b>FfCCh Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth y dysgwyr o broses ymchwilio ac ysgrifennu sgriptiau sy'n addas i'w perfformio. Bydd y dysgwyr yn archwilio nodweddion gwahanol gyfryngau ac yn ymchwilio i bynciau addas. Byddan nhw'n cynhyrchu sgriptiau ac yn gwerthuso eu heffeithiolrwydd.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae deall y broses sy'n ymwneud â datblygu sgript i'w pherfformio'n bwysig i ddysgwyr sy'n dymuno dilyn gyrfa ym maes ysgrifennu neu ddatblygu eu hysgrifennu drwy gymwysterau uwch. Yn ogystal mae'n erfyn defnyddiol i'w gael i helpu proses greadigol dyfeisio gwaith dramatig gwreiddiol. Bydd yr uned hon yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r dysgwyr brofi rhai o'r prosesau creadigol cyn cynhyrchu sy'n digwydd yn y diwydiannau celfyddydau perfformio.

Bydd y dysgwyr yn datblygu sgriptiau i'w perfformio, gan ddechrau o gysyniadau cychwynnol a drafftiau bras, drwy broses olygu, adolygu a mireinio i gynhyrchu sgriptiau gorffenedig. Byddan nhw'n archwilio gwahanol fathau o sgriptiau a ddefnyddir ym maes radio, ffilm, teledu a'r llwyfan. Canolbwynt y gwaith fydd ystyried pwysigrwydd cyflwyno ystyr i gynulleidfa a'r dulliau o wneud hynny.

Bydd y dysgwyr yn cwmpasu ystod eang o ffurfiau ac arddulliau ysgrifennu, gan roi trosolwg o'r sector fel bod ganddyn nhw syniad eglur o ran sut mae eu gwaith nhw'n cyd-fynd â gwaith byd proffesiynol ysgrifennu sgriptiau.

Dylai'r gwaith ysgrifennu sy'n cael ei gynhyrchu ar gyfer yr uned hon gael ei berfformio neu'i gyflwyno mewn lleoliad gweithdy neu i gynulleidfa. Bydd hyn yn helpu'r dysgwyr i ddeall yn well pa mor dda yw eu gwaith ysgrifennu, gan alluogi'r dysgwr i werthuso llwyddiant eu sgriptiau gan wneud awgrymiadau ac argymhellion ar gyfer datblygiadau i'r dyfodol.

**Dylai'r dysgwyr gynhyrchu dwy sgript yr un sy'n gwneud cyfanswm o 10 munud pan fyddan nhw'n cael eu perfformio; dylai'r sgriptiau gael eu hysgrifennu ar gyfer dau gyfrwng perfformio gwahanol.**

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai dysgwr:

- 1 Deall arddulliau a ffurfiau ysgrifennu ar gyfer perfformiad
- 2 Gallu ymchwilio i wahanol ffurfiau a phynciau ysgrifennu a'u harchwilio
- 3 Gallu cyflwyno syniadau ar ffurf ysgrifenedig sy'n briodol i'r cyfrwng perfformio y gall eraill ei ddehongli
- 4 Deall effeithiolrwydd ysgrifennu sgriptiau.



## Cynnwys yr uned

---

### 1 Deall arddulliau a ffurfiau ysgrifennu ar gyfer perfformiad

*Arddull:* gwahaniaethau arddull rhwng confensiynau arddull gwahanol ee naturoliaeth, realaeth, symbolaeth, drama epig, comedi, trasiedi

*Ffurf:* ee plot, isblot, symud, naratif, is-destun, strwythur golygfeydd, strwythur episodau, monolog, ymson

### 2 Gallu ymchwilio i wahanol ffurfiau a phynciau ysgrifennu a'u harchwilio

*Ymchwilio:* ee cefndiroedd cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol, diwylliant poblogaidd, darnau dogfennol, dogfennau ac arteffactau perthnasol

*Archwilio:* ffynonellau ac ysgogiadau am syniadau; strategaethau archwilio ac amrywiaeth o ddulliau recordio ee siartiau swigod a llif, byrddau stori, drafftiau bras, amlinelliad, crynodebau plot, senarios, ffurfiau ac arddulliau ysgrifen; arbofi â chymeriadau; drafftio ac ailddrafftio; golygu

### 3 Gallu cyflwyno syniadau ar ffurf ysgrifenedig sy'n briodol i'r cyfrwng perfformio y gall eraill ei ddehongli

*Ffurf ysgrifenedig:* ee dramâu radio, dramâu llwyfan, sgriptiau ffilm a theledu, cyfarwyddiadau llwyfan, bwriad neu weithrediadau actor, golygfeydd gweithred; effeithiau (LX, FX); gosodiadau sgript

*Cyflwyniad:* cyfathrebu syniadau ac ystyr drwy eglurder; effeithiolrwydd; defnyddio confensiynau priodol a defnyddio deialogau/monologau'n effeithiol; profi'r gwaith gyda pherfformwyr

### 4 Deall effeithiolrwydd ysgrifennu sgriptiau

*Gwerthusiad:* ymateb y dramodydd ac eraill o ran effeithiolrwydd y sgript; ystyr y gwaith ysgrifennu; defnyddio ffurf ac arddull yn briodol; effaith ac ymateb y gynulleidfa; perthnasedd i'r gynulleidfa; bod yn driw i'r syniadau gwreiddiol; ystyriaethau ymarferol cynhyrchu'r sgript; syniadau i'w datblygu i'r dyfodol

**Dylai'r dysgwyr gynhyrchu dwy sgript yr un sy'n gwneud cyfanswm o 10 munud pan fyddan nhw'n cael eu perfformio; dylai'r sgriptiau gael eu hysgrifennu ar gyfer dau gyfrwng perfformio gwahanol.**

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> trafod priodweddau a nodweddion allweddol gwahanol arddulliau ysgrifennu	<b>T1</b> esbonio priodweddau a nodweddion allweddol gwahanol arddulliau ysgrifennu gan ddefnyddio rhai enghreifftiau manwl	<b>Rh1</b> dadansoddi priodweddau a nodweddion allweddol gwahanol arddulliau ysgrifennu gan ddefnyddio enghreifftiau manwl gyda chrebwyll
<b>LI2</b> ymchwilio ac archwilio syniadau a phynciau ar gyfer sgriptiau [YA]	<b>T2</b> ymchwilio ac archwilio syniadau a phynciau ar gyfer sgriptiau gan ddefnyddio amrywiaeth o ymagweddau dychmygus	<b>Rh2</b> ymchwilio ac archwilio syniadau a phynciau ar gyfer sgriptiau gan ddefnyddio ymagweddau dychmygus a hynod greadigol
<b>LI3</b> adolygu syniadau i lunio sgript waith gan ddefnyddio sgiliau ysgrifennu sgriptiau [MC, HR]	<b>T3</b> adolygu syniadau'n greadigol i lunio sgript waith gan ddefnyddio sgiliau ysgrifennu sgriptiau	<b>Rh3</b> adolygu syniadau'n barhaus yn greadigol ac yn annibynnol i lunio sgript waith gan ddefnyddio sgiliau ysgrifennu sgriptiau
<b>LI4</b> cyflwyno sgript sy'n briodol i'r cyfrwng	<b>T4</b> cyflwyno sgript sy'n sensitif i'r cyfrwng ac sy'n cyfathrebu ystyr	<b>Rh4</b> cyflwyno sgript wreiddiol sy'n hynod briodol i'r cyfrwng ac sy'n cyfathrebu ystyr yn effeithiol
<b>LI5</b> gwerthuso llwyddiant ysgrifennu sgriptiau gan wneud rhai argymhellion ar gyfer datblygiad. [DM]	<b>T5</b> gwerthuso llwyddiant ysgrifennu sgriptiau gan wneud argymhellion manwl ar gyfer datblygiad.	<b>Rh5</b> gwerthuso llwyddiant ysgrifennu sgriptiau gan wneud argymhellion manwl, ystyriol ac ymarferol ar gyfer datblygiad.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnodu, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol



## Uned 28:

# Adrodd stori fel Perfformiad

<b>Cod yr uned:</b>	<b>K/502/5400</b>
<b>FfCCh Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

### Nod a phwrpas

Bwriad yr uned hon yw datblygu sgiliau adrodd stori'r dysgwyr fel celfyddyd berfformio yn ei rhinwedd ei hun.

### Cyflwyniad i'r uned

Mae'n debyg mai adrodd stori yw un o'r gweithgareddau perfformio hynaf sy'n wybyddus i unrhyw wareiddiad. Mae llawer o sgwrsio cyffredin rhwng pobl yn ymwneud ag adrodd storïau. Mae ymateb i sgwrsiau cyffredin iawn yn arwain at adrodd stori. Trwy gydol hanes, mae storïau wedi cael eu hadrodd mewn llawer o ffyrdd: drwy gerddoriaeth a drama, drwy ddawns a llenyddiaeth. Bwriad yr uned hon yw cyflwyno sgiliau adrodd stori i'r dysgwyr fel celfyddyd berfformio yn ei rhinwedd ei hun. Yn sicr, gall dulliau eraill gyfoethogi ac ategu celfyddyd y storiwr ac nid yw'r uned hon yn ceisio anwybyddu'r elfennau hynny. Fodd bynnag, mae'n ceisio gweld celfyddyd adrodd stori fel ffurf unigryw.

Gall cynnwys stori fod yn niferus ac yn amrywiol. Nid oes cyfyngu ar destun stori. Gall y stori fod yn ddifrifol neu'n wamal, yn fodern neu'n hen, yn fyr neu'n hir, yn foesol neu'n ddirywiol, yn cyfarwyddo ac yn difyrru. Gall fod yn seiliedig ar ddigwyddiadau go iawn neu'n hollol ffug. Bydd pob stori'n dod yn em o ystyr iddi hi ei hun ac ohoni ei hun. Er bod storïau'n gallu cael eu sgriptio, maen nhw'n aml yn cael eu cyflwyno mewn dull sy'n gofyn am rywfaint o ddyfeisgarwch wrth eu hadrodd — pwyslais ychydig yn wahanol bob tro maen nhw'n cael eu hadrodd, neu ddefnyddio iaith mewn ffordd newydd.

Er bod storiwyr proffesiynol, mae'r technegau a'r sgiliau angenrheidiol yn gallu rhoi hwb i arfogaeth yr awdur yn ogystal. Gall deall strwythur y stori helpu wrth ddeall drama gyfan. Gall pobl o unrhyw oedran fod yn gynulleidfa i stori a gellir ei pherfformio mewn unrhyw leoliad, yn ffurfiol ac yn anffurfiol. Yn aml mae'r storiwr yn gweithio fel artist unawd, ond gallai grwpiau bach o storiwyr gyflwyno stori, lle mae celfyddyd stori yn bont i'r ddrama gyfan.

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai dysgwr:

- 1 Gallu ymchwilio i ddeunydd ffynhonnell i stori
- 2 Gallu creu storïau
- 3 Gallu defnyddio technegau adrodd stori
- 4 Gallu adrodd storïau i gynulleidfaoedd dethol.

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gallu ymchwilio i ddeunydd ffynhonnell i stori

*Ymchwil:* ee darllen storïau, papurau newydd, cylchgronau, gweithdai grŵp, eu dychymyg eu hunain, gwrando ar storïau wedi'u hadrodd gan eraill

*Deunydd ffynhonnell:* mythau (cyffredinol, cenedlaethol, lleol), chwedlau, crefydd, storïau tylwyth teg, clasuron, llenyddol, nofelau, llyfrau plant, storïau plant, cerddi, dramâu, ffilmiau, rhaglenni dogfen, newyddion, hanes, profiadau personol, profiadau eraill wedi'u hadrodd

### 2 Gallu creu storïau

*Creu:* datblygu deunydd ymchwil; gweithdy; strwythur ee rhediad stori, gosod golygfa, gweithrediadau, awyrgylch, tensiwn, naws, adroddiad, cymeriad, sawl rhan; arddull ee comig, trasig, melodrama, defnyddio symud, cerddoriaeth, caneuon

*Pwrpas y stori:* ee difrifol, rhoi gwybodaeth, cyfarwyddo, addysgu, difyrru, hanesyddol, mytholegol, moesol

### 3 Gallu defnyddio technegau adrodd stori

*Technegau:* ee rheolaeth leisiol, rheolaeth ar y wyneb, ffocws, canolbwynt, disgyblaeth, ystum, eistedd, sefyll, symud, ailadrodd, rheolaeth ar y gynulleidfa, cwmpasu'r gynulleidfa gyfan, cyswllt llygaid â'r gynulleidfa, cyflymder, tŷn, traw, rhythm, defnyddio'r gofod perfformio, defnyddio propiau, wedi'i recordio gan ddefnyddio techneg meicroffon aamera briodol

### 4 Gallu adrodd storïau i gynulleidfaoedd dethol

*Cynulleidfa darged/ddethol:* ee oedran, rhyw, hil, cymysg

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> dangos tystiolaeth o ymchwil i'r deunydd ffynhonnell a ddefnyddir ar gyfer stori [YA]	<b>T1</b> dangos tystiolaeth o ymchwil fanwl i'r deunydd ffynhonnell a ddefnyddir ar gyfer stori	<b>Rh1</b> dangos tystiolaeth o ymchwil gynhwysfawr i'r deunydd ffynhonnell a ddefnyddir ar gyfer stori
<b>LL2</b> creu stori gan ddangos tystiolaeth o ymdrech i gyflwyno arddull a strwythur [MC, HR]	<b>T2</b> creu stori gan ddangos rheolaeth dros arddull a strwythur a rhywfaint o ddychymyg	<b>Rh2</b> creu stori gan ddangos rheolaeth lwyr dros arddull a strwythur gyda dawn a dychymyg
<b>LI3</b> creu stori sy'n dangos ymwybyddiaeth gyfyngedig ag anghenion cynulleidfa darged [MC], [HR]	<b>T3</b> creu stori sy'n dangos ymwybyddiaeth o anghenion cynulleidfa darged	<b>Rh3</b> creu stori sy'n dangos ymwybyddiaeth gyflawn o anghenion cynulleidfa darged
<b>LI4</b> dangos rhywfaint o reolaeth dros dechnegau adrodd storïau	<b>T4</b> dangos rheolaeth dros dechnegau adrodd storïau, gan fethu bod yn gyson o bryd i'w gilydd	<b>Rh4</b> dangos rheolaeth lawn dros dechnegau adrodd storïau, gyda chysondeb a hyder llwyr
<b>LI5</b> cyfathrebu stori, gan ddangos ymwybyddiaeth gyfyngedig â'r modd y mae'r arddull yn addas i'r gynulleidfa darged.	<b>T5</b> cyfathrebu stori, gan ddangos ymwybyddiaeth o'r modd y mae'r arddull yn addas i'r gynulleidfa darged.	<b>Rh5</b> cyfathrebu stori, gan ddangos ymwybyddiaeth lwyr o'r modd y mae'r arddull yn addas i'r gynulleidfa darged.



**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol



# Uned 29:

# Techneg Comedi Standyp

<b>Cod yr uned:</b>	<b>A/502/5126</b>
<b>FfCCh Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Bydd yr uned hon yn galluogi'r dysgwyr i astudio technegau perfformwyr y gorffennol ac i ddatblygu'r sgiliau perfformio a'r technegau comedi angenrheidiol i roi perfformiad comedi standyp eu hunain.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae comedi standyp wedi ymddangos yn ddiweddar fel arddull berfformio gyffrous, sy'n newid ac yn diweddarau ei hun drwy'r amser wrth i'r amrywiaeth o ymarferwyr a'r arddulliau cyflwyno penodol maen nhw wedi'u dewis esblygu. Mae rhai perfformwyr yn gweld y genre hwn yn sgîl ychwanegol defnyddiol mewn amgylchedd lle mae hi'n aml yn anodd cael gwaith perfformio, lle mae nifer o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y maes hwn yn graddio'n ddiweddarach i arddulliau gwaith perfformio eraill, gan adeiladu'n aml ar y technegau maen nhw wedi'u datblygu ar gyfer perfformiadau comedi standyp.

Bydd y dysgwyr yn edrych ar ymarferwyr allweddol a'r rhai sydd wedi dylanwadu ar yr mudiad comedi standyp i ddatblygu sgiliau a thechnegau perfformio comedi a hanfod 'act' gomedï.

Bydd y dysgwyr yn ymchwilio i amrywiaeth o dechnegau comedi standyp. Mae'r uned yn rhoi cyfle i'r dysgwyr adeiladu portffolio o ymchwil, gwella eu sgiliau a chymryd rhan mewn gwaith perfformio sydd wedi'i ddyfeisio drwy ddatblygu deunydd.

Bydd y dysgwyr yn edrych ar wreiddiau comedi ac yn benodol ar draddodiadau comedi gymdeithasol ar ffurf y ffŵl yn llysoedd Ewrop. Byddan nhw'n edrych ar genres comedi (parodi, dychan, ffars, corfforol), elfennau a strwythur jôcs (gosod, llinell glo/ergyd, diweddglo), elfennau ymarfer a chyflwyno comedi (disgwyliad/toriad, cyflymder, dull cyflwyno, cyd-destun, elfen gorfforol, effeithiau sain) a geirfa o dermau cysylltiedig. Bydd y dysgwyr yn edrych ar y fonolog ddoniol estynedig yn ogystal â pherfformiad o gyfres o jôcs. Byddan nhw hefyd yn bwrw golwg ar broblemau penodol a manteision comedi ar y radio a'r teledu. Bydd peth amser yn cael ei dreulio ar greu'n fyrfyfyr ac ad-libio.

**Dylai'r dysgwyr gymryd rhan mewn o leiaf ddwy act comedi standyp, pob un yn para 2-3 munud.**

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai dysgwr:

- 1 Gwybod am y dylanwadau ym maes comedi standyp a chomedi amgen
- 2 Gallu datblygu sgiliau a thechnegau comedi standyp
- 3 Gallu dethol, datblygu a mireinio deunydd comedi standyp
- 4 Gallu cymryd rhan mewn perfformiad o gomedï standyp.

## Cynnwys yr uned

### 1 Gwybod am y dylanwadau ym maes comedi standyp a chomedi amgen

*Ymarferwyr cyfredol:* ee Ross Noble, Eddie Izzard, Billy Connolly, Lenny Henry, Victoria Wood, Bill Bailey, Ken Dodd, Jack Dee, Jimmy Carr, Rhona Cameron, Ben Elton, Stephen K Amos, Robin Williams, Reginald D Hunter, Jo Brand, Lucy Porter, Steve Martin, Eddie Murphy, George Carlin, Rory Bremner, Al Murray, Omid Djalili, Sacha Baron Cohen, Steve Coogan, Harry Enfield, Johnny Vegas, Rhod Gilbert, Tudur Owen

*Ymarferwyr o'r gorffennol:* ee Morecambe a Wise, Les Dawson, Richard Pryor, Tommy Cooper, Bill Hicks

*Monologwyr estynedig:* ee Ruth Draper, Garrison Keillor, Shelley Berman; comediwyr sylwebaeth gymdeithasol ee Mort Sahl, Lenny Bruce, Bill Cosby, Chris Rock; comediwyr jôcs gweledol ee Red Skelton, Lucille Ball; comediwyr byrfyfyr ee Sid Caesar, Lily Tomlin, Elaine May

*Cyd-destun:* ee cymdeithasol, diwylliannol, hanesyddol, gwleidyddol, artistig, economaidd

### 2 Gallu datblygu sgiliau a thechnegau comedi standyp

*Sgiliau corfforol, lleisiol ac actio:* iaith y corff; cymeriadu; technegau meicroffon; gormodiaith leisiol a chorfforol; amseru; arddull y cyflwyno; crefft llwyfannu; presenoldeb llwyfan

*Techneg gomedi:* ee rhyngweithio â'r gynulleidfa, heclo, sgiliau arsylwi, gosod a diwedd glo, dychan, dynwared, deunydd unawd ac ysgrifennu sgetshis, sgwrs agoriadol, cyflwyno, techneg rhefru a chynddeiriogi, jôc fformiwla

### 3 Gallu dethol, datblygu a mireinio deunydd comedi standyp

*Ysgogiadau:* edrych ar syniadau sy'n gysylltiedig â'r ffynonellau ee testun, propiau, darluniau, gwrthrychau wedi'u canfod, cerddoriaeth, llais, cân, geiriau, storïau, masgiau, gwisgoedd, barddoniaeth, paentiadau, cerfluniau, adeiladau, digwyddiadau cyfoes, newyddion

*Ymdriniaeth:* defnyddio geiriau; cyfuno gweithrediadau a symudiadau; ymwneud technegol; cyfryngau eraill ee sain fyw a sain wedi'i recordio, amlgyfrwng

*Datblygu:* deunydd wedi'i addysgu; deunydd gwreiddiol; motifau; themâu; arddull gorfforol

*Creu:* dyfeisio; addasu; arbrofi; ymarfer; arfarnu; profi; newid

*Cyd-destun:* natur y deunydd; cynulleidfa bosibl; mathau/swyddogaethau lleoliadau; perthnasoedd ffurfiol/anffurfiol

*Cyfyngiadau:* iechyd a diogelwch; hawlfraint; cyfreithiol; technegol; ariannol; mynediad; lleoliad; adnoddau

#### 4 **Gallu cymryd rhan mewn perfformiad o gomedi standyp**

*Sgiliau perfformio:* defnyddio'r corff; llais; actio; offeryn; cyfarpar; defnyddiau; propiau; cyfathrebu a rhyngweithio; amseru; cyfranogi; egni a ffocws; gallu i ymateb

*Cyflwyno Syniadau:* ee geiriol, gweledol, testunol, sain, corfforol, technegol, lleisiol, cerddorol

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> disgrifio comedi standyp cyfoes, gan adnabod dylanwadau allweddol, dulliau a thechnegau [YA]	<b>T1</b> esbonio comedi standyp cyfoes, gan adnabod dylanwadau allweddol, dulliau a thechnegau gwaith	<b>Rh1</b> dadansoddi comedi standyp cyfoes, gan adnabod dylanwadau allweddol, dulliau a thechnegau gwaith
<b>LI2</b> defnyddio sgiliau corfforol, lleisiol, actio a chomedi yn gymwys wrth ddatblygu perfformiadau ac wrth berfformio [MC]	<b>T2</b> defnyddio sgiliau corfforol, lleisiol, actio a chomedi yn gymwys ac yn raenus wrth ddatblygu perfformiadau ac wrth berfformio perfformiad	<b>Rh2</b> defnyddio sgiliau corfforol, lleisiol, actio a chomedi gyda rhwyddineb a phresenoldeb a heb swildod wrth ddatblygu perfformiadau ac wrth berfformio
<b>LI3</b> datblygu a rhannu syniadau a deunyddiau mewn gweithdai comedi ymarferol, gydag arweiniad a chefnogaeth [DM, MC]	<b>T3</b> datblygu a rhannu syniadau a deunyddiau mewn gweithdai comedi ymarferol, gydag ychydig iawn o arweiniad a chefnogaeth	<b>Rh3</b> datblygu a llunio syniadau a deunyddiau mewn gweithdai comedi ymarferol yn annibynnol
<b>LI4</b> perfformio comedi standyp, gan ddangos sgiliau creadigol priodol gyda ffocws, canolbwynt ac ymrwymiad amlwg. [TW, EP]	<b>T4</b> perfformio comedi standyp, gan ddangos yn amlwg sgiliau creadigol wedi'u hymgorffori gyda ffocws, canolbwynt ac ymrwymiad cadarnhaol.	<b>Rh4</b> perfformio comedi standyp, gan ddangos defnydd hyblyg o sgiliau creadigol wedi'u hymgorffori, ffocws, canolbwynt ac ymrwymiad ar lefel uchel.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol



## Uned 30:

# Sgiliau Canu i Actorion a Dawnswyr

**Cod yr uned:**

**M/502/5107**

**FfCCh Lefel 3:**

**Tystysgrif Genedlaethol BTEC**

**Gwerth credydau:**

**10**

**Oriau dysgu dan arweiniad:**

**60**

### Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi'r dysgwyr sydd ag actio neu ddawnsio'n brif ddisgyblaeth berfformio, i ddatblygu eu sgiliau canu. Bydd y dysgwyr yn cael eu cyflwyno i amrywiaeth o arddulliau canu gwahanol a byddan nhw'n ymarfer ac yn canu nifer o wahanol ganeuon.

### Cyflwyniad i'r uned

Mae canu'n ychwanegiad pwysig at yr arfogaeth sgiliau sy'n ofynnol gan actorion a dawnswyr. Mae llawer o rannau'n gofyn i actorion a dawnswyr ganu'n rhan o'u gwaith perfformio. Er efallai nad yw actorion a dawnswyr yn eu hystyried eu hunain yn gerddorion, mae hi'n bosibl iddyn nhw ddatblygu eu cerddgarwch. Mae mwy o ymwybyddiaeth o rhythm, traw a dynameg yn gallu gwella repertoire sgiliau perfformio actor a dawnsiwr yn eu disgyblaeth eu hunain yn ogystal â chyfrannu i ddatblygu sgiliau canu.

Mae'r uned hon yn cydnabod bod y rhai nad ydynt yn gerddorion yn dysgu caneuon o'r glust fel arfer yn hytrach nag o sgôr gerddorol. Mae'n rhaid iddyn nhw fod â sgiliau clywedol caboledig, felly bydd ailadrodd brawddegau cerddorol yn gywir yn weithgaredd pwysig a fydd yn datblygu ac yn ehangu cof clywedol dysgwyr yn ogystal â datblygu ymwybyddiaeth o donyddiaeth gywir. Mae datblygu techneg leisiol dda yn hanfodol hefyd er mwyn osgoi problemau gyda gorddefnyddio a chamddefnyddio'r llais. Yn ogystal mae'n sylfaenol wrth ddatblygu'r llais o ran tonyddiaeth a chynhyrchu a gwella hyder y perfformiwr. Mae dosbarthiadau techneg ac ymarfer yn elfen bwysig wrth addysgu a dysgu'r uned hon.

Mae llawer o gyfleoedd amrywiol ar gyfer canu a bydd y dysgwyr yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn canu ensemble yn ogystal â pherfformiadau unawd. Felly hefyd mae'r ystod o ddeunydd cerddorol sydd ar gael yn helaeth ac mae'r dysgwyr yn cael eu hannog i weithio mewn nifer o wahanol arddulliau. Mae cymeriadau wrth gyflwyno cân yn sgil hanfodol i'r actor/dawnsiwr, a dylid eu hannog i fynd i'r afael â geiriau cân yn debyg i'r ffordd maen nhw'n mynd at fonologau/ydddiddan.

Mae magu hyder yn hanfodol. Bydd y dysgwyr yn rhannu eu gwaith gyda'u cyfoedion mewn perfformiadau gweithdy o ddarnau unawd ac ensemble, a hynny'n digwydd yn gyson.

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai dysgwr:

- 1 Gallu datblygu a chynnal techneg leisiol
- 2 Gallu dysgu ac ailadrodd brawddegau cerddorol
- 3 Gallu ymarfer deunydd cerddorol i'w ganu
- 4 Gallu perfformio deunydd cerddorol i'w ganu gan ddefnyddio cymeriadu.

# Cynnwys yr uned

---

## 1 Gallu datblygu a chynnal techneg lleisiol

*Gweithdai canu:* ee cynhesu, ymarferion technegol, gêmâu canu, caneuon cylch, caneuon partner, ymarferion galw ac ateb

*Techneg lleisiol:* ee tonyddiaeth, gosod y llais, tòn, taflu'r llais, rheoli'r anadl, hyblygrwydd, ystod, cerddgarwch, gosod targedau, adolygu cynnydd

## 2 Gallu dysgu ac ailadrodd brawddegau cerddorol

*Dysgu ac ailadrodd:* adnabod sut mae alaw yn codi a disgyn; canu trawiau, cyfyngau a rhythmâu a glywir yn ôl; ymateb i gyfarwyddiadau o ran tempo, dymameg a brawddegau

*Brawddegau cerddorol:* alawon yn y cyweiriau mwyaf a lleiaf, gan ddefnyddio rhythmâu syml, cyfansawdd a thrawsacen

## 3 Gallu ymarfer deunydd cerddorol i'w ganu

*Ymarfer:* cymryd rhan mewn ymarferion cynhesu lleisiol, canolbwynt a ffocws; dysgu deunydd cerddorol ('bwrw nodau'), gan ddilyn cyfarwyddiadau; sgiliau gwrando; ymarfer deunydd a ddysgwyd; gwrando am giwiau; defnyddio technegau lleisiol yn briodol; dysgu geiriau a symudiadau lle y bo'r angen; gweithio gydag eraill; hunanddisgyblaeth; agwedd ac ymagweddu llawn cydweithrediad; ymrwymiad i'r gwaith

*Deunydd cerddorol:* gwahanol genres ee caneuon poblogaidd, caneuon sioe, caneuon gwerin, cerddoriaeth gorawl, emynau, motetau, caneuon celf, caneuon roc, theatr gerdd, baledi, blues, jazz; gwahanol ensembles ee unawd, deuawd, triawd, pedwarawd, grŵp corawl, lleisiau cefndir; gyda chyfeiliant a digyfeiliant

## 4 Gallu perfformio deunydd cerddorol i'w ganu gan ddefnyddio cymeriadu

*Perfformiad:* cywirdeb cerddorol, ansawdd a phriodoldeb dehongliad y deunydd cerddorol; ansawdd y tòn; cerddgarwch; hyder wrth gyflwyno; asio â lleisiau eraill mewn gwaith ensemble; cyfleu ystyr y geiriau a'r gerddoriaeth

*Cyfathrebu a chymeriadu:* cynnal ffocws a chanolbwynt; cyfathrebu naws ac emosiwn; cyfathrebu dehongliad; cyfathrebu â pherfformwyr eraill; deall y deunydd cerddorol; priodoldeb yr arddull cyflwyno i'r genre cerddorol

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> perfformio ymarferion technegol	<b>T1</b> perfformio ymarferion technegol yn gymwys	<b>Rh1</b> perfformio ymarferion technegol gyda hyder a sylw i fanylion
<b>LI2</b> dangos gwelliant o ran techneg leisiol [DM]	<b>T2</b> dangos gwelliant amlwg o ran techneg leisiol	<b>Rh2</b> dangos gwelliant sylweddol o ran techneg leisiol
<b>LI3</b> canu brawddegau cerddorol yn ôl	<b>T3</b> canu brawddegau cerddorol yn ôl gan ddangos bod ganddo glust dda am draw a rhythm	<b>Rh3</b> canu brawddegau cerddorol yn ôl yn gywir ac yn hyderus
<b>LI4</b> cymryd rhan mewn ymarferion deunydd cerddorol [GT, HR]	<b>T4</b> cymryd rhan mewn ymarferion deunydd cerddorol gan ymateb i gyfarwyddyd yn briodol	<b>Rh4</b> cymryd rhan mewn ymarferion deunydd cerddorol gan ymateb i gyfarwyddyd a gweithio gyda hyder a sylw i fanylion
<b>LI5</b> perfformio deunydd cerddorol i'w ganu mewn cymeriad gan ddefnyddio mynegiant corfforol a lleisiol. [MC]	<b>T5</b> perfformio deunydd cerddorol i'w ganu mewn cymeriad gan ddefnyddio mynegiant corfforol a lleisiol yn hyderus.	<b>Rh5</b> perfformio deunydd cerddorol i'w ganu mewn cymeriad gan ddefnyddio mynegiant corfforol a lleisiol yn ddychmygus a dyfeisgar.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol



# Uned 31: Datblygu Arddulliau ym maes Clownio

<b>Cod yr uned:</b>	<b>M/502/5401</b>
<b>FfCCh Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw rhoi cyfle i'r dysgwyr edrych ar hanes clownio a'r offer i ddatblygu eu harddull eu hunain. Byddan nhw'n dysgu sut mae creu actau clown, arddulliau clown, ymarfer a pherfformio i gynulleidfa.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae celfyddyd clownio wedi bodoli ers miloedd o flynyddoedd ac mae wedi bod yn rhan o amrywiaeth eang o ddiwylliannau a ffurfiau ar theatr ers tua 2500CC. Mae hanes clownio'n cynnig adnodd cyfoethog o ran dulliau gan gynnwys cellweirwyr Hen Roeg, Commedia dell'Arte, clowniaid Shakespeare, clowniaid syrcas, a chlowniaid stryd a theatr fodern.

Mae llawer o gamdybiaethau am glownio. Nid yr olwg a'r propiau sy'n cael eu defnyddio yw'r unig elfennau. Yn aml mae'r actau'n syml iawn eu strwythur ac yn cwmpasu themâu cyffredinol fel cariad, methiant a llwyddiant. Mae clownio'n seiliedig yn bennaf ar bersonoliaeth y perfformiwr yn rhyngweithio â'r gynulleidfa mewn ffordd gredadwy. Mae'n rhaid i'r clown esblygu o'r tu mewn i'r perfformiwr, o'i brofiad bywyd, o'i anian a'i emosiynau; mae'n dathlu eu rhyddid i chwarae. Mae'r uned yn pwysleisio pwysigrwydd creu arddull y perfformiwr ei hun ond mae'n cydnabod gwerth edrych ar archdeipiau clownio, fel yr auguste, Joey a'i wyneb gwyn, y trempyn neu Charlie. Mae clowniaid yn dwlu ar y gynulleidfa ac yn ceisio ei phlesio ac mae'r actau'n adeiladu ar eu hymatebion. Nid ffurf oddefol ar gelfyddyd yw hi. Gall clowniaid medrus weithio mewn unrhyw sefyllfa; y theatr, y stryd, paredau, gwyliau, ffilm, ysbytai, ysgolion a phantomeim.

Mae'r uned hon yn dod â nifer o'r sgiliau arbenigol angenrheidiol ynghyd gan gynnwys creu'n fyrfyr, jôcs gweledol, rhyngweithio â chynulleidfa, symud, personau, cyfarwyddo, hanes a pherfformio.

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai dysgwr:

- 1 Deall hanes a datblygiad clownio
- 2 Gallu creu persona clown
- 3 Gallu ymarfer a datblygu deunydd
- 4 Gallu perfformio i gynulleidfa neu gyflwyno darn clown wedi'i gyfarwyddo.



# Cynnwys yr uned

## 1 Deall hanes a datblygiad Clownio

*Mae angen i'r dysgwyr ymdrin ag unrhyw ddau o'r categorïau canlynol:*

*Y clowniaid cynharaf a gofnodwyd: ee Eifftaidd, Rhufeinig, Groegaid, Asiaidd, clowniaid Trickster yr Americanwyr Cynhenid, Skomorokhi Rwsia, Trwbawriaid Ffrainc, Moutebanks yr Eidal, Minnesänger yr Almaen, Merry Andrews Lloegr*

*Commedia Dell'Arte: ee Zanni, Arlecchino, Columbine, Pantaloon, Capitano*

*Actorion clown Shakespeare: ee Robert Kemp, Robert Armin, William Walle*

*Clowniaid Shakespeare: ee Feste, Ffŵl y Brenin Llŷr, Y Torrwr Beddau Cyntaf, Touchstone, Bottom, Lancelot Gobbo, Dogberry, Costard*

*Clowniaid syrcas: ee Dan Rice, John Ducrow, Oleg Popov, Lou Jacobs, Coco, Amelia Butler, Felix Adler, Karandash, Les Fratellini*

*Clowniaid theatr: ee Nola Rae, Dimitri, Bill Irwin, Avner The Eccentric, Slava Polunin, Charlie Rivel, Grock, The Right Size, Spymonkey, Bob Berky*

*Clowniaid tramp: ee Nat Wills, Otto Griebling, Joe Jackson, Emmett Kelly*

*Wynebau gwynion: ee Joseph Grimaldi, Whimsical Walker, Fracois Fratellini, Footit*

*Auguste: ee Tom Belling, Coco, Albert Fratellini, Y Rastellis*

*Clowniaid stryd: ee The Butterflyman, Leandre, Syrcas Teulu Pickle, Justin Case*

*Clowniaid ffilm: ee Abbott a Costello, Y Brodyr Marx, Laurel a Hardy, The Three Stooges, Charlie Chaplin, Lucille Ball, Buster Keaton, Don Knotts, Red Skelton, Jacques Tati, WC Fields, Robin Williams*

## 2 Gallu creu persona clown

*Delwedd weledol: ee gwisgoedd, colur, propiau*

*Sgiliau: ee cwmpo slapstic, meim, jôcs corfforol, cyfarwyddo, ymdrin â gwrthrychau*

*Nodweddion: anian; natur gorfforol; arddull; rhyngweithio â chynulleidfa; personoliaeth*

## 3 Gallu ymarfer a datblygu deunydd

*Proses: dethol deunydd; dyfeisio; creu'n fyrfyr; thema; strwythur ymarfer; rhoi cyfarwyddyd ac ymateb iddo*

*Iechyd a diogelwch: gosod a chynnal amgylchedd gweithio diogel; defnyddio arferion gweithio diogel yn ystod ymarferion*

## 4 Gallu perfformio i gynulleidfa neu gyflwyno darn clown wedi'i gyfarwyddo

*Rhyngweithio â chynulleidfa: rhyngweithio onest a digymell; gallu i ymateb; meithrin perthynas â'r gynulleidfa*

*Cyflwyniad: egni wedi'i ffocysu; ymrwymiad; deinameg; cyfathrebu medrus*

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> trafod o leiaf ddau faes yn hanes a datblygiad clownio [YA]	<b>T1</b> egluro o leiaf ddau faes yn hanes a datblygiad clownio, gan gyfeirio at ddylanwadau allweddol	<b>Rh1</b> dadansoddi o leiaf ddau faes yn hanes a datblygiad clownio, gan gyfeirio at ddylanwadau allweddol a sut mae datblygiad clownio wedi dylanwadu ar arferion cyfredol
<b>LI2</b> creu cymeriad clown, gan gynnwys ystyried sut mae clown yn edrych ac yn ymddwyn [MC]	<b>T2</b> creu cymeriad clown, gan gynnwys ystyried yn feddylgar sut mae clown yn edrych ac yn ymddwyn	<b>Rh2</b> creu cymeriad clown, gan gynnwys ystyried gan gyfiawnhau'n fanwl sut mae clown yn edrych ac yn ymddwyn
<b>LI3</b> defnyddio sgiliau clownio wrth ddatblygu sgets clown, gyda chefnogaeth a chyfarwyddyd [GT, MC]	<b>T3</b> defnyddio sgiliau clownio wrth ddatblygu sgets clown, gydag ychydig iawn o gefnogaeth a chyfarwyddyd	<b>Rh3</b> defnyddio sgiliau clownio wrth ddatblygu sgets clown, gydag annibyniaeth ac ymdeimlad o eglurder a dawn
<b>LI4</b> perfformio neu gyflwyno sgets clown gerbron cynulleidfa. [CE, GT, MC]	<b>T4</b> perfformio neu gyflwyno sgets clown gerbron cynulleidfa a chynnal arddull clown drwyddi draw.	<b>Rh4</b> perfformio neu gyflwyno sgets clown gerbron cynulleidfa a chynnal arddull clown drwyddi draw, gan ddangos gallu medrus wrth weithio cynulleidfa, dyfeisgarwch deunydd a phersona clown credadwy.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol



# Uned 32: Datblygu Theatr Gorfforol

<b>Cod yr uned:</b>	<b>K/502/5123</b>
<b>FfCCh Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Yn yr uned hon bydd y dysgwyr yn dod i ddeall sgiliau a thechnegau theatr gorfforol, ei hymarferwyr a'i harddulliau allweddol a'u rôl ym maes y celfyddydau perfformio cyfoes.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae pob theatr fyw yn gorfforol mewn rhyw ffordd ond gall theatr sy'n pwysleisio delwedd a natur gorfforol y perfformiwr greu arddull fyw a chyffrous. Er y gellir gweld theatr gorfforol fel ffurf ar gelfyddyd yn ei rhinwedd ei hun, gall y sgiliau a ddatblygir drwy ei hastudio wella a chyfoethogi sgiliau ac ystod pob perfformiwr. Mae'r uned hon yn cyflwyno'r dysgwyr i theatr gorfforol fel ffurf unigryw.

Mae'r gallu i greu ymdeimlad o le a gweithred heb fod angen lleoliadau, propiau a gwisgoedd yn hyrwyddo ffurf lle mae'r actor yn ganolbwynt holl effeithiau'r llwyfan. Er bod defnydd yn ddi-os i leoliadau, gwisgoedd, propiau, goleuo a'r holl elfennau ategol eraill sy'n cyfrannu i gysyniad theatr, ni all theatr fod heb y perfformiwr.

Trwy gydol ei hanes mae'r theatr wedi cynhyrchu perfformwyr sydd â'u presenoldeb corfforol yn gaffaeliad pennaf iddynt. Yn yr uned hon bydd y dysgwyr yn edrych ar ymarferwyr allweddol sydd wedi dylanwadu ar theatr gorfforol. Byddan nhw'n datblygu sgiliau a thechnegau theatr gorfforol yn ogystal â chreu gwaith perfformio theatr gorfforol o amrywiaeth o ysgogiadau. Bydd y dysgwyr yn ymchwilio i dechnegau corfforol drwy gymryd rhan mewn gweithdai a chreu perfformiadau, gan gyfeirio'n benodol at ymarferwyr cyfoes a'u dadansoddi.

Yn ogystal bydd y dysgwyr yn ehangu eu sgiliau ym maes actio a dawns, er enghraifft.

Bydd cyfle i'r dysgwyr roi cynnig ar wahanol arddulliau o theatr gorfforol, i ddehongli testunau cyfoes a thraddodiadol. Er enghraifft mae nifer o ddramâu gan Shakespeare sydd wedi cael eu dehongli'n llwyr neu'n rhannol drwy theatr gorfforol. Byddan nhw'n dysgu sut mae creu gwaith priodol i wahanol fathau o gynulleidfaoedd; er enghraifft darnau a wnaed yn benodol i blant a phobl ifanc, wedi'u seilio ar chwedlau tylwyth teg, materion a themâu cyfoes. Fodd bynnag, prif nodwedd yr uned hon fydd archwilio a chaffael yr ystod eang iawn o sgiliau sy'n helpu perfformiwr i weithio yn y maes hwn.

**Rhaid i'r dysgwyr gymryd rhan mewn dwy arddangosfa o theatr gorfforol, a phob un yn para lleiafswm o bum munud.**

## **Canlyniadau dysgu**

**Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai dysgwr:**

- 1 Deall dylanwadau allweddol ym maes theatr gorfforol
- 2 Gallu datblygu'r sgiliau a'r technegau sy'n gysylltiedig â theatr gorfforol
- 3 Gallu dethol, datblygu a mireinio deunyddiau.

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Deall dylanwadau allweddol ym maes theatr gorfforol

*Arfer ac ymarferwyr hanesyddol:* ee hen Roeg, hen Rufain, Commedia dell'Arte, Jacques LeCoq, Jerzy Grotowski, Antonin Artaud, Kathakali

*Arfer ac ymarferwyr cyfoes:* ee Steven Berkoff, Pina Bausch, V-Tol, Sankai Juku, Robert LePage, Complicité, Cwmni Dawns Candoco, Cwmni Dawns Arwyddion Common Ground, Volcano, Frantic Assembly, Cwmni Theatr Trestle, Physical Approaches, DV8, Eugenio Barba, Cirque du Soleil, Stomp

### 2 Gallu datblygu'r sgiliau a'r technegau sy'n gysylltiedig â theatr gorfforol

*Corfforol:* cryfder y cyhyrau; rheolaeth gorfforol; cydbwysu; anadlu; codi a dal; cymryd a gosod pwysau; defnyddio lefelau ac uchder; stamina

*Lleisiol:* rheoli anadlu; taflu'r sain; ystod leisiol; creu sain a'i droi'n gorfforol; defnyddio dynameg leisiol

*Actio:* cymeriad; rhythm; deinameg; tableaux; rhyngweithio; comedi gorfforol; meim; ymateb yn ddigymell; creu'n fyrfyfyr; ymwybyddiaeth ofodol; amseru; arddull

*Ensemble corfforol:* ymddiried; gwaith tîm; cydweithredu; creu'n fyrfyfyr drwy gyffyrddiad; codi a dal; rhyngweithio

*Ansawdd dynamig:* cyflymder; llif; cyfeiriad; defnyddio cyferbyniadau; ansawdd emosiynol; ymdeimlad o berfformiad

### 3 Gallu dethol, datblygu a mireinio deunyddiau

*Ysgogiadau:* ee testun, propiau, darluniau, gwrthrychau wedi'u canfod, cerddoriaeth, llais, cân, geiriau, storïau, themâu/materion, masgiau, gwisgoedd, barddoniaeth, paentiadau, cerflunwaith, pensaernïaeth

*Ymdriniaeth:* defnyddio geiriau; cyfuno gweithredoedd a symudiadau; tempo; lle; dynameg perfformio; defnyddio technoleg theatr; cyfryngau eraill ee sain fyw, sain wedi'i recordio, amlgyfrwng

*Datblygu:* motifau; themâu; arddull gorfforol

*Effeithiolrwydd y gwaith:* perfformiad unigol; gwerthoedd cynhyrchu; bodloni'r amcanion gwreiddiol; cydlynid y grŵp; dynameg perfformio

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> esbonio datblygiadau cyfoes theatr gorfforol gan adnabod nodweddion, dylanwadau a dulliau gwaith allweddol [DM]	<b>T1</b> esbonio datblygiadau cyfoes theatr gorfforol gan ddod i farn eglur ac ystyriol am nodweddion, dylanwadau a dulliau gwaith allweddol	<b>Rh1</b> dadansoddi datblygiadau cyfoes theatr gorfforol gan gyfiawnhau'n llawn pob barn sy'n ymwneud â nodweddion allweddol, dylanwadau a dulliau gweithio
<b>LI2</b> dangos defnydd o sgiliau theatr gorfforol wrth berfformio [CE, HR]	<b>T2</b> defnyddio sgiliau theatr gorfforol gyda hyder ac arddull wrth berfformio	<b>Rh2</b> defnyddio sgiliau theatr gorfforol gyda rhwyddineb, hyder a rhuglder wrth berfformio
<b>LI3</b> ymateb i ddeunydd ysgogi, gan adnabod posibiliadau perfformio [DM, MC]	<b>T3</b> dangos ymatebion ystyriol i ddeunydd ysgogi, gan adnabod posibiliadau perfformio	<b>Rh3</b> dangos ymatebion i ddeunydd ysgogi, gan ddangos crebwyll ac ymwybyddiaeth lawn o'r posibiliadau perfformio
<b>LI4</b> defnyddio syniadau, adnoddau, ymchwil a deunyddiau i ddod o hyd i ffurf briodol a'i llunio. [MC, YA, GT]	<b>T4</b> datblygu syniadau, adnoddau, ymchwil a deunyddiau, gan eu llunio'n ddychmygus ar ffurf briodol.	<b>Rh4</b> datblygu syniadau, adnoddau, ymchwil a deunyddiau gan nodi'r posibiliadau ar gyfer perfformiad, yn dreiddgar ac yn gynhwysfawr.



**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnoddi, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol



# Uned 33: Defnyddio Theatr Gorfforol

<b>Cod yr uned:</b>	<b>Y/502/5120</b>
<b>FfCCh Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Bydd y dysgwyr yn edrych ar ffurfiau a thechnegau theatr gorfforol ac yn eu datblygu, gan eu defnyddio mewn perfformiad i gynulleidfa.

## Cyflwyniad i'r uned

Os gellir dweud bod theatr draddodiadol yn apelio ar lefel ddeallusol ac emosiynol, mae theatr gorfforol yn cwmpasu'r corfforol a'r gweledol yn ogystal. Mae theatr gorfforol yn ychwanegu dimensiwn arall at berfformiad a'i nod yw cynnig profiad theatraidd mwy uniongyrchol a chyflawn. Ni olyga hynny nad oes natur gorfforol i'r actor traddodiadol, yn hytrach bod theatr gorfforol yn ychwanegu dimensiwn pellach. Nod perfformwyr theatr gorfforol bob amser yw rhoi profiad theatraidd mwy uniongyrchol a chynhwysfawr.

Mae perfformio theatr gorfforol yn rhoi cyfle i'r perfformwyr ddefnyddio a chyfuno nifer o dechnegau; i'w mynegi eu hunain, nid yn unig drwy actio neu ddawns, ond drwy amrywiaeth o ffurfiau celfyddyd. Mae hwn yn genre amlhaenog sy'n cynnwys symud, meim, acrobateg a chlownio, yn ogystal â'r holl ffurfiau mwy traddodiadol ar actio.

Mae'r term 'theatr gorfforol' yn gymharol newydd, ond mae hanes hir a phellgyrhaeddol i'r sgiliau, yr arddull a'r genre cynhenid. Mae theatr gorfforol wedi datblygu mewn nifer o wahanol leoedd ac o nifer o ffurfiau ar gelfyddyd perfformio draddodiadol. Yn y bôn, ffurf ar gyflwyno yw theatr gorfforol na fydd yn gwrthod unrhyw fath o sgîl perfformio.

Yn ogystal ag ystyried theatr gorfforol yn ffurf unigryw, bydd y perfformiwr sy'n hyfforddi'n gweld y bydd ei ddisgyblaeth sy'n gofyn llawer yn cyfoethogi eu gwaith perfformio mewn cyd-destunau mwy traddodiadol. Wedi'r cyfan, mae caffael a datblygu sgiliau corfforol yn bwysig i'r actor mwyaf naturiolaid. Gellir eu defnyddio mewn gwaith wedi'i ddyfeisio, yn ogystal â thestunau drama a fwriadwyd i ddechrau ar gyfer ffurfiau eraill ar gyflwyno. Mae nifer o gwmnïau theatr enwog sy'n defnyddio sgiliau mewn theatr gorfforol i archwilio a mynegi testunau traddodiadol; mae Kneehigh a'u perfformiad o *Oedipws* ac *Othello* Frantic Assembly yn enghreifftiau adnabyddus.

Beth bynnag yw'r cyd-destun lle defnyddir theatr gorfforol, mae'n brofiad sy'n dod â llawer o foddhad ac sy'n aml yn addysgiadol ac yn heriol; oherwydd bod modd ei ddyfeisio o gwmpas dulliau ffres a newydd o fynd ati i archwilio testun, neu'n wir llw o destunau, mae'n siŵr o gynhyrchu gwaith a fydd yn unigryw.

**Rhaid i'r dysgwyr gyflwyno darn gorffenedig sy'n para lleiafswm o 20 munud.**

## Canlyniadau dysgu

**Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai dysgwr:**

- 1 Gallu archwilio testun gan ddefnyddio sgiliau theatr gorfforol
- 2 Gallu defnyddio sgiliau theatr gorfforol i ddatblygu rhan/cymeriad wrth ymarfer
- 3 Gallu perfformio rhan/cymeriad gan ddefnyddio sgiliau theatr gorfforol.

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gallu archwilio testun gan ddefnyddio sgiliau theatr gorfforol

*Deunydd ffynhonnell:* ysgogiadau ee materion, themâu, storïau, delwedd, detholiad o destun; cerddi, erthyglau newyddion, cylchgronau, nofelau, sgriptiau, unrhyw sgript drama sy'n addas i'w dehongli drwy sgiliau theatr gorfforol

*Proses:* arbrofi; profi syniadau; archwilio sgiliau corfforol priodol

*Creadigol:* syniadau; cysyniadau; defnyddio sgiliau corfforol

### 2 Gallu defnyddio sgiliau theatr gorfforol i ddatblygu rhan/cymeriad wrth ymarfer

*Datblygu rhan a chymeriad:* addasu a datblygu techneg bersonol; ailadrodd ymarferion; ail-greu symud, llais a gweithredoedd yn gywir dros gyfnod o amser; derbyn beirniadaeth a symud ymlaen; hunanarfarnu a gwrthrychedd; ymgorffori'r cymeriad neu'r rôl; gweithio gyda gwisgoedd, propiau a set

*Datblygu presenoldeb perfformio:* ymwybyddiaeth ofodol; defnyddio gofod; unawdau; gweithio gydag eraill, partneriaid, grwpiau bychan

*Ymarfer:* amserlenni ymarfer; disgyblaeth ymarfer; cynhesu corfforol a lleisiol; ffocws; canolbwyntio

*Gofod perfformio:* defnyddio'r gofod perfformio; elfennau golygfeydd; mynedfeydd ac allanfeydd; defnyddio adnoddau ee propiau, goleuo, sain, gwisgoedd; effeithiau

*Personol:* rhannu syniadau; ymateb i eraill; rheoli amser; trefnu personol; trefnu grŵp; gosod targedau; paratoi corfforol; paratoi meddyliol; ymarferion technegol; ymarfer gyda gwisgoedd

### 3 Gallu perfformio rhan/cymeriad gan ddefnyddio sgiliau theatr gorfforol

*Perfformio:* ee actio, symud, dawns, acrobateg, defnyddio'r corff, defnyddio'r llais

*Cyfathrebu:* â pherfformwyr eraill; â'r gynulleidfa; cymeriad; adnoddau gweledol; adnoddau lleisiol; cynnwys y darn ee ystyr, stori, thema, syniadau

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> defnyddio sgiliau theatr gorfforol i archwilio testun i'w berfformio [YA, MC, GT]	<b>T1</b> defnyddio sgiliau theatr gorfforol yn ddychmygus i archwilio testun i'w berfformio	<b>Rh1</b> defnyddio ac arbrofi â sgiliau theatr gorfforol i archwilio testun yn llawn i'w berfformio
<b>LI2</b> defnyddio sgiliau theatr gorfforol wrth ymarfer i ddatblygu rhan/cymeriad [GT, MC, DM, CE]	<b>T2</b> defnyddio sgiliau theatr gorfforol wrth ymarfer i ddatblygu rhan/cymeriad gyda sensitifrwydd, creadigrwydd ac ymrwymiad	<b>Rh2</b> defnyddio sgiliau theatr gorfforol wrth ymarfer i ddatblygu rhan/cymeriad gyda sensitifrwydd, creadigrwydd hynod ddatblygedig a dychymyg
<b>LI3</b> perfformio rhan/cymeriad theatr gorfforol sy'n cyfathrebu dehongliad priodol i gynulleidfa. [CE, [GT]	<b>T3</b> perfformio rhan/cymeriad theatr gorfforol sy'n cyfathrebu bwriad y dehongliad yn llawn.	<b>Rh3</b> perfformio rhan/cymeriad theatr gorfforol sy'n gwneud cyfraniad arwyddocaol a dychmygus i'r dehongliad.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol MC — meddylwyr creadigol	DM — dysgwyr myfyriol GT — gweithwyr tîm	HR — hunanreolwyr CE — cyfranogwyr effeithiol
---------	--	---	--

# Uned 34: Acrobateg Syrcas

<b>Cod yr uned:</b>	<b>F/502/5371</b>
<b>FfCCh Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi'r dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth am y sgiliau technegol ac artistig sy'n ofynnol i greu a pherfformio acrobateg syrcas.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae dysgu acrobateg syrcas yn her hwyliog a llawn boddhad a all roi hwb i gyflogadwyedd y dysgwyr yn y sector celfyddydau perfformio. Mae sgiliau syrcas yn cael eu defnyddio fwyfwy mewn hysbysebion teledu ac mae cyfarwyddwyr theatr yn aml yn chwilio am sgiliau anarferol y gellir eu cynnwys mewn perfformiadau wedi'u dyfeisio. Gallai bod â sgiliau syrcas wneud gwahaniaeth mewn clyweliad. Mae acrobateg (cydbwysu acrobatig a gwneud campau) yn elfen gyffrous a dynameg o sgiliau perfformio y gellir ei defnyddio mewn amrywiaeth o berfformiadau o ymladd llwyfan a theatr gorfforol, i act actobateg annibynnol. Nid yw arddangos y sgiliau technegol yn unig yn ddigon, felly bydd y dysgwyr yn archwilio sut mae creu act sydd â rhinweddau perfformio a gwerth artistig.

Mae'r uned hon yn cwmpasu elfennau sylfaenol acrobateg syrcas. Mae dysgu am arferion diogel a datblygu sgiliau cydsymud ac ymwybyddiaeth ofodol yn sail i fynd at ystod lawn o dechnegau sgiliau syrcas. Drwy ddod i ddeall sut mae defnyddio'r technegau mewn perfformiad a sut mae creu act o'r fath bydd y dysgwyr yn caffael ystod newydd gyffrous o sgiliau. Mae sgiliau syrcas yn her sy'n apelio gan ei bod hi'n hawdd mesur y canlyniadau. Mae sgil sydd newydd ei ddysgu'n dangos y cynnydd y mae'r dysgwyr wedi'i wneud yn eglur.

Ar ôl gorffen yr uned hon, dylai'r dysgwyr allu creu a chynnal gofod ymarfer diogel a dangos sgiliau acrobateg drwy eu harddangos a thrwy greu act berfformio sy'n cynnwys nifer o symudiadau. Dylai hyn fod o gymorth i'r dysgwyr ddatblygu ymagwedd ddisgybledig a fydd o fudd iddyn nhw, gan godi eu lefel sgiliau yn yr unedau syrcas ac amrywiaeth o unedau eraill sy'n gofyn am ymagwedd ddisgybledig. Wrth weithio tuag at fodloni'r amcanion hyn, bydd y dysgwyr yn datblygu'n gorfforol ac yn ehangu eu geirfa acrobateg.

Mae'n rhaid i'r dysgwyr ddangos gallu i roi dilyniannau syml o symudiadau gwneud campau a chydbwysu acrobatig at ei gilydd yn berfformiad/act i'w asesu. Dylai'r dysgwyr gynhyrchu lleiafswm o ddau berfformiad byr i gyflawni'r uned yn llawn.

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai dysgwr:

- 1 Gwybod am ofynion corfforol acrobateg
- 2 Gallu dangos amrywiaeth o sgiliau acrobateg
- 3 Gallu archwilio ymwybyddiaeth ofodol, gorfforol a chyfeiriadol
- 4 Gallu trefnu sgiliau acrobateg yn berfformiad.



## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gwybod am ofynion corfforol acrobateg

Cryfder, ystwythder a stamina; datblygu a chynnal rhaglen hyfforddi effeithiol ar gyfer acrobateg

*Iechyd cyffredinol:* anatomi sylfaenol; materion sy'n ymwneud â chynnal y corff (deiet a ffordd o fyw)

*Diogelwch corfforol:* datblygu trefn ymgynhesu ac ymoeri briodol; cyfrifoldeb corfforol drostynt eu hunain a thuag at aelodau eraill o'r grŵp; datblygu trefn gyflyru effeithiol; gallu i weithio o dan bwysau h.y. perfformiad

*Arferion diogel:* paratoi'r amgylchedd ar gyfer gweithio'n ddiogel h.y. matiau diogelwch, nodi'r peryglon yn yr ystafell ymarfer; cyfrifoldeb tuag at eraill wrth sbotio ac mewn gwaith parau; dillad priodol a thynnu gemwaith

### 2 Gallu dangos amrywiaeth o sgiliau acrobateg

*Gwneud campau:* ee rhôl ymlaen, rhôl yn ôl, olwyn dro, llawsafiad, cerdded drosodd, cylchdro, tin-dros-ben, ôl-fflip, trosbennu, gwaith ar drampét

*Cydbwyso acrobatig:* gwaith pâr ee sylfaen, ehedeg, cydbwysedd blaen a chefn, gwrthbwyso, stôl ôl a stôl flaen, baner, canhwylbren, deigryn, sefyll ar ysgwyddau; gwaith grŵp ee pyramidiau

### 3 Gallu archwilio ymwybyddiaeth ofodol, gorfforol a chyfeiriadol

*Ymwybyddiaeth ofodol:* cyfeiriadedd; defnyddio gofod; y corff wrth symud

*Ymwybyddiaeth gorfforol:* cyflymder; rhuglder; deinameg; amseru; cydlynu; tensiwn; osgo, cryfder; cydbwyso; llif; tempo; amseru

### 4 Gallu trefnu sgiliau acrobateg yn berfformiad

*Proses greadigol:* dethol deunydd; dilyniannu symudiadau; defnyddio cymeriad a/neu thema; ymateb i gerddoriaeth; ymarfer, rhoi cyfarwyddiadau ac ymateb iddyn nhw

*Perfformiad:* ffocws; cyfathrebu; rhyngweithio; gosod sgiliau; cynulleidfa; perfformwyr eraill

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> dangos datblygiad o ran cryfder, ystwythder a stamina ar gyfer hyfforddiant acrobateg [DM, HR]	<b>T1</b> dangos datblygiad cyson o ran cryfder, ystwythder a stamina ar gyfer acrobateg	<b>Rh1</b> dangos datblygiadau cyson ac ymagweddu proffesiynol tuag at ddatblygu o ran cryfder, ystwythder a stamina ar gyfer acrobateg
<b>LI2</b> defnyddio arferion diogel gyda pheth arweiniad [YA, GT]	<b>T2</b> defnyddio arferion diogel gydag ychydig iawn o arweiniad	<b>Rh2</b> defnyddio arferion diogel yn hollol annibynnol
<b>LI3</b> dangos sgiliau gwneud campau a chydbwyso acrobatig [CE, GT, CE]	<b>T3</b> dangos sgiliau gwneud campau a chydbwyso acrobatig o gan ddangos hyder a rheolaeth	<b>Rh3</b> dangos sgiliau gwneud campau a chydbwyso acrobatig cymhleth gyda hyder a rhuglder llwyr
<b>LI4</b> archwilio ymwybyddiaeth ofodol a chorfforol wrth ddefnyddio sgiliau acrobateg [DM, HR]	<b>T4</b> archwilio ymwybyddiaeth ofodol a chorfforol wrth ddefnyddio sgiliau acrobateg yn gymharol rwydd	<b>Rh4</b> archwilio ymwybyddiaeth ofodol a chorfforol wrth ddefnyddio sgiliau acrobateg gyda rhwyddineb a synwyrusrwydd artistig datblygedig
<b>LI5</b> dethol sgiliau acrobateg i greu ac ymarfer act berfformio [MC, DM, HR, CE]	<b>T5</b> dethol sgiliau acrobateg i greu ac ymarfer act berfformio greadigol gyda pheth cymeriad a/neu thema	<b>Rh5</b> dethol sgiliau acrobateg yn annibynnol er mwyn greu ac ymarfer darn perfformio dyfeisgar, gydag ymdeimlad datblygedig o gymeriad a/neu thema
<b>LI6</b> perfformio gerbron cynulleidfa gydag ychydig iawn o wallau, gan gynnal canolbwynt y rhan fwyaf o'r amser. [CE, GT, MC]	<b>T6</b> perfformio'n gymwys gerbron cynulleidfa, gan gynnal rheolaeth a chanolbwynt drwy'r adeg.	<b>Rh6</b> perfformio gerbron cynulleidfa, gan ddangos llif a rhwyddineb, gyda rheolaeth llwyr ar y sgiliau, y deunydd a'r gynulleidfa.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnoddi, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol



# Uned 35: Syrcas Awyrol

<b>Cod yr uned:</b>	<b>Y/502/5375</b>
<b>FfCCh Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu'r sgiliau technegol ac artistig sy'n ofynnol i greu a pherfformio sgiliau awyrol syrcas; bydd y dysgwyr yn edrych ar sut mae creu act sydd â rhinweddau perfformio a gwerth artistig.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae dysgu syrcas awyrol yn her hwyliog a llawn boddhad a all roi hwb i gyflogadwyedd y dysgwyr yn y sector celfyddydau perfformio. Mae sgiliau syrcas yn cael eu defnyddio fwyfwy mewn hysbysebion teledu ac mae cyfarwyddwyr theatr yn aml yn chwilio am sgiliau anarferol y gellir eu cynnwys mewn perfformiadau wedi'u dyfeisio. Gallai bod â sgiliau syrcas wneud gwahaniaeth mewn clyweliad. Mae syrcas awyrol (fel trapîs, cylchu, corde lisse a sidanau) yn agwedd gyffrous ar berfformiad syrcas. Caiff cynulleidfaoedd eu gwefreiddio wrth weld perfformwyr yn gweithio yn yr awyr gan fod y symudiadau'n rhoi'r argraff yn aml fod y perfformiwr yn cymryd risg peryglus. Mae'r ffurf hon ar berfformio'n apelgar i'w gwyllo oherwydd y siapiau cain a'r trawsnewidiadau gosgeiddig.

Mae'r uned hon yn cwmpasu elfennau sylfaenol syrcas awyrol. Mae dysgu am arferion diogel, gweithio ar uchder a datblygu sgiliau cydsymud ac ymwybyddiaeth ofodol yn sail i fynd at ystod lawn o dechnegau sgiliau syrcas. Drwy ddod i ddeall sut mae defnyddio'r technegau mewn perfformiad a sut mae creu act o'r fath bydd y dysgwyr yn caffael ystod newydd gyffrous o sgiliau. Mae sgiliau syrcas yn her sy'n apelio gan ei bod hi'n hawdd mesur y canlyniadau. Mae sgil sydd newydd ei ddysgu'n dangos y cynnydd y mae'r dysgwyr wedi'i wneud yn eglur.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai'r dysgwyr allu dangos amrywiaeth o sgiliau awyrol drwy eu harddangos a thrwy greu act berfformio sy'n cynnwys nifer o symudiadau a thrawsnewidiadau. Yn ogystal dylen nhw allu paratoi a threfnu eu hamser ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol. Dylai hyn fod o gymorth i'r dysgwyr ddatblygu ymagwedd ddisgybledig a fydd o fudd iddyn nhw, gan godi eu lefel sgiliau yn yr unedau syrcas ac amrywiaeth o unedau eraill sy'n gofyn am ymagwedd ddisgybledig. Wrth weithio tuag at fodloni'r amcanion hyn, bydd y dysgwyr yn datblygu'n gorfforol ac yn ehangu eu geirfa awyrol. Efallai y bydd yn rhaid i'r dysgwyr wynebu eu hofn uchder ac felly bydd yr uned yn her iddynt, ond bydd y canlyniadau yn eu gwobrwyo'n ddi-os pan fyddan nhw'n profi'r boddhad o ddysgu sgiliau a fydd yn gwefreiddio eu cynulleidfa.

**Dylai fod o leiaf ddau berfformiad sy'n para o leiaf dair munud yr un. Dylai pob perfformiad gynnwys o leiaf chwe symudiad.**

## **Canlyniadau dysgu**

**Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai dysgwr:**

- 1 Gallu dangos gofynion corfforol sgiliau awyrol
- 2 Gallu dangos sgiliau mewn detholiad o ddisgyblaethau awyrol
- 3 Gallu archwilio ymwybyddiaeth ofodol, gorfforol a chyfeiriadol
- 4 Gallu trefnu sgiliau awyrol yn berfformiad.

## Cynnwys yr uned

### 1 Gallu dangos gofynion corfforol sgiliau awyrol

*Cryfder, ystwythder a stamina:* datblygu a chynnal rhaglen hyfforddi effeithiol ar gyfer gwaith awyrol; datblygu digon o stamina i gysylltu nifer o symudiadau yn ddilyniant

*Galluoedd corfforol:* cryfder i weithio ar gyfarpar awyrol; ymwybyddiaeth o'r corff yn yr awyr; datblygu trefn gyflyru effeithiol; gallu i weithio o dan bwysau h.y. perfformiad

*Diogelwch corfforol:* datblygu trefn ymgynhesu ac ymoeri briodol; cyfrifoldeb corfforol dros eu hunain a thuag at aelodau eraill y grŵp

*Arferion diogel:* paratoi'r amgylchedd ar gyfer gweithio'n ddiogel h.y. matiau diogelwch, nodi'r peryglon yn yr ystafell ymarfer, gwirio cyfarpar, cyfrifoldeb tuag at eraill wrth wneud gwaith deuwad, dillad priodol a thynnu gemwaith.

*Rheoli personol:* rheoli amser; rhaglenni ymarfer; paratoi corfforol; ymateb i gyfarwyddyd a disgyblaeth

### 2 Gallu dangos sgiliau mewn detholiad o ddisgyblaethau awyrol

*Trapîs statig:* sylfeini gan gynnwys dringo rhaff a throsglwyddo i far, curiadau hongian, picell, curiadau gar, eistedd, un droed a thynnu i sefyll; gallai'r symudiadau o dan y bar gynnwys: nyth aderyn, angel blaen a chefn, canhwylbren, migyrnau, crogiant daliwr; gallai'r symudiadau ar y bar gynnwys: môr-forwyn, seren, gafrewig, cydbwyso blaen a chefn; gallai'r symudiadau sefyll gynnwys: seren, pwyso allan, postyn lamp, eryr

*Trapîs dwbl:* gallai gynnwys symudiadau gydag eistedd sylfaen; canhwylbren, gosodiad ar y traed, coes i goes; symudiadau gyda sylfaen wrth ddal: nyth aderyn, migyrnau, cydbwyso cefn, môr-forwyn, angel; symudiadau drych: môr-forwyn ddwbl, gafrewig ddwbl, nyth dwbl

*Trapîs/siglen gymylau:* cael y siglen i symud o fod yn sefyll, eistedd yn uniongyrchol, hongian o'r garrau, hongian o'r migyrnau, croes, cydbwyso blaen, cydbwyso ôl, hongian o un gar, siglo'n llawn o dan y bar

*Corde lisse (rhaff):* dringo sylfaenol â'r dwylo a'r traed, cloi traed, cloi cluniau, dalwyr, symud ymlaen ar ee lein ddillad, dringo llednaid, seren, hydd, Ynys Manaw, disgyn ben i waered, cydbwyso blaen

*Sidanau (tissu):* dringo sylfaenol â'r dwylo a'r traed, cloi traed, cloi cluniau, hollti'r afl, cocŵn, dalwyr; symud ymlaen ee i ddisgyn ben i waered, dringo llednaid, seren, hongian o'r ddau figwrn, croes o lapio dwy droed sidan croes

### 3 Gallu archwilio ymwybyddiaeth ofodol, gorfforol a chyfeiriadol

*Lle:* cysylltu ag amgylchedd a lleoliad; dynameg lefelau; pwynt gorchymyn ac archwilio cyfarpar

*Priodweddau corfforol:* cryfder; rhuglder; cyflymder; cydbwyso; llif; tempo; amseru; troi; hyblygrwydd; cydsymud ac osgo

*Cyfeiriadedd:* gosod mewn safle; deinameg; tensiwn; manylder

#### **4 Gallu trefnu sgiliau awyrol yn berfformiad**

*Proses greadigol:* dethol deunydd; dilyniannu symudiadau; defnyddio cymeriad a/neu thema; ymateb i gerddoriaeth; ymarfer; rhoi cyfarwyddiadau ac ymateb iddyn nhw

*Perfformiad:* ffocws; cyfathrebu; rhyngweithio; gosod sgiliau; cynulleidfa; perfformwyr eraill



## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> dangos datblygiad o ran cryfder, ystwythder a stamina ar gyfer hyfforddiant awyrol [DM, HR]	<b>T1</b> dangos datblygiad cyson o ran cryfder, ystwythder a stamina ar gyfer hyfforddiant awyrol	<b>Rh1</b> dangos datblygiadau cyson ac ymagweddu proffesiynol tuag at ddatblygu o ran cryfder, ystwythder a stamina ar gyfer hyfforddiant awyrol
<b>LI2</b> defnyddio arferion diogel gyda pheth arweiniad [YA, GT, HR]	<b>T2</b> defnyddio arferion diogel gydag ychydig iawn o arweiniad	<b>Rh2</b> defnyddio arferion diogel yn hollol annibynnol
<b>LI3</b> dangos sgiliau awyrol ar amrywiaeth o gyfarpar awyrol [TW, EP]	<b>T3</b> dangos sgiliau awyrol ar amrediad o gyfarpar awyrol gan ddangos hyder a rheolaeth	<b>Rh3</b> dangos sgiliau awyrol cymhleth ar amrywiaeth o gyfarpar awyrol gyda hyder a rhuglder llwyr
<b>LI4</b> archwilio ymwybyddiaeth ofodol a chorfforol wrth ddefnyddio sgiliau awyrol yn gymwys [DM]	<b>T4</b> archwilio ymwybyddiaeth ofodol a chorfforol wrth ddefnyddio sgiliau awyrol yn gymharol rhwydd	<b>Rh4</b> archwilio ymwybyddiaeth ofodol a chorfforol wrth ddefnyddio sgiliau awyrol gyda rhwyddineb ac synwyrusrwydd artistig datblygedig
<b>LI5</b> dethol sgiliau awyrol i greu ac ymarfer act berfformio [MC, DM]	<b>T5</b> dethol sgiliau awyrol i greu ac ymarfer act berfformio greadigol gyda pheth cymeriad a/neu thema	<b>Rh5</b> dethol sgiliau awyrol yn annibynnol er mwyn greu ac ymarfer darn perfformio dyfeisgar, gydag ymdeimlad datblygedig o gymeriad a/neu thema

<b>Meini prawf asesu a graddio</b>		
<b>I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:</b>	<b>I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:</b>	<b>I gael gradd rhagoriaeth mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:</b>
<b>LI6</b> perfformio gerbron cynulleidfa gydag ychydig iawn o wallau, gan gynnal canolbwynt y rhan fwyaf o'r amser. [CE, GT, MC]	<b>T6</b> perfformio'n gymwys gerbron cynulleidfa, gan gynnal rheolaeth a chanolbwynt drwy'r adeg.	<b>Rh6</b> perfformio gerbron cynulleidfa, gan ddangos llif a rhwyddineb, gyda rheolaeth lwyr ar y sgiliau, y deunydd a'r gynulleidfa.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnodu, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol

# Uned 36: Sgiliau Cydbwysu Syrcas

<b>Cod yr uned:</b>	<b>L/502/5373</b>
<b>FfCCh Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu sgiliau technegol ac artistig y dysgwyr sy'n ofynnol i greu a pherfformio sgiliau cydbwysu syrcas.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae dysgu sgiliau cydbwysu, sy'n cynnwys cerdded ar stiltiau, reidio beic un olwyn, ysgol rydd-sefyll a glôb cerdded, yn her hwyliog sy'n rhoi llawer o foddhad, ac maen nhw'n cael cymaint o afael ar rai pobl fel eu bod nhw'n ymgolli'n llwyr yn y gweithgareddau a'r her sy'n cael ei chynnig. Dyma gyfle ardderchog i wella eu rheolaeth ar gydbwysu a symud, sy'n sgiliau sy'n berthnasol i'r rhan fwyaf o dechnegau'r celfyddydau perfformio. Nid yw arddangos y sgiliau technegol yn unig yn ddigon, felly bydd y dysgwyr yn archwilio sut mae greu act sydd â rhinweddau perfformio a gwerth artistig.

Mae'r uned hon yn cwmpasu elfennau sylfaenol sgiliau cydbwysu. Caiff cynulleidfaoedd eu gwefreiddio wrth weld perfformwyr yn dangos y sgiliau hyn, gan eu bod nhw'n gwybod pa mor anodd maen nhw i'w meistroli ac na allan nhw ddim dychmygu sut mae'r perfformwyr yn gallu gwneud yr hyn maen nhw'n ei wneud. Mae'r ffurf hon ar berfformio'n apelgar i'w gwyllo hefyd oherwydd y ffordd y mae'r perfformwyr yn ymddangos fel petaen nhw'n eu rhoi eu hunain mewn perygl. Yn ogystal â defnyddio'r sgiliau hyn i greu actau annibynnol, gallan nhw gael eu cynnwys mewn perfformiadau dawns, theatr gerdd a chorfforol. Drwy ddod i ddeall sut mae defnyddio'r technegau mewn perfformiad a sut mae greu act o'r fath bydd y dysgwyr wedi caffael ystod newydd gyffrous o sgiliau. Mae sgiliau syrcas yn her sy'n apelio gan ei bod hi'n hawdd mesur y canlyniadau. Mae sgil sydd newydd ei ddysgu'n dangos yn eglur y cynnydd y mae'r dysgwyr wedi'i wneud.

Yn ogystal â dysgu sgiliau newydd yn yr uned hon, bydd y dysgwyr yn arbrofi â defnyddio'r sgiliau hyn mewn deunydd perfformio a byddan nhw'n datblygu dealltwriaeth o'r cyfarpar sy'n cael ei ddefnyddio. Oherwydd natur yr uned, mae iechyd a diogelwch yn rhan bwysig o'r dysgu hefyd. Ar ôl gorffen yr uned hon, dylai'r dysgwyr allu greu a chynnal gofod ymarfer diogel a dangos sgiliau cydbwysu drwy eu harddangos a thrwy greu act berfformio sy'n cynnwys nifer o symudiadau.

Dylai hyn fod o gymorth i'r dysgwyr ddatblygu ymagwedd ddisgybledig a fydd o fudd iddyn nhw, gan godi eu lefel sgiliau yn yr unedau syrcas ac amrywiaeth o unedau eraill sy'n gofyn am ymagwedd ddisgybledig.

**Dylai fod o leiaf ddau berfformiad creadigol lle mae pob dysgwr yn cyfrannu tua thair munud o waith perfformio gan ddefnyddio o leiaf ddau ddarn o gyfarpar cydbwysu.**

## Canlyniadau dysgu

**Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai dysgwr:**

- 1 Gallu dangos arferion diogel wrth ddefnyddio cyfarpar cydbwysu
- 2 Gallu dangos sgiliau cydbwysu
- 3 Gallu trefnu sgiliau cydbwysu'n berfformiad.

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gallu dangos arferion diogel wrth ddefnyddio cyfarpar cydbwysu

*Gosod a chynnal a chadw:* dethol stiltiau o'r maint cywir a'u ffitio; gwirio cyfarpar cyn ei ddefnyddio; cadw cyfarpar yn ddiogel; dewis beic un olwyn o'r maint cywir

*Asesu a rheoli risg:* nodi'r peryglon yn yr ystafell ymarfer; rheoli risgiau; cyfrifoldeb tuag at eraill wrth sbotio; gwisgo dillad priodol; tynnu gemwaith

*Techneg:* defnyddio'r cyfarpar yn gywir i leihau risgiau i'r eithaf; ymwybyddiaeth o gyfyngiadau corfforol

### 2 Gallu dangos sgiliau cydbwysu

*Glôb cerdded:* mynd arno; cerdded; aros yn llonydd; dod oddi arno

*Beic un olwyn:* mynd arno; seiclo ymlaen ac yn ôl; troi; segura

*Stiltiau:* stiltiau wedi'u clymu â strapiau; cerdded; rhedeg; dawnsio

*Ysgol rydd-sefyll:* mynd arni; cerdded; dod oddi arni

### 3 Gallu trefnu sgiliau cydbwysu'n berfformiad

*Proses:* dethol deunydd; dilyniannu symudiadau; defnyddio cymeriad neu thema; ymateb i gerddoriaeth; ymarfer; rhoi cyfarwyddiadau ac ymateb iddyn nhw

*Cyflwyniad:* ffocws; cyfathrebu; rhyngweithio; sgîl

**Dylai fod o leiaf ddau berfformiad creadigol lle mae pob dysgwr yn cyfrannu tua thair munud o waith perfformio gan ddefnyddio o leiaf ddau ddarn o gyfarpar cydbwysu.**

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> defnyddio arferion diogel wrth ddedhol a defnyddio cyfarpar cydbwyso gydag arweiniad [YA, HR, GT]	<b>T1</b> defnyddio arferion diogel wrth ddedhol a defnyddio cyfarpar cydbwyso gydag ychydig iawn o arweiniad	<b>Rh1</b> defnyddio arferion diogel wrth ddedhol a defnyddio cyfarpar cydbwyso yn hollol annibynnol
<b>LI2</b> dangos sgiliau cydbwyso, cynnal cydbwyso y rhan fwyaf o'r amser, gydag arweiniad [DM, HR, CE]	<b>T2</b> dangos sgiliau cydbwyso gyda rhywfaint o hyder a rheolaeth drwy gynnal cydbwyso, gydag ychydig iawn o arweiniad	<b>Rh2</b> dangos sgiliau cydbwyso cymhleth yn annibynnol ac yn hollol hyderus, gan ddangos ymdeimlad o rwyddineb a rheolaeth
<b>LI3</b> dethol cyfarpar a sgiliau cydbwyso i greu ac ymarfer perfformiad gydag arweiniad [MC, DM, HR, GT, CE]	<b>T3</b> dethol cyfarpar a sgiliau cydbwyso i ddatblygu darn perfformio creadigol gydag ychydig iawn o arweiniad	<b>Rh3</b> dethol cyfarpar a sgiliau cydbwyso yn annibynnol wrth ddatblygu darn perfformio dyfeisgar, gydag ymdeimlad o gymeriad neu thema
<b>LI4</b> perfformio gerbron cynulleidfa gan ddefnyddio cyfarpar a sgiliau cydbwyso gydag ychydig o wallau, gan gynnal canolbwynt y rhan fwyaf o'r amser. [CE, GT, MC]	<b>T4</b> perfformio'n gymwys gerbron cynulleidfa gan ddefnyddio cyfarpar a sgiliau cydbwyso, gan gynnal rheolaeth a chanolbwynt drwy'r amser.	<b>Rh4</b> perfformio gerbron cynulleidfa, gan ddefnyddio cyfarpar a sgiliau cydbwyso, gan ddangos llif a rhwyddineb, gyda rheolaeth lwyr ar y sgiliau, y deunydd a'r gynulleidfa.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol





# Uned 37: Sgiliau Trin Syrcas

<b>Cod yr uned:</b>	<b>H/502/5380</b>
<b>FfCCh Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu'r sgiliau technegol ac artistig sy'n ofynnol i greu a pherfformio sgiliau trin syrcas.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae dysgu sgiliau trin, sy'n cynnwys jyglo, diabolo, ffyn y diafol, blychau sigâr a hetiau, yn her hwyliog sy'n rhoi llawer o foddhad, ac maen nhw'n cael cymaint o afael ar rai pobl fel eu bod nhw'n ymgolli'n llwyr yn y gweithgareddau a'r her sy'n cael ei chynnig. Dyma gyfle ardderchog i wella cydsymud, disgyblaeth a chanolbwynt, sy'n sgiliau sy'n berthnasol i'r rhan fwyaf o dechnegau'r celfyddydau perfformio. Nid yw arddangos y sgiliau technegol yn unig yn ddigon, felly bydd y dysgwyr yn archwilio sut mae creu act sydd â rhinweddau perfformio a gwerth artistig.

Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar amrywiaeth o sgiliau trin. Yn aml mae'r sgiliau hyn yn creu argraff ar gynulleidfaoedd gan na allan nhw ddychmygu sut mae'r perfformwyr yn llwyddo i wneud yr hyn maen nhw'n ei wneud. Yn ogystal â defnyddio'r sgiliau hyn i greu actau annibynnol, gallan nhw gael eu cynnwys mewn perfformiadau dawn, theatr gerdd a chorfforol. Drwy ddod i ddeall sut mae defnyddio'r technegau mewn perfformiad a sut mae creu act o'r fath bydd y dysgwyr wedi caffael ystod newydd gyffrous o sgiliau. Mae sgiliau syrcas yn her sy'n apelio gan ei bod hi'n hawdd mesur y canlyniadau. Mae sgil sydd newydd ei ddysgu'n dangos y cynnydd y mae'r dysgwyr wedi'i wneud yn eglur.

Yn ogystal â dysgu sgiliau newydd yn yr uned hon, bydd y dysgwyr yn arbrofi â defnyddio'r sgiliau hyn mewn deunydd perfformio a byddan nhw'n datblygu dealltwriaeth o'r cyfarpar sy'n cael ei ddefnyddio. Oherwydd natur yr uned, mae iechyd a diogelwch yn rhan bwysig o'r dysgu hefyd. Ar ôl gorffen yr uned hon, dylai'r dysgwyr allu creu a chynnal gofod ymarfer diogel a dangos sgiliau trin drwy eu harddangos a thrwy greu act berfformio sy'n cynnwys nifer o driciau. Dylai hyn fod o gymorth i'r dysgwyr ddatblygu ymagwedd ddisgybledig a fydd o fudd iddyn nhw, gan godi eu lefel sgiliau yn yr unedau syrcas ac amrywiaeth o unedau eraill sy'n gofyn am ymagwedd ddisgybledig.

**Bydd pob dysgwr yn cael ei asesu ar o leiaf ddau berfformiad creadigol, sy'n para lleiafswm o dair munud lle maen nhw'n cynnwys o leiaf dri sgil trin gwahanol.**

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai dysgwr:

- 1 Gallu mabwysiadu ymagwedd ddisgybledig tuag at ddysgu sgiliau trin
- 2 Gallu dangos sgiliau trin
- 3 Gallu dethol a threfnu sgiliau trin yn berfformiad.

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gallu mabwysiadu ymagwedd ddisgybledig tuag at ddysgu sgiliau trin

*Cyfarpar:* ystyriaethau iechyd a diogelwch; cadw cyfarpar; cynnal a chadw  
*Hyfforddiant:* gosod targedau; dal i fod â chymhelliant; annibyniaeth;  
 gwerthuso; gallu i ymateb i adborth

### 2 Gallu dangos sgiliau trin

*Jyglo peli:* rhaeadru; colofnau; cawod; symudiadau'r corff; pedair pêl — pistyll a cholofn, pasio (patrwm cyfrif pedwar)

*Jyglo pastynau:* rhaeadru; troelli deublyg a thriphlyg; symudiadau'r corff pasio (patrwm cyfrif pedwar)

*Diabolo:* troelli; taflu a dal; symudiadau'r corff aros ar y chwith ac ar y dde; cawell y gath

*Ffon y diafol:* hanner fflipio; fflipio, taflu a dal; hofrennydd; symudiadau'r corff

*Hetiau:* rholiau'r corff; fflipio; gwneud campau; cicio a thaflu i fyny

*Blychau sigâr:* troeon pen; tynnu allan; troelli'r blwch canol

*Ffyn:* ffigur wyth (un fraich); rholio'r corff; pasio'r tu ôl i'r cefn

*Siglo pastynau:* cylchoedd breichiau llawn; cylchoedd llaw am ymlaen ac am yn ôl; croesddilyn

*Troelli platiau:* dechrau gyda'r ddwy law; cydbwyso; troelli ar fys; taflu a dal

### 3 Gallu dethol a threfnu sgiliau trin yn berfformiad

*Proses:* dethol a chyfuno gwahanol sgiliau; dethol deunydd; dilyniannu symudiadau; defnyddio cymeriad neu thema; ymateb i gerddoriaeth; ymarfer; rhoi cyfarwyddiadau ac ymateb iddyn nhw

*Cyflwyniad:* ffocws; cyfathrebu; rhyngweithio; sgîl; perfformwyr eraill

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> gosod targedau a datblygu ymagwedd ddisgybledig tuag at eu cyflawni, gydag arweiniad [DM, HR]	<b>T1</b> gosod targedau a datblygu ymagwedd ddisgybledig, gydag ychydig iawn o arweiniad	<b>Rh1</b> gosod targedau a datblygu ymagwedd ddisgybledig, yn hollol annibynnol a phroffesiynol
<b>LI2</b> trin o leiaf dri sgil gwahanol, gydag arweiniad [YA, GT, HR]	<b>T2</b> trin o leiaf dri gwrthrych, gydag ychydig iawn o arweiniad	<b>Rh2</b> trin o leiaf dri gwrthrych, gydag ymdeimlad gwirioneddol o annibyniaeth a phroffesiynoldeb llwyr
<b>LI3</b> dethol sgiliau trin i greu ac ymarfer perfformiad gydag arweiniad [MC, DM, GT, HR, CE]	<b>T3</b> dethol sgiliau trin i ddatblygu darn perfformio creadigol gydag ychydig iawn o arweiniad	<b>Rh3</b> dangos ymagweddu proffesiynol wrth ddetol sgiliau trin wrth ddatblygu darn perfformio dyfeisgar, gydag ymdeimlad o gymeriad neu thema
<b>LI4</b> perfformio gerbron cynulleidfa gan ddefnyddio cyfarpar a sgiliau trin gydag ychydig o wallau, gan gynnal ffocws y rhan fwyaf o'r amser. [DM, CE]	<b>T4</b> perfformio'n gymwys gerbron cynulleidfa gan ddefnyddio cyfarpar a sgiliau trin, gan gynnal rheolaeth a chanolbwynt drwy'r amser.	<b>Rh4</b> perfformio gerbron cynulleidfa, gan ddefnyddio cyfarpar a sgiliau trin, gan ddangos llif a rhwyddineb, gyda chanolbwyntio llwyr a rheolaeth ar y sgiliau, y deunydd a'r gynulleidfa.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnoddi, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol



# Uned 38: Perfformio Dawns

<b>Cod yr uned:</b>	<b>Y/502/4906</b>
<b>FfCCh Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Yn yr uned hon bydd y dysgwyr yn archwilio ac yn perfformio dawnsiau, gan gael blas ar fyd go iawn y dawnsiwr sy'n gweithio, lle mae dawn, gallu technegol, ymdeimlad esthetig, ffitrwydd a stamina'n cyfuno.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae perfformio dawns yn elfen bwysig o astudio dawns; cyfathrebu bwriad y coreograffydd i gynulleidfa. Mae'r agwedd hon ar waith dawnsiwr yn mynd yn fwyfwy heriol gan fod angen i berfformwyr heddiw allu gweithio mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau ac amgylcheddau. Rhaid i berfformwyr fod yn amryddawn, gallu addasu ac yn hynod fedrus er mwyn bod yn gyflogadwy ym maes dawns sy'n gofyn llawer.

Gellir cynhyrchu deunydd perfformio o amryw o ffynonellau. Bydd y dysgwyr yn perfformio gwaith gwreiddiol, wedi'i greu ganddyn nhw eu hunain, neu ddeunydd y mae eu tiwtor neu weithwyr proffesiynol dawns eraill wedi'i addysgu iddyn nhw. Agwedd gyffrous a heriol ar yr uned hon yw'r cyfle i berfformio detholiadau neu addasiadau o'r repertoire proffesiynol y gellir eu haddysgu o nodiant, wedi'u harsylwi ar ffilm, yn fyw mewn perfformiad neu wedi'u cyflwyno gan ddawnsiwr ar ymweliad.

Mae perfformwyr llwyddiannus yn fedrus iawn a rhaid i ddawnsiwr a dysgwyr disgybledig ymagweddu gyda phroffesiynoldeb ac ymrwymiad tuag at ddsbarthiadau ac ymarferion. Trwy gydol yr uned hon, rhaid i'r dysgwyr fynychu dosbarthiadau ac ymarferion techneg cyson lle byddan nhw'n datblygu amrywiaeth o sgiliau corfforol a mynegiannol, yn cynnal a datblygu cryfder, gallu i ymestyn a stamina. Dylid annog y dysgwyr i gymryd dosbarth y tu allan i'r ganolfan, lle y bo'n bosibl, er mwyn cael profiad o amrywiaeth eang o safbwyntiau dawns.

Bydd yr uned hon yn rhoi blas ar fyd go iawn y dawnsiwr sy'n gweithio, lle mae'n rhaid cyfuno cryfder cymeriad unigol, dawn, gallu technegol, ymdeimlad esthetig, lefelau ffitrwydd a stamina â pharodrwydd i gydweithio â dawnsiwr eraill, coreograffwyr a chyfarwyddwyr.

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai dysgwr:

- 1 Gallu cyfranogi'n effeithiol mewn gweithdai ac ymarferion dawns ymarferol
- 2 Gallu perfformio dawnsiau gan ddangos defnydd o sgiliau corfforol a deongliadol
- 3 Gallu perfformio dawnsiau gan ddangos defnydd o rinweddau arddull priodol
- 4 Deall sut mae gwella dawns i'w pherfformio drwy werthuso ac adolygu.



## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gallu cyfranogi'n effeithiol mewn gweithdai ac ymarferion dawns ymarferol

*Cyfranogi:* mynychu'n gyson; cyflwyniad priodol ee dillad, esgidiau, gemwaith; ffocws a chanolbwyntio; datblygu cof symud; parodrwydd i ymateb i gyfarwyddyd

*Gweithdai:* wedi'u harwain a'u coreograffio gan diwtor; wedi'u harwain a'u coreograffio gan y dysgwr; addasiad o repertoire proffesiynol drwy ddefnyddio cwmni/artist ar ymweliad neu ail-greu o fideo

*Ymarferion:* ymgynhesu; cyflwyniad i'r deunydd dawns neu adolygiad ohono; strwythuro neu fireinio deunydd yn ddarnau perfformio; ymarfer gan roi sylw i fanylion

### 2 Gallu perfformio dawnsiau gan ddangos defnydd o sgiliau corfforol a deongliadol

*Sgiliau corfforol:* osgo; llinelliad; cydlynu; cydbwysu; hyblygrwydd; cryfder; rheolaeth; rhythm; ymwybyddiaeth ofodol; ymwybyddiaeth o ddawnsuwr eraill mewn perfformiad a pherthynas â nhw

*Sgiliau dehongli:* amseru; pwyslais; cerddgarwch; brawddeg; taflunio; ffocws; mynegiant y wyneb a'r corff

### 3 Gallu perfformio dawnsiau gan ddangos defnydd o rinweddau arddull priodol

*Dawnsiau:* o leiaf ddwy arddull wahanol ee bale, cyfoes, jazz, hip-hop, roc a rôl, gwerin, tap, Affricanaidd, De Asiaidd, Lladin, stryd

*Priodweddau arddull:* nodweddion technegol a chorfforol yr arddull ddawns ee osgo, defnyddio'r torso, defnyddio rhannau unigol y corff, rhythm, defnyddio gofod; nodweddion mynegiadol yr arddull ddawns ee canolbwynt, ystod ddynamig, mynegiant wyneb; perthynas y symud â'r cyfeiliant ee galwad ac ateb, delweddu cerddoriaeth, cydberthyniad uniongyrchol, datgysylltiad

### 4 Deall sut mae gwella dawns i'w pherfformio drwy werthuso ac adolygu

*Adolygu:* hunanasesu; arsylwi gan y tiwtor; arsylwi gan gymheiriaid

*Gwerthusiad:* nodi cryfderau a gwendidau; gosod targedau priodol

*Gwella:* ymateb yn gadarnhaol i adborth a beirniadaeth adeiladol; canolbwyntio'r gwaith mewn ymarferion i gyflawni targedau a nodwyd; ailwerthuso

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> dangos ymrwymiad i ddatblygu sgiliau perfformio drwy gyfranogi'n weithgar mewn gweithdai ac ymarferion [YA, HR]	<b>T1</b> dangos ymagweddu disgybledig tuag at ddatblygu sgiliau perfformio drwy gyfranogi mewn gweithdai ac ymarferion gyda chanolbwynt	<b>Rh1</b> dangos hunanreolaeth wrth ddatblygu sgiliau perfformio drwy baratoi trylwyr a chyfranogi penderfynol mewn gweithdai ac ymarferion
<b>LI2</b> ymateb yn gadarnhaol i gyfarwyddyd a chywiriadau [DM]	<b>T2</b> ymateb yn gadarnhaol i gyfarwyddyd a chywiriadau a gwella agweddau ar dechneg perfformio'n llwyddiannus	<b>Rh2</b> ymateb yn gadarnhaol i gyfarwyddyd a chywiriadau i wella perfformiad a chyflawni hyfedredd technegol ar lefel uchel
<b>LI3</b> dangos defnydd o sgiliau corfforol a deongliadol wrth berfformio, gan gyfathrebu syniad y ddawns [CE, MC]	<b>T3</b> dangos defnydd o ystod o sgiliau corfforol a deongliadol wrth berfformio, gan gyfathrebu syniad y ddawns yn llwyddiannus a pharhau i ganolbwyntio ac ymgysylltu â'r ddawns	<b>Rh3</b> dangos defnydd o sgiliau corfforol a deongliadol wrth berfformio, gan gyfathrebu syniad y ddawns yn hyderus ac yn eglur a pharhau i ganolbwyntio ac ymgysylltu â hi drwyddi draw
<b>LI4</b> dangos ymwybyddiaeth o nodweddion arddull mewn perfformiad dawns [HR, CE]	<b>T4</b> dangos ymdeimlad eglur o nodweddion arddull priodol mewn perfformiad dawns	<b>Rh4</b> dangos ymdeimlad ardderchog o nodweddion arddull mewn perfformiad dawns, gyda hyder a dawn dehongli ac artistig
<b>LI5</b> adolygu eu perfformiad technegol eu hunain gan osod targedau gydag arweiniad. [CE, DM, HR]	<b>T5</b> adolygu eu perfformiad technegol eu hunain gan osod targedau priodol a chyraeddadwy gydag arweiniad.	<b>Rh5</b> adolygu eu perfformiad technegol eu hunain yn drylwyr gan osod targedau sy'n cynnig canolbwynt a her.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol



# Uned 39: Egwyddorion Coreograffi

<b>Cod yr uned:</b>	<b>Y/502/5215</b>
<b>FfCCh Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu gwybodaeth y dysgwyr am broses coreograffi. Gwneir hyn drwy gyfres o dasgau ymarferol gan roi cyfle i'r dysgwyr archwilio dylunio symud a chreu dawns iddyn nhw eu hunain a'u cymheiriaid ei pherfformio.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae nifer o ddawnsywyr yn goreograffwyr hefyd a bydd yr uned hon yn arfogi'r dysgwyr i'w galluogi i wneud dawns iddyn nhw eu hunain ac i ddawnsywyr eraill. Mae proses coreograffi'n gyffrous ac yn ysgogol. Bydd y dysgwyr yn cael eu hannog i archwilio eu creadigrwydd ac i arbrofi ag amrywiaeth o arddulliau dawns, technegau a geirfa symud mewn fframwaith cefnogol.

Bydd y dysgwyr yn darganfod sut mae dawnsiau'n cael eu creu, sut mae defnyddio deunydd ysgogi i gychwyn eu gwaith a sut mae datblygu a threfnu eu syniadau'n ddeunydd i'w berfformio. Byddan nhw'n dod yn ymwybodol o gamau coreograffi, o'r ysgogiad cychwynnol, arbrofi a thrin syniadau, dethol deunydd, mireinio, ymarfer a pherfformio yn y pen draw. Mewn gweithdai ymarferol bydd cyfle i'r dysgwyr weithio o amrywiaeth o ddeunydd ysgogi gan gynnwys celf weledol, testunau, cerddoriaeth, sain a materion cyfoes ac arbrofi ag amrywiaeth o gyfeiliannau, gan gynnwys tawelwch.

Bydd y dysgwyr yn cael eu harwain drwy agweddau damcaniaethol ar egwyddorion coreograffi ac yn cael eu haddysgu sut mae eu defnyddio'n ymarferol gyda dawnsywyr mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, gan amrywio o gyfansoddi unawd i waith grŵp ensemble. Bydd rhaid i'r dysgwyr werthuso eu gwaith yn ystod y broses goreograffi ac ar ôl y perfformiad a byddant yn cael eu hannog i gofnodi eu harsylwadau a gwneud awgrymiadau o ran gwella a datblygu. Bydd y broses hon yn adeiladu hyder y dysgwyr yn eu gallu fel coreograffwyr ac yn rhoi fframwaith iddyn nhw ar gyfer tasgau coreograffi i'r dyfodol.

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai dysgwr:

- 1 Gallu defnyddio strwythurau a dyfeisiau cyfansoddi wrth greu gwaith dawns
- 2 Gwybod sut mae ymateb i wahanol ysgogiadau a gweithio gyda nhw
- 3 Gallu gweithio'n effeithiol gyda dawnsywyr
- 4 Deall y broses goreograffi a pherfformio cyfansoddiadau dawns.

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gallu defnyddio strwythurau a dyfeisiau cyfansoddi wrth greu gwaith dawn

*Strwythurau:* o leiaf ddau o'r canlynol: deuaidd, triaidd, rondo, naratif, thema ac amrywiad, haniaethol, hap

*Dyfeisiau:* datblygu motifau; unsain; canon; ailadrodd; amrywiad dynamig; cyferbynnu; uchafbwynt; uchelfannau; cyfrannedd a chydbwyso; dilyniannu rhesymegol; undod; cymesuredd; anghymesuredd; gwrthdroad; llonyddwch

### 2 Gwybod sut mae ymateb i wahanol ysgogiadau a gweithio gyda nhw

*Ysgogiadau:* o leiaf ddau o'r canlynol: cerddoriaeth, barddoniaeth, testunau, cymeriadau, materion cyfoes, paentiadau, ffotograffau, cerfluniau, gair llafar, sain, delwedd symudol, cysyniadau haniaethol, gwrthrychau, repertoire proffesiynol

*Defnyddio deunydd ysgogi:* trafod, creu'n fyrfyfyr, dehongli deunydd ysgogi, arbrofi; dethol a gwrthod, gwerthuso, trin ysgogiad, datblygu syniadau

### 3 Gallu gweithio'n effeithiol gyda dawnswyr

*Nifer y perfformwyr:* gweithio gydag o leiaf ddau o'r canlynol: unawd, deuawd, triawd, grwpiau bach, grwpiau mwy

*Perthnasoedd gweithio:* cydweithredu; gwrando; gwerthfawrogi gwaith eraill; trefnu; ffocws

### 4 Deall y broses goreograffi a pherfformio cyfansoddiadau dawn

*Gwerthuso proses:* dehongli ysgogiad; dethol deunydd symud; y dyfeisiau a'r strwythurau a ddefnyddiwyd; perthynas waith â'r dawnswyr; rheoli amser; ymarferion; cryfderau a gwendidau

*Gwerthuso'r perfformiad:* effaith ar y gynulleidfa; cryfderau a gwendidau; cyfathrebu syniadau; bwriad ac ystyr

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> creu deunydd dawns sy'n dangos defnydd o strwythurau a dyfeisiau cyfansoddi [MC]	<b>T1</b> creu deunydd dawns sy'n dangos defnydd cynhwysfawr o strwythurau a dyfeisiau cyfansoddi	<b>Rh1</b> creu deunydd dawns arloesol ac wedi'i strwythuro'n dda sy'n dangos defnydd trylwyr o strwythurau a dyfeisiau cyfansoddi a'u heffaith
<b>LI2</b> archwilio potensial ysgogiadau, gan ddangos ymatebion priodol [MC]	<b>T2</b> archwilio potensial ysgogiadau, gan ddangos ymatebion priodol ac wedi'u datblygu	<b>Rh2</b> archwilio potensial llawn ysgogiadau, gan ddangos ymatebion cymhleth ac wedi'u datblygu
<b>LI3</b> dangos dull gweithio gyda dawnsyr gan ddangos ymwybyddiaeth o'u hanghenion a'u galluoedd, wrth greu deunydd dawns	<b>T3</b> addasu bwriadau coreograffi i allu dawnsyr wrth greu deunydd dawns	<b>Rh3</b> gweithio gyda dawnsyr i gyfathrebu'n llawn fwriad coreograffi a gaiff ei wireddu'n llwyddiannus mewn perfformiad
<b>LI4</b> gwerthuso'r broses goreograffi a'r perfformiad, gan roi dadansoddiad bras. [DM]	<b>T4</b> gwerthuso'r broses goreograffi a'r perfformiad, gyda dadansoddiad eglur o ddatblygiad y deunydd dawns, a'r cyflwyniad terfynol.	<b>Rh4</b> gwerthuso'r broses goreograffi a'r perfformiad, gyda dadansoddiad manwl o'r dulliau a ddefnyddiwyd i greu'r gwaith, a'r cyflwyniad terfynol.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol MC — meddylwyr creadigol	DM — dysgwyr myfyriol GT — gweithwyr tîm	HR — hunanreolwyr CE — cyfranogwyr effeithiol
---------	--	---	--



# Uned 50: Symud wrth Berfformio

<b>Cod yr uned:</b>	<b>D/502/4907</b>
<b>FfCCh Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Mae'r uned hon yn ymwneud â defnyddio sgiliau symud mewn sefyllfaoedd perfformio. Mae hi wedi'i bwriadu i actorion a dawnswyr fel ei gilydd gyda'r pwyslais ar waith ymarferol.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae symud yn elfen hanfodol ym mhob maes perfformio. Ystyriwch yr ystod o sgiliau symud y mae angen i actor neu ddawnsiwr dynnu arnynt yn adnodd i gefnogi eu sgiliau perfformio. Ystyriwch ddarn o actio sydd ag ystod gyfyngedig o symud i i gefnogi mynegiant, deialog, naws a pherthynas â chymeriadau eraill. Fyddai'r darn mor llwyddiannus?

Bydd y dysgwyr yn dod i ddeall yr effaith y gall symud ei chael ar gyfrannu i ddarn llwyddiannus o waith. Mewn dawn ac actio, mae'n ofynnol i'r perfformiwr ystyried sut a ble mae defnyddio symud mewn perthynas â'r cymeriad neu arddull y coreograffi. Genres gwahanol y Celfyddydau Perfformio sy'n pennu'r math o symud sydd i'w ddefnyddio mewn gwahanol ffyrdd. Defnyddir symud mewn ffordd wahanol iawn gan berfformiwr mewn bale clasurol cyflawn o'i gymharu â sut caiff ei ddefnyddio gan actor mewn corws Groegaidd. Mae hi'n fwy tebygol y bydd eich arbenigedd Celfyddydau Perfformio yn gofyn am ymagweddu mwy cynnil at ddefnyddio symud wrth berfformio a bydd yr uned hon yn gofyn i chi ganolbwyntio ar y gwahaniaethau hyn.

Elfen bwysig arall o'r uned yw datblygu ymagwedd hyblyg at sgiliau symud, y bydd angen eu dangos mewn darnau perfformio cyferbyniol. Mae'n hanfodol fod y dysgwyr yn amryddawn wrth ddefnyddio symud. Bydd gallu corfforol yn sail i ystod lawn o arddulliau a themâu posibl, mewn deialog lafar, darnau o waith wedi'u dyfeisio neu ddarnau dawn mwy cymhleth. Mae'r uned yn cysylltu ag unedau coreograffi, technegol a pherfformio. Lle mae Sgiliau Symud yn ymwneud ag egwyddorion symud, mae'r uned hon yn rhoi cyfle i roi'r sgiliau hyn ar waith mewn cyd-destun perfformio.

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai dysgwr:

- 1 Gwybod sut mae ymateb i wahanol ysgogiadau fel deunydd perfformio posib
- 2 Gallu atgynhyrchu brawddegau symud mewn perfformiad
- 3 Gallu defnyddio sgiliau symud wrth ymarfer
- 4 Gallu defnyddio sgiliau symud wrth berfformio.

## Cynnwys yr uned

---

### 1 **Gwybod sut mae ymateb i wahanol ysgogiadau fel deunydd perfformio posib**

*Gweledol:* ee paentiadau, ffilmiau, ffotograffau, cerfluniau, lliwiau, siapiau, animeiddio, delweddau digidol

*Clywedol:* cerddoriaeth; effeithiau sain (byw/wedi'u recordio)

*Seiliedig ar destun:* ee sgrïpt, barddoniaeth, llenyddiaeth, eitemau newyddion, nodiant

*Cysyniadau:* ee haniaethol, thematig, naratif

### 2 **Gallu atgynhyrchu brawddegau symud mewn perfformiad**

*Darnau symud:* ee astudiaeth osod, adran o theatr gorfforol, darn o repertoire, darn o sgôr gyda nodiant, darn wedi'i sgrïptio gyda phwyslais ar symud, cyswllt byrfyryr, darnau symud wedi'u dyfeisio

*Cof symud:* cywirdeb technegol; amseru; rheolaeth rythmig; rheolaeth ofodol; deinameg; perthnasoedd; taflunio; dehongliad

### 3 **Gallu defnyddio sgiliau symud wrth ymarfer**

*Proses ymarfer:* dangos datblygiad symudiadau symud; rhoi a derbyn syniadau; cydweithredu ag eraill; ymateb i gyfarwyddiadau; cymryd rhan mewn ymarferion ymgynhesu; cymryd rhan mewn ymarferion

*Gwelliannau:* nodi targedau; gwneud addasiadau; dilyniannau ymarfer; dadansoddi; adolygu; ailadrodd

### 4 **Gallu defnyddio sgiliau symud wrth berfformio**

Proses perfformio; atgynhyrchu syniadau; ymateb i berfformwyr eraill; taflunio a chyfathrebu syniadau drwy symudiad; defnyddio elfennau perfformio ee gofod, celfi, gwisgoed

*Gwerthusiad:* nodi cryfderau a gwendidau; gwneud awgrymiadau er mwyn gwella; ystyried ymateb y gynulleidfa; cymathu barn eraill

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> ymateb i ysgogiad ac archwilio posibiladau fel deunydd perfformio [MC]	<b>T1</b> dangos ymateb ystyriol i ysgogiad a dangos hyn yn cael ei archwilio fel deunydd perfformio	<b>Rh1</b> dangos ymateb manwl i ysgogiad a dangos hyn yn cael ei archwilio'n drylwyr ac yn dreiddgar fel deunydd perfformio
<b>LI2</b> atgynhyrchu brawddegau symud gan ddangos tystiolaeth o gof symud [CE]	<b>T2</b> atgynhyrchu brawddegau symud yn gywir, gan ddangos defnydd cymwys o gof symud	<b>Rh2</b> atgynhyrchu brawddegau symud gan roi sylw i fanylion, cywirdeb a hyder sicr
<b>LI3</b> mynychu gweithdai ac ymarferion gyda thystiolaeth o ymateb i gyfarwyddyd a chyfrannu syniadau [HR, GT]	<b>T3</b> mynychu gweithdai ac ymarferion yn rheolaidd gyda thystiolaeth o ymateb yn effeithiol i gyfarwyddyd a chyfrannu syniadau'n briodol	<b>Rh3</b> ymgysylltu'n llawn â'r broses ymarfer, gan ymateb yn gyson dda i gyfarwyddyd a chyfrannu syniadau'n werthfawr
<b>LI4</b> gwneud cysylltiadau rhwng y broses ymarfer a pherfformio drwy addasu a chywiro'r gwaith yn addas [HR]	<b>T5</b> gwneud cysylltiadau meddylgar rhwng y broses ymarfer a pherfformio drwy fireinio ac addasu'r gwaith yn llwyddiannus	<b>Rh4</b> gwneud cysylltiadau arwyddocaol rhwng y broses ymarfer a pherfformio drwy fireinio ac addasu'r gwaith gyda sgîl ac arbenigedd
<b>LI5</b> perfformio rôl, gan ddangos rheolaeth ar briodweddau corfforol priodol gan gyfathrebu cymeriad, naws neu fwriad yn gymwys i gynulleidfa [CE]	<b>T5</b> perfformio rôl, gan ddangos rheolaeth ar sgiliau symud sy'n cyfleu cymeriad, naws neu fwriad y deunydd yn gywir	<b>Rh5</b> perfformio rôl gan ddangos rheolaeth hyderus ar sgiliau symud gydag ymdeimlad gwirioneddol o arddull; cyfathrebu y cymeriad, y naws a'r/neu'r bwriad gyda rhwyddineb

<b>Meini prawf asesu a graddio</b>		
<b>I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:</b>	<b>I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:</b>	<b>I gael gradd rhagoriaeth mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:</b>
<b>LI6</b> cynnig gwerthusiad o'r perfformiad lle deuir i farn amlwg gyda sylwadau'n ynglŷn â chryfderau a gwendidau. [DM]	<b>T6</b> cynnig gwerthusiad ystyriol o'r perfformiad deuir i farn eglur ynglŷn â chryfderau a gwendidau.	<b>Rh6</b> cynnig gwerthusiad manwl o'r perfformiad lle cyfiawnheir barn yn llawn ac mae tystiolaeth o ddadansoddi ynglŷn â chryfderau a gwendidau.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA — ymholwyr annibynnol MC — meddylwyr creadigol	DM — dysgwyr myfyriol GT — gweithwyr tîm	HR — hunanreolwyr CE — cyfranogwyr effeithiol
----------------	--	---	--



# Uned 51: Dawns Ryngwladol

<b>Cod yr uned:</b>	<b>T/502/4900</b>
<b>FfCCh Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Yn yr uned hon bydd y dysgwyr yn dod i ddeall genres dawns o bedwar ban y byd. Mae'r pwyslais ar waith ymarferol gyda sylfaen o wybodaeth ddamcaniaethol am hanes a chyd-destun.

## Cyflwyniad i'r uned

Rydyn ni'n byw mewn cymdeithas amlddiwylliannol ac felly mae angen i'r dawnsywyr wybod am yr holl ffurfiau ar ddawns sydd ledled y byd. Er mwyn deall yn llawn pam mae cymaint o amryfal ffurfiau ar ddawns, mae angen i ddawnsywyr wybod hefyd am y rhesymau am eu twf a'u datblygiad. Pam a sut mae fflamenco'n wahanol i salsa? Pam mae dawns Indiaidd yn cael ei pherfformio yn y fath fodd? Beth sy'n gwneud i'r arddull ddawns yn Nigeria fod yn wahanol i'r arddull ddawns yn Ghana? Bydd yr wybodaeth hon yn helpu'r dawnsywyr i gael mwy o fwynhad wrth berfformio'r holl wahanol ddawnsiau hyn a hefyd bydd yn eu helpu i ddeall beth yw ystyr dawns yn yr ystyr ehangaf.

Bydd y dysgwyr yn ystyried y rhesymau cymdeithasegol a diwylliannol dros dwf gwahanol genres ac arddulliau, gan eu galluogi i werthfawrogi arwyddocâd ehangach pob ffurf ar ddawns. Byddan nhw'n dod i ddeall hanes gwahanol genres dawns yn ogystal â chyd-destun eu tarddiad a'u datblygiad. Fodd bynnag, yn bennaf, mae'r uned hon yn canolbwyntio ar afael gorfforol y dysgwyr ar y genres dawns a ddewiswyd i'w cyflwyno yn yr uned hon.

Bydd y dysgwyr yn caffael y sgiliau technegol priodol gan ddibynnu ar nodweddion allweddol yr arddulliau dawns a ddewiswyd. Byddan nhw'n ystyried y math o symud sy'n nodweddiadol o'r genre a sut mae'r symud hwn yn cael ei batrymu mewn amser a gofod er mwyn cynhyrchu arddull nodedig. Bydd y broses yn arwain at berfformio'r genres dawns a ddewiswyd, lle mae atgynhyrchu symud o ran arddull yn ogystal â'i atgynhyrchu'n gorfforol yn hanfodol.

Ar ôl cwblhau'r uned, bydd y dysgwyr wedi caffael gwybodaeth ymarferol a damcaniaethol am ddetholiad o ddawnsiau o bedwar ban y byd. Gall *Dawns Ryngwladol* fod yn uned annibynnol neu gellir ei chyfuno ag unedau perfformio a choreograffi.

**Bydd angen i'r dysgwyr gymryd rhan mewn o leiaf ddau berfformiad. Dylai pob perfformiad bara oddeutu dwy i dair munud.**

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai dysgwr:

- 1 Deall hanes a chyd-destun gwahanol genres o ddawns ryngwladol
- 2 Gallu atgynhyrchu nodweddion allweddol gwahanol genres o ddawns ryngwladol
- 3 Gallu perfformio cyfuniadau yn y genre dawns ryngwladol.



## Cynnwys yr uned

---

### 1 Deall hanes a chyd-destun gwahanol genres o ddawns ryngwladol

*Hanes:* tarddiad a datblygiad genres dawns ryngwladol ee dawnsiau o Affrica, China, India, Japan, Gwlad Thai, Ewrop, De America, Indonesia, Korea, De'r Cefnfor Tawel, Awstralia

*Cyd-destun:* traddodiadau cymdeithasol/diwylliannol: mathau o ddawns; gwerthoedd dawns; amodau amgylcheddol a chymdeithasol; lleoliad daearyddol; hinsawdd; grwpiau gwleidyddol; cysylltiadau allanol

### 2 Gallu atgynhyrchu nodweddion allweddol gwahanol genres o ddawns ryngwladol

*Nodweddion allweddol:* osgo priodol; aliniad; cydbwyso; cydsymud; codi'n uchel; stamina; cryfder; hyblygrwydd; defnyddio'r torso/rhannau unigol y corff; cerddgarwch; amseru; perthynas rhwng perfformwyr; defnyddio gofod; ystod ddeinamig; mynegiant yr wyneb

### 3 Gallu perfformio cyfuniadau yn y genre dawns ryngwladol

*Proses ymarfer:* hunanddisgyblaeth; cyflwyno priodol; ymrwymiad; canolbwyntio; rheoli amser; defnyddio cyfarwyddyd/cywiriadau

*Hyfforddiant cof symud:* ymarfer; disgyblaeth; ailadrodd a galw i gof

*Cyfuniadau perfformio cywir:* cynnwys gweithredoedd symud; aliniad yr aelodau; ymwybyddiaeth ofodol; siâp; cywirdeb rhythmig

*Sgiliau perfformio:* defnyddio deinameg yn briodol; taflunio; ffocws; dehongli'r arddull; cyfathrebu â'r gynulleidfa; mynegiant

**Bydd angen i'r dysgwyr gymryd rhan mewn o leiaf ddau berfformiad. Dylai pob perfformiad bara oddeutu dwy i dair munud.**

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> trafod tarddiad a datblygiad genres dawns ryngwladol [YA]	<b>T1</b> esbonio tarddiad a datblygiad genres dawns ryngwladol	<b>Rh1</b> gwneud sylwadau beirniadol am darddiad a datblygiad genres dawns ryngwladol
<b>LI2</b> dangos nodweddion allweddol genres dawns draddodiadol gyda rhywfaint o sgîl [CE]	<b>T2</b> dangos nodweddion allweddol genres dawns draddodiadol yn gymwys	<b>Rh2</b> dangos nodweddion allweddol genres dawns ryngwladol benodol gan ddangos sgîl a chyflawniad ar lefel uchel
<b>LI3</b> defnyddio'r broses ymarfer, gan weithio gydag ymdeimlad o hunanddisgyblaeth [HR, GT, CE]	<b>T3</b> defnyddio'r broses ymarfer yn effeithiol, gan weithio gyda hunanddisgyblaeth	<b>Rh3</b> gweithio gydag ymroddiad trwy gydol y broses ymarfer, gan ddangos hunanddisgyblaeth drwyddi draw
<b>LI4</b> rhoi perfformiadau o ddawns ryngwladol gyda thystiolaeth o gywirdeb, mynegiant, dehongliad ac ymdeimlad ag arddull. [CE]	<b>T4</b> rhoi perfformiadau o ddawns ryngwladol yn gywir gan ddefnyddio mynegiant, dehongliad a synnwyr arddull yn briodol.	<b>Rh4</b> rhoi perfformiadau o ddawns ryngwladol yn gywir gan ddefnyddio mynegiant, dehongliad a synnwyr arddull yn hynod effeithiol.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA — ymholwyr annibynnol MC — meddylwyr creadigol	DM — dysgwyr myfyriol GT — gweithwyr tîm	HR — hunanreolwyr CE — cyfranogwyr effeithiol
---------	--	---	--

# Uned 52:

# Dawns Drefol

**Cod yr uned:**

**K/502/4909**

**FfCCh Lefel 3:**

**Tystysgrif Genedlaethol BTEC**

**Gwerth credydau:**

**10**

**Oriau dysgu dan arweiniad:**

**60**

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw rhoi dealltwriaeth i'r dysgwyr o sgiliau corfforol a deongliadol sylfaenol yr arddulliau hyn gan ystyried ar yr un pryd y genre cerddoriaeth sy'n gysylltiedig â nhw.

## Cyflwyniad i'r uned

Pwyslais yr uned yw deall sylfeini gallu dawnsiwr i berfformio'n llwyddiannus gydag unigoliaeth a gwreiddioldeb. Mae dawns drefol a'i hamryfal dechnegau yn hanfodol i unrhyw un sy'n bwriadu gweithio ym maes dawns fasnachol neu gymunedol. Mae dawns drefol yn rhan o ddiwylliant yr ifanc ac mae'n gwneud ei ffordd i West End Llundain yn ogystal â fideos pop, perfformiadau byw grwpiau pop, sioeau llwyfan, ffilmiau a rhaglenni teledu. Mae cystadlaethau a dosbarthiadau di-ri sy'n annog y ffurf hon ar gelfyddyd mewn nifer o ardaloedd trefol ym Mhrydain ac America, yn ogystal â chwmnïau dawns a choreograffwyr sy'n defnyddio arddulliau dawns drefol mewn gweithiau cyfoes a dawns i'r camera. Mae gan rai arddulliau sy'n gysylltiedig â dawns drefol le o hyd mewn amgylchedd treflun neu stryd.

Gall rhai agweddau ar ddawns drefol gynnig her wirioneddol i allu corfforol y dysgwyr ac mae hi'n bwysig fod hyn yn digwydd mewn amgylchedd gwaith diogel. Er y caiff y dysgwyr eu hasesu ar eu hymwneud ymarferol, mae'n hanfodol fod arsylwi a gwerthfawrogi gwaith dysgwyr eraill yn cael ei ystyried yn rhan o'r broses ddatblygu. Rhaid rhoi sylw i elfennau o dechneg perfformio a sgiliau dehongli yn yr uned hon, fel y bydd y dysgwyr yn magu hyder ac yn caffael gwybodaeth am sut dylen nhw gyflwyno eu hunain fel artistiaid sy'n perfformio. Nod yr uned hon yw datblygu ymatebion deinamig y dysgwyr i'r arddulliau a ddewiswyd a'u hannog i werthfawrogi eu ffurf sy'n dal i esblygu. Mae arddulliau dawns drefol yn amrywio a gellir archwilio a datblygu geirfa symud sydd wedi'i chreu o ddawns stryd i parkour, dawnsio brêc i capoeira.

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai dysgwr:

- 1 Gallu perfformio nodweddion allweddol dawns drefol
- 2 Deall y berthynas rhwng cerddoriaeth a dawns drefol
- 3 Gallu dangos eu bod yn gallu defnyddio sgiliau corfforol a deongliadol wrth berfformio.

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gallu perfformio nodweddion allweddol dawns drefol

*Iechyd a diogelwch:* cynhesu; dillad priodol; ymateb i gyfarwyddyd; arferion diogel; ymwybyddiaeth grŵp

*Arddulliau:* ee dawns stryd, jazz stryd, dawnsio brêc neu b-boying, cloi, bwgalw, hip-hop, bump a grind, popio corff, roboteg, roc y corff, arddull rydd, capoeira, krumping, rhedeg rhydd, parkour

*Geirfa symud:* ee troi ar y cefn; tonnau corff a breichiau, cyfyngiadau, coesau gwallgof, down rock, gwaith traed, ystumiau, troi'r pen, arwahaniadau, llithriadau, top rock, melinau gwynt; rhewi, edafu, chwe cham, malwr coffi, colynnau, troadau, codi

*Hyfforddiant cof symud:* perfformio dilyniannau gan ddefnyddio ymarfer ac ailadrodd

### 2 Deall y berthynas rhwng cerddoriaeth a dawns drefol

*Defnyddio rhythm ac arddull:* creu'n fyrfyfyr; trawsacen; tempo; colli curiadau; oddi ar y curiad; cydberthyniad uniongyrchol

*Arddulliau cerddoriaeth:* ee ffync, soul, hip-hop, trip hop, electronica, rhythm a blues, pop, grime, garage, drwm a cas, jyngl, neuadd ddawns, raga, metel newydd

### 3 Gallu dangos eu bod yn gallu defnyddio sgiliau corfforol a deongliadol wrth berfformio

*Sgiliau corfforol:* osgo; llinelliad; cydbwyso; cydlynu; hyblygrwydd; cryfder; stamina; ymwybyddiaeth gorfforol; estyn; cyfangu; cylchdroi; gallu i atgynhyrchu symudiad yn gywir; cyfranogi a/neu arwahanu gan y corff i gyd; defnyddio ystod ddeinamig llonyddwch

*Sgiliau dehongli:* taflunio; ffocws; brawddeg; pwyslais; ansawdd; cerddgarwch; deinameg; mynegiant yr wyneb

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> dangos ymwybyddiaeth o faterion iechyd a diogelwch yn ddisgybledig yn y rhan fwyaf o'r dosbarthiadau [HR]	<b>T1</b> dangos ymwybyddiaeth o faterion iechyd a diogelwch yn ddisgybledig yn y dosbarthiadau i gyd	<b>Rh1</b> dangos ymwybyddiaeth o faterion iechyd a diogelwch yn hynod ddisgybledig yn y dosbarthiadau i gyd
<b>LI2</b> dangos gallu i berfformio nodweddion allweddol dawns drefol [CE]	<b>T2</b> dangos gallu i berfformio nodweddion allweddol dawns drefol yn gywir	<b>Rh2</b> dangos gallu i berfformio nodweddion allweddol dawns drefol i safon uchel gyda dawn
<b>LI3</b> dysgu a galw i gof ddilyniannau wrth berfformio gyda rhywfaint o gywirdeb o ran dynameg ac amseru [HR]	<b>T3</b> dysgu, galw i gof ac atgynhyrchu dilyniannau wrth berfformio gyda mewnbwn dynamig ac amseru priodol	<b>Rh3</b> dysgu, galw i gof ac atgynhyrchu dilyniannau wrth berfformio gyda mewnbwn dynamig ac amseru cyferbyniol ac ymdeimlad cryf o ran taflunio
<b>LI4</b> dangos ymwybyddiaeth o'r berthynas rhwng cerddoriaeth a dawns drefol	<b>T5</b> dangos ymwybyddiaeth gref o'r berthynas rhwng cerddoriaeth a dawns drefol wrth berfformio	<b>Rh4</b> dangos ymwybyddiaeth gref o'r berthynas rhwng cerddoriaeth a dawns drefol, gan archwilio a datblygu eu cerddgarwch eu hunain wrth berfformio
<b>LI5</b> dangos sgiliau corfforol priodol yn cael eu defnyddio wrth roi brawddegau symud ar waith. [HR]	<b>T5</b> dangos ymwybyddiaeth o ddefnyddio sgiliau corfforol priodol wrth roi brawddegau symud ar waith.	<b>Rh5</b> defnyddio sgiliau corfforol wrth roi brawddegau symud ar waith gyda hyder, canolbwynt ac egni.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnoddi, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol





# Uned 53: Archwilio Cyswllt Byrffyr

<b>Cod yr uned:</b>	<b>F/502/4902</b>
<b>FfCCh Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Yn yr uned hon caiff y dysgwyr eu hannog i ddarganfod cysyniadau sylfaenol cyswllt byrffyr, gan archwilio sut gall dawnswyr symud pwysau'n llwyddiannus drwy ofod, gan ymateb i gyrff, gwrthrychau a grymoedd amrywiol eraill.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae cyswllt byrffyr yn arddull ddawns arloesol, gorfforol iawn sy'n pricio'r meddwl. Mae'n galluogi'r dawnswyr i ddefnyddio eu hymennydd, eu corff a'u sensitifrwydd tuag at ddisgyrchiant, dawnswyr eraill a momentwm i greu eiliadau gwefreiddiol mewn dawns. Yr eiliadau hyn yn y ddawns sy'n gwneud i gynulleidfa ryfeddu at y ffordd y mae'r dawnswyr yn creu'r argraff fod risg ac yn dangos brawddeg clyfar a deunydd arloesol. Gall perfformio cyswllt byrffyr fel gêm ddynamig o wyddbwyll i'r corff a'r meddwl. Mae pob eiliad yn gofyn am ymateb drwy symud ac yn aml gellir cynhyrchu'r coreograffi mwyaf rhyfeddol ac arloesol.

Mae nifer o gwmnïau dawns, coreograffwyr a chyfarwyddwyr dawns ar gyfer camera'n defnyddio cyswllt byrffyr yn offeryn coreograffi ac mae nifer o gwmnïau dawns yn defnyddio codi, gwrthbwyso a gweithredoedd cynnal mewn gweithiau cyfoes. Mae techneg cyswllt byrffyr yn hanfodol i unrhyw un sy'n bwriadu gweithio ym maes coreograffi a pherfformio.

Nod yr uned hon yw rhoi'r wybodaeth sylfaenol i'r dysgwyr am y sgiliau a'r rhyngweithio sylfaenol, gan ystyried y dawnswyr eraill, cyfraniad artistig digymell, ffyrdd o gynnal eu hunain a dawnswyr eraill gan barhau i fod yn gyfrifol ac yn ymwybodol. Yn ogystal mae'r uned yn rhoi amrywiaeth sylfaenol o ymatebion dynamig i'r dysgwyr drwy eu hymwneud yn y broses o greu'n fyrffyr. Gall y rhai sy'n creu'n fyrffyr ddefnyddio amryw o arddulliau dawns fel tango, lindy hop, dawns gyfoes wrth ymwneud â dawnswyr eraill a gellir ymchwilio i gysyniadau rhedeg yn rhydd a theatr gorfforol mewn perthynas â phropiau, setiau a safleoedd. Er mwyn bod yn llwyddiannus bydd angen i'r dysgwyr roi a chymryd pwysau, gan gadw at reolau codi yn ogystal ag ymddygiad safonol y stiwdio ddawns. Yn ogystal mae'n rhaid iddyn nhw fod yn gyfrifol amdanynt eu hunain wrth iddyn nhw symud.

**Bydd y dysgwyr yn cael eu hasesu drwy o leiaf dri pherfformiad byrffyr wedi'i strwythuro sy'n para dwy funud yr un.**

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai dysgwr:

- 1 Gallu dangos ymwybod â llif symud ac egwyddorion sylfaenol cyswllt
- 2 Gallu archwilio cyswllt gydag ysgogiadau a dawnswyr eraill
- 3 Gallu creu'n fyrfyfyr gan ddefnyddio'r ddynmeg mewn perfformiad.

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gallu dangos ymwybod â llif symud ac egwyddorion sylfaenol cyswllt

*Iechyd a diogelwch:* ymgynhesu; dillad priodol; gallu i ymateb i gyfarwyddyd; arferion diogel; ymwybyddiaeth o'r grŵp

*Defnyddio gwahanol arddulliau'n fannau cychwyn:* ee techneg release, Humphrey, Limon, Skinner Release, ioga, tango, rhedeg rhydd, dawns benodol i safle, Techneg Alexander, Ideokinesis, Dull Feldenkrais, dawnsio brêcv, crefft ymladd, capoeira

*Brawddeg:* defnyddio'r anadl; cwmpo; adfer; crogiant; trosglwyddo pwysau

### 2 Gallu archwilio cyswllt gydag ysgogiadau a dawnsyr eraill

*Archwilio cyswllt gydag ysgogiadau:* drwy gyfathrebu a chyfnewid rhwng arwynebau amrywiol ee y llawr, celfi, safleoedd, amgylcheddau, dawnsyr eraill, gwahanol rannau eu cyrff eu hunain a chyrff dysgwyr eraill

*Archwilio cyswllt gyda dawnsyr eraill:* gwrthbwysu: technegau codi; dal; cynnal; cyswllt pwynt i bwynt; ymarferion ymddiried

### 3 Gallu creu'n fyrfyfyr gan ddefnyddio'r ddynnameg mewn perfformiad

*Dynnameg:* creu llif ac ymateb iddo; pwysau; amser; màs

Goblygiadau anatomegol: cynildeb y symudiadau; llwybrau sydd â'r gwrthiant lleiaf; defnyddio eu potensial symud eu hunain; cyfarwyddo ymwybyddiaeth y tu mewn i'r corff

*Datblygu ymatebion creu'n fyrfyfyr:* cychwyn; amgyffred; adlamu; parhau; cynyddu'r symud a'r momentwm; ymatebion amrywiol i ardrawiadau; symbyliad a syrthni

**Bydd y dysgwyr yn cael eu hasesu drwy o leiaf dri pherfformiad byrfyfyr wedi'i strwythuro sy'n para dwy funud yr un.**

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> dangos disgyblaeth a chanolbwynt wrth weithio yn y rhan fwyaf o'r dosbarthiadau [HR]	<b>T1</b> dangos disgyblaeth, canolbwynt ac ymagweddu proffesiynol tuag at weithio ym mhob dosbarth	<b>Rh1</b> dangos ymagweddu hynod ddisgybledig a phroffesiynol tuag at bob dosbarth
<b>LI2</b> dangos gallu i archwilio brawddeg cwmpo ac adfer [MC]	<b>T2</b> dangos gallu i archwilio brawddeg cwmpo ac adfer gyda chrogiant	<b>Rh2</b> dangos brawddeg cwmpo ac adfer yn cael ei werthfawrogi'n hynod ddatblygedig gan ddefnyddio crogiant
<b>LI3</b> adnabod y posibilïadau amlwg wrth ymateb i gysylltiad â deunydd ysgogi [YA, MC, HR]	<b>T3</b> ymateb yn ystyriol i gysylltiad â deunydd ysgogi, gan ddangos parodrwydd i fynd y tu hwnt i archwilio'r amlwg	<b>Rh3</b> ymateb yn fanwl i gysylltiad â deunydd ysgogi mewn ffordd dreiddgar a chynhwysfawr, gan oresgyn ymatebion symud amlwg
<b>LI4</b> dangos ymwybyddiaeth o'r modd y mae'r corff yn gallu rhoi a derbyn pwysau [GT]	<b>T5</b> dangos ymwybyddiaeth eglur o'r modd y mae'r corff yn gallu rhoi a derbyn pwysau	<b>Rh4</b> dangos ymwybyddiaeth fanwl o'r modd y gall y corff roi pwysau'n weithredol a'i dderbyn yn oddefol
<b>LI5</b> dangos ymwybyddiaeth o'r modd y mae dynameg yn effeithio ar greu ac ymateb wrth greu'n fyrfyfyr mewn perfformiad	<b>T5</b> dangos ymwybyddiaeth eglur o'r modd y mae dynameg yn effeithio ar greu ac ymateb wrth greu'n fyrfyfyr mewn perfformiad	<b>Rh5</b> dangos ymwybyddiaeth fanwl o'r modd y mae dynameg yn effeithio ar greu ac ymateb wrth greu'n fyrfyfyr mewn perfformiad
<b>LI6</b> dangos ymatebion i egni sy'n dangos ymwybyddiaeth p oblygiadau anatomegol. [YA, MC]	<b>T6</b> dangos ymatebion ystyriol i egni sy'n dangos ymwybyddiaeth o oblygiadau anatomegol.	<b>Rh6</b> dangos ymatebion manwl i egni sy'n dangos ymwybyddiaeth o oblygiadau anatomegol.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol



# Uned 54:

# Gwerthfawrogi Dawns

<b>Cod yr uned:</b>	<b>F/502/5404</b>
<b>FfCCh Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Mae'r uned hon yn galluogi'r dysgwyr i gael gwybodaeth fanylach am weithiau dawns proffesiynol drwy ddysgu perfformio repertoire yn ymarferol, ymchwilio i goreograffi a damcaniaethau sylfaenol.

## Cyflwyniad i'r uned

Nod yr uned hon yw rhoi'r sgiliau i ddysgwyr allu edrych yn fanylach ar ddawns broffesiynol drwy ymwneud yn fwy yn y prosesau creu a pherfformio dawns. Bydd y dysgwyr yn cael eu hannog i wyllo dawns gan fwynhau a deall llawer mwy drwy'r arsylwi manylach hwn.

Ymagwedd ymarferol yn bennaf at werthfawrogi gweithiau dawns sydd gan yr uned hon. Ni allwn werthfawrogi neu werthuso dawns drwy ddisgrifio'n unig, ond drwy 'ei byw hi' byddwn ni'n ymwneud yn ddychmygus ac yn greadigol â'r hyn sy'n digwydd ym myd dawns. Mae'r uned hon yn deall bod lle i ddisgrifio yn ogystal pan fydd y dystiolaeth i gyd wedi'i chasglu'n ymarferol.

Yn yr uned hon bydd y dysgwyr yn gweld enghreifftiau o goreograffi o ystod eang o genres ac arddulliau sy'n cyd-fynd â gweddill eu cwrs, er mwyn bod yn sylfaen i'r gwahanol arddulliau, ymagweddau coreograffi ac efallai'r technegau y rhoddwyd sylw iddyn nhw. Bydd y dysgwyr yn ail-greu darnau byrion o'r gweithiau proffesiynol hynny. Bydd rhoi'r deunydd symud i mewn i'w corff yn eu helpu i ddeall yr ystyr sydd y tu ôl i'r symud, enwau'r camau (gydag arweiniad), a'r sgiliau corfforol sydd eu hangen ar y dawnsywyr. Yn ogystal mae hyn yn rhoi cyfle i'r dysgwyr berfformio camau proffesiynol. Bydd disgwyl i'r dysgwyr fod â dealltwriaeth dda o nodweddion sydd wedi'u cynnwys yn y darnau a astudiwyd a'u bwriad artistig fel y gallan nhw ddewis un agwedd i greu eu darn gwreiddiol ei hun ohoni. Gellir defnyddio'r ddau weithgaredd hyn i gyfoethogi eu creadigrwydd a'u coreograffi drwy roi geirfa symud iddyn nhw, y gellir ei datblygu mewn ffyrdd newydd a gwreiddiol. Bydd y dysgwyr yn arsylwi amrywiaeth eang o ddeunydd ar ffilm, fideo neu DVD a byddan nhw'n cael eu hannog i wyllo cynifer o berfformiadau byw ag sy'n bosibl. Byddan nhw'n cael eu harwain drwy system ddadansoddi a fydd yn rhoi fframwaith iddyn nhw a fydd yn eu helpu i ddeall yr hyn maen nhw'n ei weld mewn gwirionedd wrth arsylwi dawns. Byddan nhw'n dod i ddehongli dawnsiau o'r gorffennol ac o'r repertoire cyfoes yn wybodus ac yn eu gwerthuso'n briodol.

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai dysgwr:

- 1 Gwybod sut mae cymhwyso system ddadansoddi i weithiau dawns
- 2 Gwybod sut mae dehongli a gwerthuso gweithiau dawns
- 3 Gallu dysgu ac atgynhyrchu darnau o weithiau dawns
- 4 Gallu defnyddio'r repertoire proffesiynol i greu eu dawnsiau eu hunain.



## Cynnwys yr uned

### 1 Gwybod sut mae cymhwyso system ddadansoddi i weithiau dawns

*Nodweddion sy'n rhan o'r ddawns/elfennau'r ddawns:* nifer y dawnsywyr; rolau; gweithredoedd y corff; arddull; defnyddio gofod; dymameg; amseru; gwisgoedd; goleuo; cyfeiliant

*Perthnasoedd:* dawnsiwr â dawnsiwr; gwaith cyffwrdd; dawnsiwr â'r gofod; dawnsiwr â'r gynulleidfa; dawnsiwr â'r cyfeiliant

*Prosesau coreograffi:* ffurf/strwythur dawns; trin a chyfuno elfennau amrywiol; dyfeisiau coreograffi; motifau a datblygiad; thema ac amrywiad

*Dadansoddi:* datblygu cynnwys symud; perthnasoedd mewn gofod; dylunio grŵp: cyfeiliant; dawnsywyr; dymameg; dylunio golygfeydd a gwisgoedd; bwriad y coreograffydd

*Gweithiau dawns proffesiynol o ddwy arddull gyferbyniol:* ee modern, cyfoes, dawns theatr, dawns jazz, dawns tap, bale

### 2 Gwybod sut mae dehongli a gwerthuso gweithiau dawns

*Bwriad:* thema; haniaethu ystyr; cynnwys a'r ymdriniaeth ag ef; ysgogiad

*Cyd-destun:* cefndir economaidd-ddiwylliannol; cyd-destun; genre ac arddull; lleoliad

*Dylanwadau:* ee ffurfiau eraill ar gelf, gwleidyddiaeth, ysgogiadau, dawnsiau eraill, arddulliau

*Gwerthusiad:* effeithiolrwydd a phriodoldeb y coreograffi

### 3 Gallu dysgu ac atgynhyrchu darnau o weithiau dawns

*Perfformiad:* sgiliau corfforol; defnyddio dymameg a gofod yn briodol; osgo; cydlynu; rheolaeth; hyblygrwydd; cryfder; gallu i atgynhyrchu cynnwys yn gywir; cof symud; manylder

*Bwriad y coreograffydd:* perthynas â'r dawnsywyr eraill; sgiliau dehongli; canolbwynt a thaflunio; cerddgarwch; pwyslais; brawddeg; mynegi'r syniadau gwreiddiol y tu ôl i'r symud

### 4 Gallu defnyddio'r repertoire proffesiynol i greu eu dawnsiau eu hunain

*Datblygu symudiadau a brawddegau o'r repertoire proffesiynol:* camau; gweithredoedd y corff

*Archwilio'r un themâu/themâu tebyg i'r rhai a ddefnyddir yn y repertoire proffesiynol:* ee drama dawns, naratif, haniaethol, yr un ysgogiad, yr un priodweddau

Strwythuro'r ddawns gan ddefnyddio'r un ffurfiau a dyfeisiau coreograffi â'r rhai a ddefnyddir gan goreograffwyr proffesiynol: ee unawd, deuawd, rondo, episodig, ôl-rediad, croniad, offeryniaeth

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> nodi prif elfennau a strwythur dau waith dawns broffesiynol sydd ag arddulliau cyferbyniol [YA]	<b>T1</b> disgrifio'r berthynas rhwng elfennau a strwythur amrywiol dau waith dawns broffesiynol sydd ag arddulliau cyferbyniol	<b>Rh1</b> esbonio a chyferbynnu prif elfennau a strwythur dau waith dawns broffesiynol sydd ag arddulliau cyferbyniol
<b>LI2</b> nodi cynnwys y gweithiau dawns [YA]	<b>T2</b> disgrifio'r berthynas rhwng cynnwys y ddawns a'i chyd-destun	<b>Rh2</b> esbonio'n fanwl sut dylanwadodd y cyd-destun ar y coreograffi
<b>LI3</b> nodi priodoldeb ac effeithiolrwydd yr elfennau a ddewisodd y coreograffydd [YA]	<b>T3</b> disgrifio priodoldeb ac effeithiolrwydd y modd ystrwythurodd y coreograffydd yr elfennau mewn perthynas â'r cynnwys er mwyn cyfathrebu ystyr	<b>Rh3</b> esbonio'n fanwl briodoldeb ac effeithiolrwydd y modd y strwythurodd y coreograffydd yr elfennau, drwy adolygu'r gweithiau dawns yn feirniadol gan ddefnyddio dadansoddiad manwl
<b>LI4</b> defnyddio sgiliau corfforol a deongliadol priodol er mwyn atgynhyrchu darnau o weithiau dawns [GT]	<b>T4</b> dangos gwybodaeth am fanylion technegol, cerddgarwch a bwriad mynegiannol mewn perfformiadau o weithiau dawns	<b>Rh4</b> cyfathrebu'n effeithiol ystyr y gweithiau dawns gan roi gofynion technegol y darn o repertoire ar waith yn fedrus a dadansoddi'r priodweddau dynamig a mynegiannol sydd ymhlyg yn y darn yn sensitif
<b>LI5</b> creu gweithiau dawns newydd gan ddefnyddio rhai elfennau symud a/neu themâu a/neu strwythurau o'r repertoire proffesiynol. [MC, GT, HR]	<b>T5</b> creu gweithiau dawns, sy'n dangos datblygiad o'r repertoire proffesiynol drwy ymdrin ag elfennau symud a/neu themâu a/neu strwythurau.	<b>Rh5</b> creu gweithiau dawns, sy'n dangos datblygiad o'r repertoire proffesiynol i gynhyrchu cyfansoddiad arloesol a gwreiddiol.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA — ymholwyr annibynnol	DM — dysgwyr myfyriol	HR — hunanreolwyr
	MC — meddylwyr creadigol	GT — gweithwyr tîm	CE — cyfranogwyr effeithiol